Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol

Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYNGHORAU CYMUNED A THREF

Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ISBN 0 7504 9926 5
Dyluniwyd gan yr Uned Graffeg G/212/03-04

Hydref
INA-15-08-059

© Hawlfraint y Goron 2003
Cysodwyd gan y Gwasanaethau Prosesu Testun

Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Grŵp Ymchwil Newid a Datblygu Rhanbarthol

Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dr Michael Woods
Dr Bill Edwards
Dr Jon Anderson
Dr Graham Gardner
Rachel Hughes

Awst 2003

RHAGAIR

Oddi wrth Sue Essex AC, Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynghorau cymuned a thref yw'r brawd bach o fewn llywodraeth leol. Dyma'r haen agosaf at bobl leol a dyma'r haen y dylai'r cyhoedd uniaethu fwyaf â hi, ond nid yw pobl yn gwybod fawr amdanynt. Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer eu hetholwyr ac am ddarparu a chynnal amwynderau lleol. Maent hefyd yn cyfleu safbwyntiau pobl leol i'r cynghorau sir/bwrdeistref sirol ac i gyrff eraill.

Yr astudiaeth hon gan Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw'r arolwg cynhwysfawr cyntaf o waith cynghorau cymuned a thref Cymru. Mae'n catalogio holl weithgarwch y cynghorau lleol. Rwy'n falch gweld bod mwyafrif llethol y cynghorau cymuned a thref yn cyfrannu'n fawr at les eu hardaloedd. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r cynghorau lleol. Mae'n cyflwyno nifer o gynigion ar gyfer ehangu eu rôl, pe baent am ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau. Mae'r ymchwilwyr yn credu bod gan y cynghorau cymuned a thref botensial i gyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd pobl leol ac at ddemocratiaeth leol.

Byddai'r cyfrifoldebau ehangach yn cynnwys gweithio'n glòs â'r cynghorau sir/bwrdeistref sirol lleol ac â chyrff eraill. Byddai hefyd yn golygu meithrin gallu aelodau etholedig a swyddogion i ddarparu'r gwasanaethau hynny a fyddai'n fwy priodol eu darparu'n lleol. Byddai hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys â chynghorau cymuned eraill, er lles eu hardaloedd.

Mae'r adroddiad yn haeddu cael ei drafod yn eang ym mhob haen o lywodraeth leol a chan y sefydliadau hynny sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol a'r cyhoedd. Byddai hynny'n sicrhau bod cynigion y Cynulliad ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn seiliedig ar ffeithiau cadarn ac ar sylwadau cynghorau lleol, cyrff eraill a'r cyhoedd. Rwy'n eich annog i ddarllen yr adroddiad hwn ac i roi sylwadau ar ei gasgliadau a'i argymhellion.

Sue Essex

CYNNWYS

	Tudalen
Crynodeb Gweithredol	**1**
1. Cyflwyniad	**13 – 16**
Cylch gwaith a diben yr astudiaeth	13
Rhaglen waith a methodoleg	15
Diffiniadau	16
Strwythur yr adroddiad	16
2. Cynghorau cymuned a Thref yng Nghymru: Y Cyd-destun Hanesyddol a Deddfwriaethol	**17 – 19**
Y cyd-destun hanesyddol	17
Y cyd-destun deddfwriaethol	19
3. Nodweddion a Dosbarthiad Cynghorau Cymuned a Thref	**21 - 28**
Trosolwg	21
Manteision cynghorau cymuned a thref	23
Sefydlu a diddymu cynghorau	25
Trefniadau cyfuno	27
Adolygiadau ffin	28
4. Rôl Cynghorau Cymuned a Thref wrth Ddarparu Gwasanaethau ac Amwynderau	**29 - 40**
Trosolwg o'r rhan a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd	29
Dirprwyo swyddogaethau o brif gynghorau	32
Y rhan a gymerir gan gynghorau wrth weithio mewn partneriaeth	38
5. Rôl Gynrychioliadol Cynghorau Cymuned a Thref	**41 - 59**
Rhyngweithio â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol	43
Rhan gynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio	48
Cysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff eraill	52
Cyfathrebu'n electronig â chynghorau cymuned a thref	54
Cynrychiolaeth cynghorau cymuned athref ar gyrff eraill	55
Rôl a photensial y cymdeithasau cynrychioliadol	57

6. Y Modd y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn Cysylltu â'u Cymunedau **61 - 68**

Cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cynghorau 61
Ymghynghori â'r gymuned 63
Cyfathrebu â chymunedau 64
Etholiadau 66

7. Cyllid Cynghorau Lleol a'r Broses Werthuso **69 – 79**

Trosolwg o'r sefyllfa ariannol gyfredol 69
Trethu dwbl 74
Ariannu cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol 76
Rheolaeth Ariannol 78
Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella 78
Gwerthuso perfformiad cynghorau 79

8. Cynghorau a Chlercod **81 - 90**

Tuag at cynghorau mwy cynhwysol 81
Baich gwaith a chydnabyddiaeth cynghorwyr 83
Cod ymddygiad 85
Clercod ac aelodau eraill o staff cynghorau 87
Hyfforddiant 88

9. Casgliad **91 - 95**

Atodiad A: Aelodaeth y Grŵp Llywio **97**

Atodiad B: Methodolwg Fanwl **99 - 105**

Atodiad C: Astudiaethau Achos **107 - 116**

Atodiad D: Nifer y Bobl a Fynychodd Seminarau Cyhoeddus **117 - 119**

Atodiad E: Cyflwyniadau Ysgrifenedig **121 - 122**

Atodiad F: Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref **123 - 124**

Atodiad G: Swyddogaethau a Chyllid Awdurdodau Lleol Cymeradwy yn Ewrop **125 - 128**

Atodiad H: Siarter Enghreifftiol rhwng Prif Gyngor a Cynghorau Cymuned a Thref **129 - 138**

Atodiad I: Gweithredu'r Argymhellion **139 - 144**

Cyfeiriadau **145**

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

C1 Cynghorau cymuned a thref yw'r lefel sylfaenol o lywodraeth yng Nghymru. Mae'r 737 o gynghorau, sy'n gwasanaethu poblogaethau yn amrywio o 155 i 45,053 o bobl, yn darparu cyfrwng sefydliadol pwysig ar gyfer cydweithredu yn lleol – i ddarparu ar gyfer anghenion lleol ac ymateb iddynt; i ddadlau dros fuddiannau'r gymuned; ac i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol. Gyda'i gilydd, mae cynghorau cymuned a thref ledled Cymru yn cynnwys tua 8,000 o unigolion mewn gwasanaeth gwirfoddol fel cynghorwyr, ac maent yn gyfrifol am reoli cyfanswm cyllideb flynyddol o fwy na £25 miliwn.

C2 Mae bodolaeth cynghorau cymuned a thref yn gwella'r system llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd ac yn darparu nifer o fanteision i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys ymatebolrwydd lleol, ymroddiad i gyflwyno buddiannau lleol, y gallu i drefnu gweithgarwch cymunedol, a'r capasiti i ychwanegu at y gwasanaethau a'r cyfleusterau a redir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. O gymharu â mathau eraill o sefydliadau sylfaenol, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol a grwpiau trigolion, mae gan gynghorau cymuned a thref nifer o fanteision sy'n dilyn o'u sylfaen statudol. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn atebol i bobl leol trwy etholiadau, sefydlogrwydd a pharhad, pwerau codi trethi a'r capasiti i weithredu fel catalydd i annog pobl i gymryd rhan mewn gwasanaeth cyhoeddus.

C3 Fodd bynnag, mae pwysau cynyddol dros ddiwygio strwythur cynghorau cymuned a thref a'u harferion gwaith. Cafodd cynghorau mwy gweithredol fod eu capasiti i weithredu wedi'i gyfyngu gan gyfyngiadau deddfwriaethol ac ariannol, a bod trefniadau cysylltu gwael yn eu hatal rhag cysylltu â chyrff eraill. Ar yr un pryd, lleisiwyd pryderon ynghylch pa mor gynhwysol y mae rhai cynghorau, lefel isel yr etholiadau a ymleddir, y gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori â phobl leol a chyfathrebu â hwy, a'r hyfforddiant y mae clercod a chynghorau yn ei dderbyn a'u harbenigedd. Mae llawer o arferion da mewn perthynas â phob un o'r agweddau hyn sy'n achosi pryder, ond mae'r patrwm arfer ledled Cymru yn amrywiol. Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar y materion hyn ac i wneud argymhellion o ran rôl a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a'u potensial i'r dyfodol.

C4 Mae'r adroddiad yn tynnu ar wybodaeth a gasglwyd trwy amrywiaeth eang o ddulliau ymchwil gan gynnwys: arolygon o bob cyngor cymuned a thref a phob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol; astudiaethau achos o ugain cyngor, gan gynnwys arolygon o gynghorwyr trwy holiaduron, cyfweliadau a grwpiau ffocws; cyfweliadau gyda swyddogion cynllunio a rhanddeiliaid a hysbyswyr allweddol eraill; pedwar seminar cyhoeddus; a dadansoddi argymhellion ysgrifenedig. Ceir manylion pellach am yr ymchwil a wnaed i'r materion a'r drafodaeth a gafwyd yn eu cylch yn yr adroddiad llawn ac mewn pedwar papur ymchwil sydd ar gael ar wefan yr astudiaeth yn www.aber.ac.uk/communitygovernance. Mae gweddill y crynodeb hwn yn cyflwyno trosolwg o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Nodweddion a dosbarthiad cynghorau cymuned a thref

C5 Mae'r 737 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gyda'i gilydd yn ymestyn dros 96% o wyneb tir y wlad, ac yn cynnwys 70.1% o'i phoblogaeth. Ceir cynghorau cymuned a thref ar draws holl diriogaeth tri ar ddeg o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac eto ceir hefyd yng Nghymru 115 o 'gymunedau' a diffiniwyd yn swyddogol nad oes unrhyw gyngor ar eu cyfer. Ni wasanaethir dros hanner poblogaeth Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf gan gyngor lleol, ynghyd â rhyw draean o'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot.

C6 Mae dadleuon cryf dros sefydlu cynghorau cymuned ym mhob rhan o Gymru, yn arbennig pe gellid cynyddu eu rôl. Yn ogystal â'r manteision a nodwyd ym mharagraff C2 uchod, pe bai cyngor cymuned ym mhob o Gymru câi capasiti yr haen hon o lywodraeth ei atgyfnerthu ac fe'i gwneid yn fwy amlwg a byddai'n helpu i fynd i'r afael â materion megis trethu dwbl. Mae tystiolaeth bod cefnogaeth dros sefydlu cynghorau mewn cymunedau lle nad ydynt i'w cael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credir bod y system bresennol ar gyfer sefydlu cynghorau newydd yn un rhwystrol. Yn wir, gellid dadlau ei bod yn haws diddymu cyngor sy'n bodoli eisoes. Gall y bygythiad y cânt eu diddymu – nad yw'n bodoli ar gyfer cynghorau cyfatebol yn Lloegr – filwra yn erbyn sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd cynghorau cymuned a thref.

C7 C7 Mae maint poblogaeth ardaloedd cynghorau cymuned a thref yn amrywio o 155 (Llanwrthwl, Powys) i 45,053 (Y Barri). Mae ychydig dros un o bob pum cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o lai na 500 o bobl, ac mae bron hanner yn gwasanaethu poblogaeth o lai na 1,000 o bobl. Ar yr un pryd, mae wyth cyngor sydd â phoblogaethau o fwy nag 20,000 o bobl. Mae maint y gymuned yn dylanwadu gryn dipyn ar gapasiti cyngor i godi arian, symud adnoddau o gwmpas a darparu gwasanaethau ac amwynderau, ac o ganlyniad mae'n cyfyngu ar botensial cynghorau llai o faint yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ymlyniad wrth y cymunedau presennol a chryn dipyn o wrthwynebiad i'r awgrym y dylid gorfodi cynghorau llai o faint i gyfuno. Mae system o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (1972) ar gyfer grwpio cymunedau yn wirfoddol o dan gyngor cyffredin (ac ar gyfer gwrthdroi'r broses hon); system a ddilynwyd yn llwyddiannus gan Gyngor Cwm, Waen a Thremeirchion yn Sir Ddinbych. Rydym o'r farn bod y llwybr gwirfoddol hwn yn cynnig model ar gyfer gwella capasiti cynghorau llai o faint.

Rôl cynghorau cymuned a thref wrth ddarparu gwasanaethau ac amwynderau

C8 Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus ac amwynderau. Fan leiaf, bydd hyd yn oed cynghorau cymuned bach yn gyfrifol fel rheol am arwyddion, hysbysfyrddau, seddau cyhoeddus, cabanau aros bysiau a chofgolofnau rhyfel. Nid yn unig y mae cynghorau mwy o faint yn debygol o ddarparu amrywiaeth ehangach o gyfleusterau, ond gallant ddarparu amwynderau o radd uwch hefyd megis canolfannau cymunedol a chyfleusterau hamdden dan do. Ar ben hynny mae nifer o gynghorau wedi dechrau prosiectau arloesol i ddiwallu anghenion lleol penodol, er enghraifft, tasglu cymunedol a chynllun chwarae haf a redir gan Gyngor Cymuned Cwmbrân, a chanolfan adnoddau gymunedol a ddatblygwyd gan Gyngor Cymuned Offa.

C9 Mae gan gynghorau cymuned a thref, ac yn arbennig y cynghorau mwy o faint, gryn ddiddordeb mewn cynyddu eu rôl o ran darparu gwasanaethau ac amwynderau. Mae llawer o gynghorau lleol wedi dadlau eu bod mewn gwell sefyllfa na phrif gynghorau i ymateb i anghenion lleol a bod yn atebol i'r gymuned, ac y byddai cynyddu eu rôl o ran cyflwyno gwasanaethau yn hyrwyddo ymdeimlad o 'berchenogaeth' gan y gymuned ar wasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau, ac y byddai'n symbylu trigolion lleol i chwarae rhan fwy amlwg fel cynghorwyr cymuned a thref. Fodd bynnag, mae capasiti cynghorau cymuned llai o faint i ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol wedi'i gyfyngu gan adnoddau, arbenigedd a'r ffaith na chynhelir cyfarfodydd o'r cyngor yn aml. Lleisiodd nifer o gynghorau llai o faint eu pryder y caent eu 'gorfodi' i ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau yn erbyn eu hewyllys pe cynigid trosglwyddo swyddogaethau i unrhyw raddau sylweddol. Ar ben hynny mae materion yn ymwneud â cholli arbedion maint a chydlynu gwasanaethau yn strategol ar draws tiriogaeth ehangach y mae angen eu hystyried wrth werthuso'r potensial ar gyfer datganoli cyfrifoldebau dros wasanaethau penodol i gynghorau cymuned a thref.

C10 Mae llawer o'r 32 o feysydd lle y gall cynghorau cymuned a thref weithredu trwy statud yn swyddogaethau cyfochrog a ddelir ar y cyd â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Ar hyn o bryd cyflawnir llawer o'r swyddogaethau hyn ar draws rhannau mawr o Gymru gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol. Felly, er nad ydym o'r farn bod dadl gref dros gynyddu swyddogaethau statudol cynghorau cymuned a thref, rydym o'r farn y gellid datblygu'r rhan a chwaraeir ganddynt wrth ddarparu gwasanaethau trwy annog cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i ddirprwyo mwy o gyfrifoldebau dros swyddogaethau cyfochrog. Mae'r graddau y dirprwyir swyddogaethau o brif gynghorau i gynghorau cymuned a thref yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Dim ond rhyw ddau o bob pum cyngor cymuned a thref sydd ag unrhyw gyfrifoldebau a ddirprwywyd iddynt gan eu prif gynghorau, gan amlaf mewn perthynas â hawliau tramwy, goleuadau stryd ac enwi strydoedd. Argymhellir hyrwyddo cytundebau Siarter rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref fel modd i ffurfioli'r fframwaith ar gyfer dirprwyo swyddogaethau, a fydd yn annog cynghorau i wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleuster hwn..

C11 Byddai rôl ehangach ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau yn creu pwysau newydd ar gynghorau o ran personél, rheolaeth ariannol, atebolrwydd cyfreithiol a gwybodaeth ac arbenigedd technegol. Er lles y cyhoedd bydd angen sicrhau bod cynghorau sy'n derbyn swyddogaethau a ddirprwywyd yn gallu ymateb yn foddhaol i'r pwysau hyn. Argymhellir, er mwyn bod yn gymwys i ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig, y dylai fod angen i gynghorau cymuned a thref basio 'prawf achredu' yn gyntaf trwy fodloni meini prawf yn gysylltiedig â chymhareb yr aelodau etholedig i'r aelodau a gyfetholwyd, hyfforddiant, pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd, cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cyngor ac ymgynghori a chyfathrebu â'r gymuned.

C12 Bydd y meini prawf achredu o blaid cynghorau cymuned a thref mwy o faint. Er mwyn sicrhau bod y cyfle i wneud cais am swyddogaethau dirprwyedig mor gynhwysol â phosibl, gellid hefyd achredu grwpiau o gynghorau. Gallai'r cyfryw grwpiau, er enghraifft, ddilyn model arfer da Penarlâg, Shotton a Brychdwn a Bretton yn Sir y Fflint, sydd wedi cyfuno adnoddau i weithredu gwasanaeth cynnal a chadw ar y cyd ar gyfer goleuadau stryd, meysydd chwarae a gwaith cynnal a chadw adeiladau, a gwasanaeth gweinyddol ar y cyd.

C13 Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn cynnig y cyfle i ehangu cwmpas gweithgarwch cyngor, o ran partneriaeth rhwng cynghorau a phartneriaethau gyda chyrff eraill, gan gynnwys sefydliadau cymunedol lleol a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae o leiaf un o bob pum cyngor wrthi'n gweithio mewn rhyw fath o bartneriaeth â chyrff eraill, gan gynnwys aelodau sefydliadau partneriaeth a sefydlwyd yn annibynnol, a phrosiectau partneriaeth wedi'u cydariannu. Prif gynghorau yw'r partneriaid mwyaf cyffredin, ond mae partneriaid hefyd yn cael eu tynnu o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae prosiectau yr ymgymerwyd â hwy trwy weithio mewn partneriaeth yn cynnwys cynlluniau teledu cylch cyfyng (CCTV), darparu cabanau aros bysiau ac offer chwarae, parciau sgrialfyrddio, cynlluniau treftadaeth ac amgueddfeydd, adnewyddu neu ailddatblygu adeiladau, a mentrau amgylcheddol megis plannu coed, adfer tir a chreu ardaloedd bywyd gwyllt a llwybrau.

C14 Gall heriau godi hefyd wrth weithio mewn partneriaeth, yn arbennig os bydd partneriaid eraill yn cynnwys prif gynghorau ac asiantaethau cyhoeddus. Fel gwirfoddolwyr, mae cynrychiolwyr o gynghorau cymuned a thref yn credu nad ydynt wedi'u paratoi cystal a'u bod yn llai cymwys i gyfrannu at fusnes na'r swyddogion proffesiynol sy'n cynrychioli partneriaid eraill. Felly, efallai y bydd cynghorwyr yn cael llai o ddylanwad ar yr agenda a'r penderfyniadau a wneir gan bartneriaethau nag yr hoffent ei gael. Er mwyn sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn gweithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth â chynghorau a chyrff eraill mae angen i bartneriaid eraill, yn arbennig partneriaid yn y sector cyhoeddus, fod yn fwy ymwybodol o amgylchiadau cynghorwyr lleol, ond hefyd mae angen darparu gwell cyngor a hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr lleol sy'n ymwneud â gweithgareddau partneriaeth.

Rôl gynrychioliadol cynghorau cymuned a thref

C15 Mae cynrychioli buddiannau lleol yn rhan hollbwysig o waith cynghorwyr cymuned a thref, ac mae tri o bob pedwar cynghorydd o'r farn mai dyma un o'r ffyrdd allweddol y gallant wasanaethu eu cymuned orau. Mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu ag amrywiaeth eang o gyrff. Mae hyn yn digwydd ar wahanol raddfeydd a cheir amrywio o ran pa mor aml y maent yn gwneud hynny, a gall fod gan hyd yn oed gynghorau cymuned bach, er enghraifft, hyd at ddwsin o eitemau o ohebiaeth â chyrff allanol, gan gynnwys prif gynghorau, i gyflwyno adroddiad arnynt yn eu cyfarfodydd. .

C16 Yr heriau mwyaf a wynebir gan gynghorau cymuned a thref wrth gynrychioli buddiannau lleol yw diffyg amser, adnoddau a gwybodaeth. Mae ymgynghoriadau yn aml yn mynnu ymateb yn ôl amserlen nad yw'n cyd-fynd ag amserlen cyfarfodydd cyngor. Gall dogfennau ymgynghori fod yn swmpus neu mewn cywair amhriodol ac yn anodd eu cylchredeg i aelodau. Pan fydd cynghorau yn ceisio dechrau cysylltu â chyrff allanol gallant ei chael yn anodd i nodi'r mannau cysylltu priodol. Yn fwy cyffredinol, mae cynghorau wedi lleisio eu pryder ynghylch adborth gwael ac atebion araf i ohebiaeth. Gellir mynd i'r afael â'r heriau a'r problemau hyn trwy fabwysiadu arfer da ar y ddwy ochr. Mae angen i sefydliadau ymgynghori fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar gynghorau cymuned a thref ac o'u capasiti, ac mae angen iddynt nodi gweithdrefnau cysylltu clir. Yn yr un modd, mae angen i gynghorau cymuned a thref sicrhau bod strwythur eu pwyllgorau a chylch eu cyfarfodydd yn eu galluogi i gymryd rhan effeithiol mewn ymgynghoriadau.

C17 Perthynas allanol bwysicaf y mwyafrif o gynghorau cymuned a thref yw'r berthynas rhyngddynt a'u cyngor sir lleol neu eu cyngor bwrdeistref sirol lleol. Bydd cyngor cymuned nodweddiadol yn ymdrin â mwy na hanner dwsin o faterion gohebiaeth gan y prif gyngor neu i'r prif gyngor ym mhob cyfarfod. Fodd bynnag, mae ansawdd y berthynas hon yn amrywio gryn dipyn a lleisiwyd pryderon gan gynghorau cymuned a thref ynghylch y ffaith nad oes unrhyw fannau cysylltu clir ac ynghylch cysylltu gwael rhwng prif adrannau gwahanol y cyngor, cyngor anghyson a gyhoeddir gan wahanol adrannau, llythyrau a negeseuon e-bost nad ydynt yn cael eu hateb, a diffyg adborth ynghylch cwynion a wnaed ynghylch prosiectau a mentrau a gynhelir ar y cyd.

C18 Fodd bynnag, mae llawer o enghreifftiau o arfer da y dylid eu mabwysiadu yn fwy eang. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref lleol, dynodi swyddog cyswllt cynghorau cymuned o fewn cyngor sir/cyngor bwrdeistref sirol, a sicrhau bod cynghorau cymuned a thref wedi'u cynrychioli ar brif bwyllgorau ardal cynghorau (neu'r pwyllgorau sy'n cyfateb iddynt). Gall cytundeb Siarter, fel yr un a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, helpu i ffurfioli a hyrwyddo arfer da.

C19 Mae gan gynghorau cymuned a thref rôl arbennig o bwysig i'w chwarae wrth gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio. Amcangyfrifir bod y mwyafrif o adrannau cynllunio yn anfon hysbysiadau o rhwng 500 a 1500 o geisiadau i gynghorau cymuned a thref bob blwyddyn, ac yn derbyn ymatebion i fwy na 80% o'r ceisiadau. Yn y mwyafrif helaeth o achosion mae barn y cyngor cymuned yn cyd-fynd â phenderfyniad pwyllgor cynllunio'r prif awdurdod. Fodd bynnag, crëir tensiynau pan na ddilynir yr argymhelliad, fel arfer am nad yw safbwynt y cyngor cymuned yn cyd-fynd â pholisi cynllunio na chyfraith gynllunio. Gellid lliniaru'r cyfryw densiynau trwy sicrhau gwell llif gwybodaeth, gan gynnwys cylchredeg cylchlythyrau cynllunio, digwyddiadau hyfforddi a gwybodaeth, gwell adborth a chynnwys cynghorau cymuned a thref yn y broses cynllunio strategol.

C20 Mae potensial hefyd i gynyddu'r cyfleoedd sydd i gynghorau cymuned a thref gyfrannu at y broses gynllunio. Gellid mabwysiadu yn fwy eang yr arbrawf llwyddiannus a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy lle y caniatawyd i gynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref annerch cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio, a hefyd yr arfer o wahodd cynghorwyr cymuned a thref i fod yn bresennol yn ystod ymweliadau â safleoedd. Yn y tymor hwy, efallai yr hoffai awdurdodau cynllunio ystyried dirprwyo penderfyniadau ar fân faterion cynllunio i gynghorau cymuned a thref achrededig yn seiliedig ar y model a arloeswyd gan Gyngor Bwrdeistref Taunton Deane yng Nghwlad yr Haf. Mae cymdeithasau'r cynghorau cymuned a thref hefyd wedi dadlau dros gyflwyno hawl trydydd parti i apelio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r mater hwn yn fwy cymhleth am ei fod yn codi pryderon ynghylch cost ac effeithlonrwydd y system gynllunio, ond dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud rhagor o ymchwil iddo.

C21 Cynrychiolir cynghorau cymuned a thref yn uniongyrchol ar amrywiaeth eang o gyrff sydd o fewn eu cymunedau neu sydd â chylch gwaith yn cynnwys eu cymunedau. Yn aml sefydliadau a phwyllgorau ydynt sy'n derbyn cymorth ariannol ganddynt, ond maent hefyd yn cynnwys cyrff llywodraethol ysgolion cynradd y mae ganddynt hawl statudol i benodi llywodraethwyr iddynt. Mae trefniadau o'r math hwn yn dwyn manteision i'r ddwy ochr ac maent yn sicrhau bod yna atebolrwydd ar gyfer arian cyhoeddus a chyfreithlondeb democrataidd ac yn helpu i sicrhau y cydlynir gweithgareddau cymunedol. Mae lle i'r cynghorau cymuned a thref gael eu cynrychioli ar gyrff a mentrau eraill a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys cyrff llywodraethol ysgolion uwchradd a'r partneriaethau a sefydlwyd o dan raglenni Cymunedau'n Gyntaf ac Ardaloedd Gwella Busnes a rhaglen Gweithredu Cymunedau Gwledig. Dylid ystyried a ddylai cynghorau cymuned a thref gael eu cynrychioli ar awdurdodau parc cenedlaethol hefyd.

C22 Cynrychiolir y sector cynghorau cymuned a thref yn ei gyfanrwydd yn genedlaethol gan ei gymdeithasau cynrychioliadol. Bydd cyfuno'r sefydliadau hyn yn un gymdeithas, sef Un Llais Cymru, proses sydd ar y gweill, yn gwella ansawdd y gynrychiolaeth hon. Mae gan Un Llais Cymru y potensial i chwarae rhan flaenllaw yn y broses o ddatblygu cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol a bydd yn bwysig sicrhau ei fod yn mabwysiadu strwythur a chylch gwaith sy'n cynyddu cymaint â phosibl ei gapasiti i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Cysylltu cynghorau cymuned a thref â'u cymunedau

C23 Un o gryfderau mawr cynghorau cymuned a thref yw eu bod yn agosach at bobl leol na'r un haen arall o lywodraeth. Ac eto, yn ymarferol, gall ansawdd y rhyngweithio â'r cyhoedd gan gynghorau lleol a pha mor agored yw'r rhyngweithio hwnnw amrywio gryn dipyn. Yn hanesyddol, dibynnai llawer o gynghorau cymuned a thref ar ryngweithio anffurfiol rhwng eu haelodau a thrigolion lleol, a oedd yn adnabod ei gilydd fel cymdogion, cwsmeriaid, cydweithwyr, neu gydaelodau o glybiau, timau chwaraeon, eglwysi a chapeli. Mae natur gyfnewidiol cymdeithas yng Nghymru wedi tanseilio'r cysylltiadau anffurfiol traddodiadol hyn. Ni ellir cymryd yn ganiataol bellach y bydd 'pawb' yn gwybod pwy yw'r cynghorwyr cymuned neu dref, neu fod cyfleoedd i'w cael pan fydd cynghorwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â thrigolion lleol eraill. Yn lle hynny, mae angen i gynghorau erbyn hyn sefydlu systemau mwy ffurfiol ar gyfer cysylltu â'u cymunedau, gan gynnwys cynnwys y cyhoedd yng nghyfarfodydd y cyngor a gwahanol fathau o ymgynghoriadau.

C24 Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl statudol i fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref, ond dim ond yn ôl disgresiwn y cadeirydd y gallant siarad. Mae tua chwarter y cynghorau cymuned a thref wedi cyflwyno cyfnod ffurfiol i'r cyhoedd gymryd rhan yn eu cyfarfodydd ac mae tua hanner yn caniatáu i etholwyr siarad yn fwy achlysurol ac yn fwy anffurfiol. Yn y mwyafrif o achosion, nifer fach o aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y cyngor yn rheolaidd; fodd bynnag, mae darparu cyfleoedd yn ffurfiol i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn fenter ddemocrataidd bwysig, a phan y'i defnyddir gall helpu i sicrhau bod y cyngor yn ymateb i bryderon lleol, ac i annog y cyhoedd i gymryd diddordeb ym musnes y cyngor.

C25 Gall yr iaith y cynhelir busnes y cyngor ynddi fod yn bwnc sensitif a dadleuol. Mewn 18% o gynghorau cymuned a thref, Cymraeg yw'r unig iaith neu'r brif iaith a ddefnyddir mewn cyfarfodydd. Yn yr un modd, mae tua 12% o gynghorau yn ysgrifennu eu cofnodion yn Gymraeg yn unig, ac mae lleiafswm bach iawn yn cylchredeg agendâu yn Gymraeg yn unig. Mae'r cyfryw arferion yn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg yn y cymunedau dan sylw ac mae'n rhaid eu canmol am helpu i sicrhau bod i'r Gymraeg le canolog ym mywyd y gymuned o hyd. Fodd bynnag, i'r trigolion yn y cymunedau hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg gallant fod yn arferion gwaharddol sy'n cyfyngu ar gyfranogiad democrataidd. Erbyn hyn mae'n ofynnol i gynghorau cymuned a thref lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y gofyniad hwn yn helpu i sicrhau y gall pob aelod o'r gymuned ddarllen agendâu, cofnodion a dogfennau priodol eraill, ond bydd hefyd yn creu galwadau ychwanegol ar adnoddau y bydd angen eu monitro, ac, os oes angen, eu cynorthwyo.

C26 Mae ymgynghori'n rheolaidd â thrigolion lleol yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cyngor a'i gymuned ac yn sicrhau ei fod yn fwy effeithiol wrth gynrychioli buddiannau lleol. Bydd y dull mwyaf priodol o ymgynghori â'r cyhoedd yn amrywio yn ôl maint y gymuned a natur y pwnc dan sylw. Ers 1999, mae mwy na hanner y cynghorau cymuned a thref yng Nghymru wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, ac mae chwarter wedi cynnal arolygon o wahanol fathau. Mae nifer lai wedi cynnal arolygon barn ffurfiol o etholwyr lleol.

C27 Yn fwy fel rhan o'r drefn, dylai egwyddorion llywodraeth agored fynnu bod cynghorau cymuned a thref yn rhagweithiol wrth drosglwyddo gwybodaeth am eu cyfarfodydd a'u gweithgareddau i bobl leol. Unwaith eto bydd y dull mwyaf priodol o wneud hyn yn amrywio, ond gall gynnwys mentrau megis llunio a dosbarthu cylchlythyrau a/neu adroddiadau blynyddol, neu gynnal gwefan fanwl.

C28 Mae gan gynghorau cymuned a thref fantais dros grwpiau cymunedol eraill am fod eu cyfreithlondeb yn deillio o fandad etholiadol. Ac eto, yn ymarferol, dim ond lleiafswm o gynghorau cymuned a thref sydd wedi mynnu cynnal pleidleisiau a ymladdwyd i ethol eu haelodau mewn blynyddoedd diweddar, ac mae llawer wedi cael trafferth i ddenu ymgeiswyr. Yn y set ddiwethaf o etholiadau llawn ym 1999, cynhaliwyd pleidleisiau a ymladdwyd mewn ychydig dros un o bob pum ward cyngor tref. Mewn bron traean o'r wardiau, enwebwyd llai o ymgeiswyr na nifer y seddi a oedd ar gael, tra nad enwebwyd yr un ymgeisydd mewn tua 40 ward. Mae angen annog pobl i gymryd rhan fwy amlwg mewn etholiadau i gynghorau cymuned a thref, a all gynnwys mentrau i roi cyhoeddusrwydd i etholiadau ac i leihau'r gost sy'n gysylltiedig â threfnu etholiadau a all lesteirio cynghorau llai o faint rhag annog ymgeiswyr i gynnig eu hunain.

Cyllid cynghorau lleol a'r broses werthuso

C29 Mae cynghorau cymuned a thref yng Nghymru gyda'i gilydd yn rheoli cyfanswm cyllideb o tua £25 miliwn y flwyddyn. O'r swm hwn, codir £18.9 miliwn trwy'r archebiant, a cheir swm amcangyfrifedig pellach o £5-6 miliwn o ffynonellau incwm eraill. Codir tua dwy ran o bump o gyfanswm incwm cynghorau cymuned a thref gan y 30 o gynghorau mwyaf, tra bod gan gynghorau sy'n gwasanaethu cymunedau â phoblogaeth o lai na 500 o bobl incwm blynyddol sy'n llai na £3,000. Mae'r graddau y mae cynghorau unigol yn dibynnu ar yr archebiant yn amrywio hefyd, ac ni phennodd pedwar cyngor unrhyw archebiant yn 2002-3 am fod ganddynt ddigon o incwm arall.

C30 Mae patrymau gwario gan gynghorau cymuned a thref yr un mor amrywiol, ac maent yn dibynnu ar faint y cyngor a'r ystod o wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir ganddo. Cyflog y clerc, yswiriant a ffïoedd archwilio yw'r unig feysydd gwariant gwirioneddol ar gyfer pob cyngor, neu bron bob cyngor, ac maent yn cyfrif am ychydig dros bumed rhan o gyfanswm gwariant cynghorau lleol. Mae meysydd gwariant pwysig eraill yn cynnwys neuaddau pentref a chymuned, costau swyddfa, goleuadau, parciau a chostau cyflogau staff ar wahân i'r clerc.

C31 Mae adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i awdurdod lleol wario arian at "unrhyw ddiben sydd yn ei farn ef o fantais uniongyrchol i'w ardal neu i'r trigolion", o fewn terfyn a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – a godwyd i £5 fesul etholwr yn 2000 ac sydd bellach wedi'i gysylltu â chwyddiant. Gwariodd tua thri chwarter y cynghorau cymuned a thref arian o dan y ddarpariaeth hon yn 2001-2, a daeth cyfanswm amcangyfrifedig y gwariant i ychydig dros £2 miliwn. Mae rhywfaint o alw gan gynghorau cymuned a thref am ddileu'r uchafswm ar wariant o dan Adran 137. Fodd bynnag, nid oes mwy na hanner dwsin o gynghorau sy'n gwario yn agos at y terfyn ar hyn o bryd ac mae'r mwyafrif o'r cynghorau yn gwario llai na 10% o'r arian y caniateir iddynt ei wario. Felly, rydym o'r farn nad oes fawr ddim tystiolaeth o blaid dileu na chodi'r terfyn gwariant yn y dyfodol agos.

C32 Bydd rôl gynyddol cynghorau cymuned a thref yn creu galwadau newydd ar gyllid cynghorau, nid yn unig i wella swyddogaethau a ddirprwywyd, ond i dalu am gymorth gweinyddol, ymgynghoriadau ac i gynnal rôl helaethach cynghorau mewn gweithgarwch cynllunio a gweithio mewn partneriaeth ac mewn gweithgarwch cynrychioliadol. Dadleuwyd er mwyn ariannu'r cyfryw ddatblygiadau, y dylid rhoi i gynghorau cymuned a thref gyfran o'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a/neu dderbyniadau o drethi annomestig. Mae'r cynigion hyn yn codi problemau mewn egwyddor ac yn ymarferol, gan gynnwys pryderon ynghylch croesnoddi ardaloedd sydd â chynghorau lleol gan y rhai nad oes ganddynt gynghorau lleol, a chymunedau gwledig lle nad oes fawr ddim busnesau sy'n talu trethi gan drefi a chymunedau trefol bach; ac ynghylch y strwythurau rheolaeth ariannol sydd yn eu lle ar gyfer llawer o gynghorau cymuned llai o faint.

C33 Gellir darparu arian ychwanegol yn fwy priodol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn ganolog trwy ddefnyddio grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai mentrau a allai fod yn rhan o gyfran ddechreuol o grantiau uniongyrchol gynnwys Cronfa Democratiaeth Leol i gwrdd â chostau yn gysylltiedig ag etholiadau i gynghorau cymuned a thref; Cynllun Grantiau i Fusnesau a Chymunedau i gynorthwyo mentrau sydd yn bennaf o fantais i fusnesau lleol neu sydd o gryn fantais iddynt; ac yng Nghymru rhaglen sy'n cyfateb i raglen 'Vital Villages' yn Lloegr a sefydlwyd i ganiatáu i gynghorau cymuned a thref ddefnyddio arian ar gyfer prosiectau datblygu cymuned.

C34 Yn gysylltiedig ag ehangu'r rôl a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau mae risg efallai y caiff problem trethu dwbl ei gwaethygu. Mae'r broblem hon yn codi pan gyflawnir swyddogaethau mewn rhai cymunedau gan y cyngor cymuned neu dref ond gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol mewn cymunedau eraill yn yr un ardal awdurdod lleol. Yn y sefyllfa hon, gall trethdalwyr lleol i bob pwrpas fod yn talu am yr un gwasanaeth ddwywaith, unwaith trwy'r archebiant, ac unwaith trwy'r dreth gyngor gyffredinol. Gellir cwtogi ar broblem trethu dwbl trwy lynu wrth egwyddorion arfer da. Pan ddirprwyir swyddogaethau gan brif gynghorau i gynghorau cymuned a thref, dylid

trosglwyddo swm priodol o arian hefyd, fel na fydd unrhyw alw ychwanegol ar yr archebiant. Mae'n anos mynd i'r afael â phroblem trethu dwbl pan fydd yn deillio o drefniadau a sefydlwyd ar gyfer darparu swyddogaethau cyfochrog gan brif gynghorau a chynghorau lleol. Mae nifer o strategaethau y gellid eu mabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â hyn, ond mae'n debyg y bydd gwahanol strategaethau yn briodol mewn gwahanol gyd-destunau ac mae angen gwybod mwy am arferion cyfredol cyn y gellir cyhoeddi arweiniad pendant.

C35 Dylid dilyn egwyddorion tryloywder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd cyhoeddus yn holl weithdrefnau ariannol cynghorau cymuned a thref. Arddelir yr egwyddorion hyn eisoes gan y mwyafrif llethol o gynghorau, ond bydd datblygu eu rôl ymhellach yn dod â heriau a chyfrifoldebau newydd yn ei sgîl. Dylai glynu wrth gyfundrefn archwilio briodol a llunio datganiad ariannol blynyddol fod yn gonglfeini i arferion rheolaeth ariannol pob cyngor. Ar ben hynny efallai y bydd yn ddefnyddiol i gynghorau mwy o faint gymryd rhan yn wirfoddol yn Rhaglen Gwella Cymru a dylid datblygu protocol i hwyluso hyn.

C36 Nid dim ond mewn cysylltiad â rheoli arian cyngor y dylai'r egwyddorion a restrwyd uchod fod yn berthnasol, ond dylid eu dilyn ym mhob un o feysydd gweithgarwch y cyngor. Mae mabwysiadu cynlluniau a thargedau busnes gan gynghorau cymuned a thref yn darparu fframwaith ar gyfer monitro a hunanwerthuso a all gynorthwyo etholwyr lleol i ffurfio barn am berfformiad cynghorau.

Cynghorwyr a chlercod

C37 Mae tua 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref yng Nghymru. Maent yn bobl o oed, o gymharu â llai na 30% o'r boblogaeth oedolion. Mae llai nag un ym mhob cant o gynghorwyr dan 25 oed, ac mae llai nag un o bob chwech dan 45 oed. Datgelodd dadansoddiad pellach o arolwg o bob cefndir, ond nid ydynt yn adlewyrchu yn ôl eu cyfran gyfansoddiad y boblogaeth yn gyffredinol. Dynion yw bron tri o bob pedwar cynghorydd cymuned a thref, o gymharu ag ychydig o dan hanner y boblogaeth. Mae pedwar ym mhob deg dros 60 gynghorwyr ar 17 o gynghorau a fu'n destun astudiaeth achos mai dim ond traean a oedd mewn swydd llawn amser, bod dau o bob pump wedi ymddeol a bod bron tri chwarter wedi byw yn y gymuned trwy gydol eu hoes neu eu bod yn byw yno ers mwy na 20 mlynedd. Roedd pob un o'r cynghorwyr yn yr arolwg yn wyn.

C38 Mae cynghorau nad yw eu haelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn gyfyngedig o ran eu gallu i gysylltu â'r gymuned honno a chynrychioli ei buddiannau yn llawn wrth ymdrin â chyrff allanol. Mae gan gynghorau cynhwysol berthynas gyfoethocach â'u cymunedau. Mae'r cyhoedd yn cymryd mwy o ddiddordeb a mwy o ran yng ngwaith y cynghorau hyn a gall y cynghorau hyn fod yn eiriolwyr mwy effeithiol dros fuddiannau'r gymuned. Mae angen i gynghorau weithio i sicrhau eu bod yn fwy cynhwysol trwy fentrau sy'n cysylltu â grwpiau heb ddigon o gynrychiolaeth megis merched, lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, cymunedau anabl a grwpiau eraill y mae'n anodd eu cyrraedd.

C39 Mae'r ymrwymiad amser a wneir gan lawer o gynghorwyr cymuned a thref yn sylweddol. Treuliodd y 146 o gynghorwyr a arolygwyd yn yr astudiaeth hon 13.2 awr y mis ar gyfartaledd ar weithgarwch y cyngor, a rhoddodd un cynghorydd hyd at 120 o oriau y mis i'r cyngor. Mae'r ymrwymiad amser hwn nid yn unig yn cynnwys mynychu cyfarfodydd y cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau, ond hefyd paratoi gwaith papur, darllen dogfennau ymgynghori, ysgrifennu llythyrau, cyfarfodydd â swyddogion prif gynghorau a chyrff allanol eraill, cyfarfodydd ag etholwyr, gwaith achos, mynychu digwyddiadau dinesig, a chynrychioli'r cyngor ar gyrff eraill ac mewn cyfarfodydd a chynadleddau.

C40 Gall yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan lawn yng ngweithgarwch y cyngor lesteirio darpar gynghorwyr, yn arbennig y rhai mewn swyddi llawn amser neu sydd ag ymrwymiadau teuluol neu'r rhai y mae eu hamser rhydd neu'r arian sydd ganddynt i'w wario yn gyfyngedig. Mae dadl gref dros roi cydnabyddiaeth i gynghorwyr cymuned a thref, fel gwobr am ofynion cynyddol y rôl, ac er mwyn hyrwyddo cyfranogiad ehangach. Byddai cyflwyno taliadau yn ddadleuol. Fe'i gwrthwynebid yn gryf gan lawer o gynghorwyr. Fodd bynnag, deuwn i'r casgliad, wedi pwyso a mesur, y byddai cyflwyno lwfans sylfaenol ar gyfer aelodau cynghorau, a rheolaethau i ganiatáu i gynghorau ad-dalu costau gofal plant a gofal rhyddhad ar gyfer oedolion dibynnol yr aed iddynt trwy fynychu cyfarfodydd, yn gyfraniad cadarnhaol at wneud cynghorau yn fwy cynhwysol.

C41 Ers Ebrill 2002, bu cynghorwyr cymuned a thref yn ddarostyngedig i'r un fframwaith moesol ag aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Roedd cyflwyno cod ymddygiad newydd yn gam dadleuol mewn llawer o gynghorau, ond gellir ystyried ei fod yn gam pwysig o ran cydnabod y nifer gynyddol o gyfrifoldebau sydd gan gynghorau cymuned a thref, ac felly y pwyslais sy'n cael ei roi o'r newydd ar sicrhau safonau uniondeb ac ymddygiad proffesiynol uwch. Ar yr un pryd, methodd y penderfyniad i gymhwyso'r cod yn unffurf at bob cyngor gydnabod natur amrywiol cynghorau cymuned a thref ac mae achos dros adolygu pa mor briodol yw'r cod yn ei ffurf bresennol ar gyfer cynghorau llai o faint.

C42 Ar ben hynny bydd i rôl gynyddol cynghorau cymuned a thref oblygiadau ar gyfer rôl ac amodau gwaith clercod. Dim ond un cyngor ym mhob ugain sy'n cyflogi clerc llawn amser ar hyn o bryd, ac mae gan gyfran fach glercod gwirfoddol. Yn achos dau draean o'r cynghorau y clerc yw'r unig gyflogai, a hyd yn oed mewn cynghorau mwy o faint gall fod mai dim ond staff ysgrifenyddol iau neu staff cynnal a chadw sy'n cynorthwyo'r clerc. Felly, mae llawer o glercod yn gweithio oriau sylweddol hwy na'r rhai a nodir yn ffurfiol gan eu contractau, ac mae llawer o glercod wedi gorfod ymgyfarwyddo â gwybodaeth dechnegol am reolaeth ariannol, yswiriant, cyfreithiau iechyd a diogelwch a materion eraill. Gall yr adnoddau sydd ar gael i glerc fod yn gyfyngedig hefyd: nid oes unrhyw beiriant ffacs ar gael i drigain y cant o glercod, nid oes unrhyw lungopïwr ar gael i ddeugain y cant ac nid oes unrhyw gyfrifiadur ar gael i ugain y cant. Wrth i gynghorau ddatblygu eu rôl, bydd angen adolygu nifer y personél a'r math o bersonél a gyflogir ganddynt, a'r adnoddau a ddarperir.

C43 Mae o'r pwys pennaf, er mwyn datblygu rôl cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol, y rhoddir hyfforddiant mwy cynhwysfawr i glercod ac aelodau cynghorau. Ar hyn o bryd, dim ond chwarter y clercod sydd wedi cymryd rhan mewn unrhyw gyrsiau hyfforddi ffurfiol ac mae'r hyfforddiant ffurfiol a roddir i gynghorwyr yn fwy cyfyngedig byth. Dylai fod yn arferol disgwyl y bydd clercod yn gweithio i gynghorau cymuned a thref wedi cwblhau rhaglen hyfforddi ffurfiol a dylai aelodau cynghorau gael eu hyfforddi fel rhan o'r drefn. Mae gan Un Llais Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran hwyluso'r cyfleoedd hyn trwy ddatblygu cyfres gynhwysfawr o ddarpariaeth hyfforddi ar gyfer cynghorwyr, clercod a gweithwyr cyngor eraill.

Casgliad

C44 Mae'n anochel y bydd y crynodeb o'r canfyddiadau yma yn glastwreiddio i ryw raddau natur amrywiol y sector cynghorau cymuned a thref yng Nghymru trwy geisio dod i gasgliadau cyffredinol. Mae llawer o enghreifftiau o gynghorau lleol agored, cynhwysol a phroffesiynol yng Nghymru sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'w cymunedau trwy amrywiaeth eang o fentrau dychmygus. Fodd bynnag, ceir hefyd lleiafswm bach o gynghorau yng Nghymru sy'n anweithredol ac yn gaeëdig ac sydd heb gysylltiad â'u cymunedau. Mae'n rhaid sicrhau mai hyrwyddo arfer da a sicrhau y gall pob cymuned yng Nghymru fanteisio ar gynghorau lleol cryf yw amcan canolog polisi yn y dyfodol yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref. Bwriedir i'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn gyflawni tri amcan bras:

- Proffesiynoli'r modd y mae cynghorau cymuned a thref yn llywodraethu.
- Ffurfioli'r cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned a thref a chyrff eraill, gan gynnwys prif gynghorau a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Cefnogi a chynorthwyo pob cyngor cymuned a thref i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n agored iddynt.

C45 Dylid edrych ar yr adroddiad hwn fel ciplun o gynghorau cymuned a thref ar adeg benodol. Mae angen sicrhau bod gwybodaeth briodol yn parhau i gael ei chasglu gan gynghorau cymuned a thref ac amdanynt, yn rheolaidd, er mwyn monitro'r modd y gweithredir yr argymhellion a wneir yma, ac i lywio'r broses o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

C46 Cyfeirir yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn at nifer o awdurdodau, asiantaethau a sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bennaf, ond hefyd Un Llais Cymru, y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol, y cynghorau cymuned a thref eu hunain, ac amrywiaeth o sefydliadau eraill. Lle'r oedd hynny'n bosibl, gwnaed argymhellion y gellid eu cyflwyno o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru: fodd bynnag, mewn ychydig o achosion byddai angen deddfwriaeth sylfaenol. Cofnodir manylion y gofynion deddfwriaethol mewn atodiad I. Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn nodi'r argymhellion hynny sydd â goblygiadau cost i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'r mwyafrif o'r argymhellion yn dibynnu ar ddeddfwriaeth nac ar nodi symiau sylweddol newydd o arian a gellid eu gweithredu dros gyfnod cymharol fyr o amser. Rhagwelir y gellid cwblhau gweithredu'r holl argymhellion o fewn cyfnod o 5 mlynedd.

1. Cyflwyniad

1.1 Cynghorau cymuned a thref yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth yng Nghymru. Mae'r 737 o gynghorau cymuned a thref, sy'n gwasanaethu poblogaethau yn amrywio o 155 i 45,053 o bobl, yn darparu cyfrwng sefydliadol pwysig ar gyfer cydweithredu yn lleol – i ddarparu ar gyfer anghenion lleol ac ymateb iddynt; i ddadlau dros fuddiannau'r gymuned; ac i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol. Mae cynghorau cymuned a thref yn darparu amwynderau sy'n gwella ansawdd bywyd a golwg cymunedau Cymru yn uniongyrchol – o arddangosfeydd blodau i gabanau aros bysiau a goleuadau Nadolig. Chwaraeodd cynghorau cymuned a thref y brif rôl o ran trefnu digwyddiadau i nodi'r Mileniwm a Jiwbilî Aur y Frenhines, ac maent yn ffynhonnell arian hanfodol ar gyfer grwpiau cymunedol lleol, clybiau chwaraeon ac elusennau am eu bod yn buddsoddi tua £1 miliwn yn y sector gwirfoddol ledled Cymru bob blwyddyn. Mae cynghorau cymuned a thref yn cyfrannu gwybodaeth leol at y broses gynllunio, maent yn cynrychioli buddiannau'r gymuned mewn ymgynghoriadau, yn penodi llywodraethwyr i ysgolion cynradd ac fe'u cynrychiolir ar amrywiaeth o bwyllgorau a phartneriaethau lleol eraill. Gallant ddarparu cyfleusterau lleol yn amrywio o hysbysfyrddau a lleoedd chwarae i ganolfannau hamdden a chynlluniau chwarae; a gallant gynorthwyo rhaglenni hyfforddi ar gyfer pobl ifanc ddiwaith a helpu gyda thasgau cynnal a chadw sylfaenol ar gyfer trigolion oedrannus. Gall cynghorau cymuned a thref chwarae rôl flaenllaw o ran adfywio eu hardaloedd, neu o ran ymateb i broblemau troseddu, anhrefn gymdeithasol neu draffig yn gyrru'n rhy gyflym. Gallant arwain ymgyrchoedd yn erbyn cau ffatrïoedd neu golli gwasanaethau lleol, a gallant lobïo ar gyfer buddsoddiadau a gwelliannau amgylcheddol. Gyda'i gilydd, mae cynghorau cymuned a thref ledled Cymru yn cynnwys rhyw 8,000 o unigolion mewn gwasanaeth gwirfoddol fel cynghorwyr, ac maent yn gyfrifol am reoli cyfanswm cyllideb flynyddol o fwy na £25 miliwn.

1.2 Ac eto mae cynghorau cymuned a thref yn aml yn wynebu cyfyngiadau hefyd ar eu capasiti i weithredu, ac maent yn cael eu rhwystro rhag cysylltu â chyrff eraill. Gall yr heriau hyn ddeillio o ffactorau allanol megis y fframwaith statudol y mae cynghorau yn gweithredu y tu mewn iddo, system ariannu llywodraeth leol, cysylltiadau gwael â rhai cynghorau sir a rhai cynghorau bwrdeistref si rôl, a diffyg ymwybyddiaeth o amgylchiadau ac arferion cynghorau ac asiantaethau eraill; ac o ffactorau mewnol megis dibyniaeth ar wirfoddolwyr, diffyg arian, arferion gwaith araf ac anymatebol ac, mewn rhai achosion, agweddau clercod a chynghorwyr. Mae angen mynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn gwireddu dyheadau llawer o gynghorau cymuned a thref i chwarae rôl ehangach. Ar ben hynny mae pryderon, uchelgeisiau a gweithgareddau presennol cynghorau cymuned a thref o wahanol faint, mewn gwahanol rannau o Gymru, yn amrywio gryn dipyn, ac mae'n rhaid eu cydnabod a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Cylch gwaith a diben yr astudiaeth

1.3 Comisiynwyd y Grŵp Ymchwil Newid a Datblygu Rhanbarthol yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2002 i ymchwilio i 'rôl a swyddogaeth

cynghorau cymuned a thref yng Nghymru ac i'r rôl y gallent ei chwarae yn y dyfodol'. Arweiniwyd tîm y prosiect gan Dr Michael Woods a Dr Bill Edwards, sy'n Ddarlithwyr mewn Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, a chynhwysodd Dr Jon Anderson, Dr Graham Gardner a Rachel Gwenllian Hughes fel Cynorthwywyr Ymchwil. Ar ben hynny, cynorthwyodd Dr Rhys Jones, sy'n Ddarlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, gyda'r gwaith o gynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.4 Cynorthwywyd tîm y prosiect gan Grŵp Llywio a gadeiriwyd gan yr Athro Eric Sunderland ac a gynhwysai aelodau â phrofiad ac arbenigedd ym maes llywodraeth leol a'r sector cymunedol. Rhestrir holl aelodau'r Grŵp Llywio yn Atodiad A. Rydym yn ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Llywio am eu cyngor a'u harweiniad defnyddiol yn ystod y cyfnod y buom yn cynnal yr astudiaeth ymchwil.

1.5 1.5 Cyfarwyddodd manyleb y prosiect yr astudiaeth i "edrych ar faint daearyddol cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, pwy sydd wedi'i gynrychioli arnynt, y modd y maent yn gweithredu, eu swyddogaethau a'r modd y maent yn rhyngweithio â chyrff eraill, ac i asesu'r ffactorau sy'n berthnasol i'w datblygiad, gan gyfeirio'n benodol at eu potensial i sicrhau bod pobl yn chwarae mwy o ran yn y broses ddemocrataidd, ymgymryd â datblygu polisi ar lefelau strategol, dod â phrosesau gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau yn agosach at bobl a hyrwyddo lles cymunedau lleol."

1.6 Yn benodol, nod yr astudiaeth fu darparu tystiolaeth i ganiatáu gwneud argymhellion ar 18 o faterion a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y trefniadau priodol ar gyfer casglu ystadegau am gynghorau cymuned a thref
- a yw'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ar gyfer creu, cyfuno a diddymu cynghorau yn ddigon da
- mentrau i annog pobl i gymryd mwy o ran yn y broses ddemocrataidd
- y potensial i gynghorau ymgymryd â chyfrifoldebau gwasanaethau ychwanegol
- rôl bosibl cynghorau o ran cynrychioli barn y bobl yn eu hardaloedd
- cymhwyso egwyddorion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella at gynghorau cymuned a thref
- mesur perfformiad cynghorau
- maint a natur y newidiadau i'r nifer o gynghorau a'u maint
- a oes angen cyflwyno mentrau i wella perfformiad
- darparu hyfforddiant
- rhannu arfer da a chyflwyno gwasanaethau ar y cyd
- yr anghenion o ran y trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer cynghorau cymuned a thref
- cynnwys cynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio

- cynghorau yn ymgymryd â gweithio mewn partneriaeth
- modelau arfer da yn y cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned a thref a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- rôl a photensial cymdeithasau cynrychioliadol cynghorau lleol
- priodoldeb talu lwfansau i gynghorwyr
- gwella'r cysylltiadau rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chynghorau

Rhaglen waith a methodoleg

1.7 Gwnaed yr ymchwil dros gyfnod o ddeuddeg mis o fis Ebrill 2002 hyd at fis Mawrth 2003 a chynhwysai amrywiaeth eang o ddulliau ac arferion casglu data. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arolwg holiadur o bob cyngor cymuned a thref yng Nghymru, y derbyniwyd ymatebion iddynt gan 475 o gynghorau (65%).
- Arolwg holiadur o bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, y derbyniwyd ymatebion iddynt gan 20 o'r 22 o gynghorau.
- Astudiaethau achos manwl o 17 o gynghorau cymuned a thref, yn cynnwys cyfweliad unigol gyda'r clerc, cyfweliad gyda chynghorwyr wedi'i gynnal gan grŵp ffocws, arolwg holiadur o aelodau cynghorau, a dadansoddiad o gofnodion cynghorau.
- Cyfweliadau ffôn gyda chlercod tri chyngor arall a fu'n destun astudiaethau achos.
- Cyfweliadau ffôn gyda swyddogion cynllunio ym mhob un o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac yn y tri awdurdod parc cenedlaethol.
- Cyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y pedair cymdeithas cynghorau lleol, a phartïon eraill â diddordeb.
- Pedwar seminar cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2003 mewn lleoliadau o amgylch Cymru, a fynychwyd gan gyfanswm o fwy na 300 o bobl, gan gynnwys cynghorwyr a chlercod cymuned a thref, cynrychiolwyr sefydliadau lleol ac aelodau o'r cyhoedd.

1.8 Ar ben hynny, anfonwyd gwahoddiadau i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar unrhyw un o'r themâu o fewn cylch gwaith yr astudiaeth i bob cyngor cymuned a thref, arweinwyr pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, grwpiau pleidiau ar bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, a mwy na 100 o sefydliadau a oedd ynghlwm wrth weithio gyda chynghorau cymuned a thref neu yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn materion cymunedol.

1.9 Ceir rhagor o fanylion am y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth, gan gynnwys manylion am yr ymatebion i'r arolygon a ddychwelwyd ac am gyfranogiad y cyhoedd yn y seminarau cyhoeddus yn Atodiadau B-E.

Diffiniadau

1.10 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 y term 'cyngor cymuned' fel y disgrifiad cywir ar gyfer yr haen fwyaf lleol o lywodraeth yng Nghymru, gan ddisodli'r term 'cyngor plwyf' a ddefnyddid cyn hynny. Mae Deddf 1972 hefyd yn caniatáu i unrhyw gyngor cymuned nad yw'n ddarostyngedig i orchymyn cyfuno benderfynu defnyddio'r term 'cyngor tref', arfer a fabwysiadwyd gan 102 o gynghorau yng Nghymru. Ar ben hynny, mae dau gyngor yn defnyddio'r dull enwi, 'cyngor dinas' fel y caniateir gan siarter frenhinol.

1.11 Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y termau 'cynghorau cymuned a thref' a 'chynghorau lleol' fel cyfystyron. Defnyddir y term 'prif gynghorau' i gyfeirio at gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Defnyddir y term 'prif awdurdodau lleol' yng nghyd-destun y system gynllunio i gyfeirio at bob awdurdod lleol â swyddogaeth rheoli datblygu, gan gynnwys awdurdodau parc cenedlaethol. Lle y defnyddir y term 'cyngor' ar ei ben ei hun, mae'n cyfeirio at gyngor cymuned a thref.

1.12 Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw cyfeirir at 'Lywodraeth Cynulliad Cymru' neu 'Lywodraeth y Cynulliad' ac eithrio lle y cyfeirir at gorff etholedig y Cynulliad, pan ddefnyddir 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

Strwythur yr adroddiad

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion allweddol yr astudiaeth. Mae wedi'i drefnu'n naw pennod, gan gynnwys y cyflwyniad hwn, ac mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar elfen wahanol o'r astudiaeth. Mae Pennod 2 yn nodi cyd-destun hanesyddol a deddfwriaethol cynghorau lleol. Mae Pennod 3 yn cyflwyno trosolwg o ffurf a dosbarthiad cyfredol cynghorau lleol, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer sefydlu, cyfuno a diddymu cynghorau. Mae Pennod 4 yn trafod rôl cynghorau cymuned a thref wrth ddarparu gwasanaethau ac amwynderau. Mae Pennod 5 yn edrych ar rôl gynrychioliadol cynghorau cymuned a thref, gan gynnwys y rhan a chwaraeir ganddynt yn y broses gynllunio. Mae Pennod 6 yn edrych ar y dulliau a ddefnyddir gan gynghorau cymuned a thref i gysylltu â'u cymunedau. Mae Pennod 7 yn edrych ar gyllid cynghorau cymuned a thref a'r opsiynau ar gyfer trefniadau ariannu yn y dyfodol. Mae Pennod 8 yn trafod rôl a gwaith cynghorwyr a phersonél cynghorau, gan gynnwys clercod, ac yn gwneud argymhellion ar ddarparu hyfforddiant. Mae Pennod 9 yn gosod casgliadau'r astudiaeth yng nghyd-destun y system llywodraeth leol ehangach.

1.14 Ceir rhagor o fanylion am y dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth, a thrafodaeth fwy eang ynghylch y materion dan sylw yn yr adroddiad hwn, mewn pedwar papur ymchwil, a gyflwynwyd fel adroddiadau interim i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r pedwar papur yn cyflwyno adroddiadau ar ffynonellau gwybodaeth a llenyddiaeth am gynghorau cymuned a thref; arolwg ffeithiol o gynghorau cymuned a thref; potensial cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol o ran darparu gwasanaethau ac amwynderau; a rôl gynrychioliadol cynghorau cymuned a thref. Gellir darllen y papurau ymchwil ar wefan yr astudiaeth yn www.aber.ac.uk/communitygovernance.

2. Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: Y Cyd-destun Hanesyddol a Deddfwriaethol

Mae'r bennod hon yn disgrifio datblygiad hanesyddol cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol y maent yn gweithredu y tu mewn iddo.

Y cyd-destun hanesyddol

2.1 Sefydlwyd lefel gymunedol llywodraeth yng Nghymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1894 a greodd 6,880 o gynghorau plwyf mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a Lloegr. Croesawyd y Ddeddf gan lawer yng Nghymru fel cam radical a fyddai'n awdurdodi'r bobl a dychwelyd at y cwmwd, sef yr uned hanesyddol o lywodraeth yng Nghymru. Ymestynnwyd swyddogaethau a phwerau cynghorau plwyf ar ôl hynny trwy gyfres o Ddeddfau Seneddol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

2.2 Mewn ardaloedd trefol a threfi bach, gall llawer o gynghorau tref olrhain llinach hwy byth trwy ymgnawdoliad blaenorol fel bwrdeistrefi trefol neu gynghorau dosbarth trefol. Cyn Deddf Llywodraeth Leol 1972, roedd bwrdeistrefi trefol a chynghorau dosbarth trefol yn brif awdurdodau lleol â chanddynt bwerau cynhwysfawr a rôl bwysig o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Buddsoddodd llawer o gynghorau bwrdeistref trefol a chynghorau dosbarth trefol yn drwm yn y gwaith o adeiladu seilwaith dinesig, gan gynnwys neuaddau trefi, llyfrgelloedd, parciau a chyfleusterau eraill, y daeth llawer ohonynt i feddiant y cynghorau dosbarth newydd ar ôl 1974.

2.3 Ad-drefnodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 lywodraeth leol yng Nghymru yn strwythur tair lefel o gymunedau, dosbarthau a siroedd. Mabwysiadwyd y term 'cyngor cymuned' ar gyfer yr haen fwyaf lleol, gan gynnwys y cyn-gynghorau plwyf a oedd yn parhau a 'chynghorau olynol' y cynghorau bwrdeistref trefol a'r cynghorau dosbarth trefol blaenorol. Trosglwyddodd y Ddeddf lawer o swyddogaethau cynghorau bwrdeistref trefol a chynghorau dosbarth trefol i'r cynghorau dosbarth newydd gan gyfyngu ar swyddogaethau statudol cynghorau cymuned a thref i'r ystod o swyddogaethau fwy neu lai y mae cynghorau cymuned a thref yn dal i'w cyflawni heddiw.

2.4 Darparodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer rhannu Cymru gyfan yn 'gymunedau' at ddibenion ystadegol. Fodd bynnag, hepgorodd y cymunedau hynny a oedd wedi'u lleoli y tu mewn i ardaloedd cyn-fwrdeistrefi Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Port Talbot, y Rhondda ac Abertawe o'i darpariaethau ar gyfer sefydlu cynghorau cymuned, gan greu patrwm o gwmpasu daearyddol anghyflawn gan gynghorau cymuned a thref sy'n dal i barhau (gweler paragraff 3.1).

2.5 Ar ben hynny, dechreuodd y Ddeddf arolwg cyffredinol o nifer y cymunedau yng Nghymru a'u ffiniau, a wnaed fesul sir rhwng 1974 a 1983. Lleihaodd yr Arolygon Cymunedol Arbennig nifer y cymunedau (gan gynnwys y rhai heb gynghorau) o 875 i 866, a, thrwy gyfuno cynghorau, cynyddodd y boblogaeth gyfartalog a wasanaethid gan y cynghorau cymuned. Er i'r arolwg gyfuno cymunedau bach iawn, megis Erddig yng Nghlwyd â phoblogaeth o 19, yn unedau mwy o faint, israrnodd hefyd rai cymunedau mwy o faint megis Wrecsam.

2.6 Mae cyfanswm y cynghorau cymuned a thref yng Nghymru wedi aros yn gymharol sefydlog ers i'r Arolygon Cymunedau Arbennig ddod i ben yn y 1980au, er bod ychydig o newidiadau bach wedi bod trwy ddiddymu cynghorau a threfniadau cyfuno. Crëwyd un gymuned newydd, sef Hook, yn Sir Benfro, ym 1999 trwy israrnu cymuned Llangwm.

Y fframwaith deddfwriaethol

2.7 Mae'r fframwaith deddfwriaethol y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu y tu mewn iddo yn deillio'n bennaf o adrannau 27 i 37 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adrannau hyn (ac atodlen 12, rhannau pedwar a phump, y Ddeddf), yn diffinio'r ardaloedd y gellir sefydlu cynghorau cymuned ar eu cyfer (a 27), y gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a diddymu cynghorau (a 28), gorchmynion ar gyfer trefniadau cyfuno (a 29), cyfansoddiad cyfarfod cyngor cymuned (a 32), cyfansoddiad a phwerau cyngor cymuned (a 33), rolau cadeirydd ac is-gadeirydd cynghorau (a 34), a rôl a phroses ethol cynghorwyr cymuned (a 35).

2.8 Mae adrannau diweddarach Deddf 1972 yn diffinio pwerau cynghorau cymuned a thref mewn perthynas â meysydd a swyddogaethau arbennig, gan gynnwys mynwentydd (a 214), cyfleusterau cynadledda (a 144), darparu adloniant a chymorth ar gyfer y celfyddydau (a 145), darparu gwybodaeth (a 142), caffael tir (a 139), adeiladau cyhoeddus a neuaddau pentref (a 133), a hyrwyddo twristiaeth (a 144). Yn anad dim, galluogai Adran 137 y Ddeddf i gynghorau cymuned "wario arian pan fydd gwneud hynny yn eu barn hwy er lles eu hardal neu unrhyw ran ohoni neu bob un o'u trigolion neu rai ohonynt", yn ddarostyngedig i derfyn ar gyfer yr uchafswm gwariant fesul preswylydd a nodwyd yn Adran 137(4) y Ddeddf ac a newidiwyd ar ôl hynny trwy Offerynnau Statudol.

2.9 Ar ben hynny, rhoddwyd i gynghorau cymuned a thref bwerau gan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, priffyrdd, cynllunio, addysg a thraffig (gweler atodiad F). Ymestynnwyd pwerau cynghorau cymuned gryn dipyn ymhellach gan ran tri Deddf Llywodraeth Leol ac Adrethu 1997. Cynhwysai'r rhain bwerau i sefydlu a chynnal cynlluniau rhannu ceir (a 26), rhoi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bysiau (a 27), ariannu cynlluniau i alluogi defnyddwyr tacsis i deithio am brisiau gostyngedig (a 28), ymchwilio i faes trafnidiaeth gyhoeddus a darparu gwybodaeth amdano (a 29), darparu arian tuag at gynlluniau tawelu traffig (a 30) a sefydlu cynlluniau atal troseddu (a 31).

2.10 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyfundrefn safonau newydd ar gyfer cynghorau cymuned, gan gynnwys cod ymddygiad statudol a chynnwys cynghorau cymuned o dan bwyllgorau safonau prif gynghorau. O dan adran 50(2) y Ddeddf hon, gwnaed Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi'r cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr cymuned.

2.11 O dan Ddeddf Cymru 1998 trosglwyddwyd yr holl swyddogaethau Gweinidogol yn ymwneud â chynghorau cymuned i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ymarferol, mae'r swyddogaethau Gweinidogol penodol yn hyn o beth yn gyfyngedig, gan gynnwys:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972, a 30 – y p_er i gyfyngu ar geisiadau gan gymunedau i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.
- Deddf Llywodraeth Leol 1972, a 331 – y p_er i nodi'r materion y bydd prif gynghorau yn ymgynghori â chynghorau cymuned yn eu cylch.
- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1953, a 5 – y gofyniad i ymgynghori â'r Gweinidog ynghylch darparu cabanau aros bysiau ar gefnffordd.
- Deddf Cynghorau Plwyf 1957, a 5 – y gofyniad i ymgynghori â'r Gweinidog ynghylch darparu amwynderau cyhoeddus ar gefnffordd.

2.12 Mae'r cyfle sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno diwygiadau sylweddol mewn perthynas â chynghorau cymuned a thref o dan ei bwerau ei hun yn gyfyngedig felly. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar lawer o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn er mwyn eu gweithredu. Trafodir yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol, ac agweddau eraill ar y broses o weithredu argymhellion yr adroddiad, ymhellach ym mhennod naw.

3. Nodweddion a Dosbarthiad Cynghorau Cymuned a Thref

Mae'r bennod hon yn disgrifio dosbarthiad daearyddol cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a nodweddion poblogaeth ardaloedd cynghorau. Mae'n trafod rhinweddau sefydlu cynghorau ym mhob cymuned yng Ngh ymru, ac yn edrych ar y gweithdrefnau ar gyfer sefydlu, diddymu a chyfuno cynghorau.

Trosolwg

3.1 Mae'r 737 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gyda'i gilydd yn cwmpasu 96% o wyneb tir y wlad, ac yn cynnwys 70.1% o'i phoblogaeth. Ceir cynghorau cymuned a thref ar draws holl diriogaeth tri ar ddeg o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac eto ceir hefyd yng Nghymru 115 o 'gymunedau' a diffiniwyd yn swyddogol nad oes unrhyw gyngor ar eu cyfer (ffigur 3.1). Ni wasanaethir dros hanner y boblogaeth yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf gan gyngor lleol, ynghyd â rhyw draean o'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot. Canlyniad y gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd bwrdeistref sirol blaenorol a rhannau eraill o Gymru adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 yw dosbarthiad daearyddol y cynghorau cymuned a thref. Er bod systemau wedi bodoli ar gyfer sefydlu cynghorau mewn unrhyw gymuned yng Nghymru ers 1974, prin y'u defnyddiwyd.

3.2 Mae cryn amrywiaeth o ran maint a lleoliad y 737 (gweler tabl 3.1) o gynghorau cymuned a thref. Mae maint poblogaeth ardaloedd cynghorau cymuned a thref yn amrywio o 155 (Llanwrthwl, Powys) i 45,053 (Y Barri). Mae ychydig dros un o bob pum cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o lai na 500 o bobl, ac mae bron hanner yn gwasanaethu poblogaeth o lai na 1,000 o bobl (tabl 3.1). Ar yr un pryd, mae wyth cyngor sydd â phoblogaethau o fwy nag 20,000 o bobl. Mae dros hanner y cynghorau lleol yn rhai gwledig eu natur. Mae un o bob deg yn canolbwyntio ar drefi bach, mae un o bob deg yn gymunedau trefol neu faestrefol, ac mae un o bob un ar ddeg wedi'i leoli mewn maes glo neu mewn lleoliad lled-wledig. Mae'r nodweddion hyn yn dylanwadu ar yr adnoddau sydd ar gael i gynghorau a'u capasiti i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Poblogaeth	Nifer y Cynghorau	%
< 500	149	20.2%
500-999	199	27.0%
1,000-2,499	195	26.5%
2,500-4,999	91	12.3%
5,000-9,999	63	8.5%
10,000-19,999	32	4.3%
> 20,000	8	1.1%
Cyfanswm	737	100.0%

Tabl 3.1: Poblogaeth Ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref, 1991
Ffynhonnell: Aitchison et al (1994)


Tremeirchion,
Cwm a'r Waen
Llandudno
Penarlâg
Llangefni
Offa
Y Bala
Trawsfynydd
Llanidloes
Llandrindod
Llanymddyfri
Aberteifi
Nant-y-glo
a Blaenau
Treamlod
Tyddewi
Llandeilo
Gresynni
Tre-lech
a'r Betws
Spittal
Cwmbrân
Llangatwg
Feibion Afel
Y Barry
LLEOLIADAU'R ASTUDIAETHAU ACHOS
Ffin y Sir
Ffin y Gymuned
0 10 20 30
Cilometrau
G

Manteision cynghorau cymuned a thref

3.3 Gall cynghorau cymuned a thref wneud cyfraniad sylweddol at y lleoliadau a wasanaethir ganddynt. Fel y nodwyd ym mhennod un yn yr adroddiad hwn, ac fel y manylwyd arno mewn mannau eraill, gall cynghorau ddarparu cyfleusterau a chynorthwyo mentrau i ymateb i anghenion lleol, gallant drefnu a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol a gallant ddadlau dros fuddiannau eu cymunedau a chynrychioli'r cymunedau hynny. Mae'r gweithgareddau hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli nifer o wahanol fanteision y deuir â hwy i gymuned gan fodolaeth cyngor cymuned neu dref, sy'n ymwneud â graddfa weithredu leol cynghorau a'u statws statudol.

3.4 Fel yr haen fwyaf lleol o lywodraeth, mae cynghorau cymuned a thref mewn gwell lle i ganolbwyntio ar anghenion a buddiannau cymunedau penodol na'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol ar haen uwch. Mae i'r ffaith bod eu gwreiddiau'n ddwfn yn eu hardaloedd lleol bedair mantais allweddol:

- *Ymatebolrwydd Lleol:* Ar gyfartaledd mae un cynghorydd cymuned neu dref ar gyfer pob 250 o drigolion yn y rhannau hynny o Gymru sydd â chynghorau lleol, o gymharu ag un cynghorydd sir neu gynghorydd bwrdeistref sirol ar gyfer 2,320 o drigolion ledled Cymru. Mae'r mwyafrif o aelodau o gynghorau cymuned a thref yn byw yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt ac mae llawer o gynghorau hefyd yn cysylltu â thrigolion lleol trwy arolygon, cylchlythyrau a chyfarfodydd cyhoeddus (gweler pennod 6). Felly gall cynghorau cymuned a thref fod yn fwy ymatebol nag awdurdodau haen uwch i anghenion a buddiannau cymunedau, ac i'r amrywiaeth o anghenion a buddiannau o fewn cymuned.
- *Cynrychioli Buddiannau Lleol:* Gall cynghorau cymuned a thref weithredu fel cyfrwng i gynrychioli buddiannau lleol wrth ymdrin â chyrff allanol. Tra bod yn rhaid i brif gynghorau gydbwyso anghenion a buddiannau llawer o gymunedau ar draws eu tiriogaeth, sy'n cystadlu â'i gilydd, mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am un gymuned a gallant ddadlau dros fuddiannau'r gymuned honno yn ddirwystr.
- *Trefnu Gweithgarwch Cymunedol:* Mae cynghorau cymuned a thref yn bodoli ar raddfa sy'n adlewyrchu patrymau rhyngweithio cymdeithasol pobl a'r ffordd y maent yn uniaethu â lle. Felly gallant hwyluso gweithgareddau cymunedol, trefnu a noddi digwyddiadau cymunedol a hyrwyddo ysbryd a chynwysoldeb cymunedol. Mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl hanfodol wrth gynorthwyo clybiau a sefydliadau lleol. Gyda'i gilydd maent yn rhoi mwy na £1 miliwn mewn grantiau i grwpiau cymuned, clybiau chwaraeon, elusennau a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol bob blwyddyn – arian nad yw ar gael mewn cymunedau heb gynghorau.

- *Ychwanegoldeb:* Gall cynghorau cymuned a thref ddarparu ychwanegoldeb ar gyfer y gwasanaethau a'r cyfleusterau a redir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae ganddynt yr hyblygrwydd i wella'r modd y darperir gwasanaethau yn y gymuned, neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol, cyfleusterau neu hyd yn oed nodweddion syml megis arddangosfeydd blodau, a all fod y tu allan i flaenoriaethau cyllidebol prif gynghorau.

3.5 Ar ben hynny gellid cyflawni llawer o'r swyddogaethau uchod mewn rhai cymunedau gan gymdeithasau cymunedol, grwpiau trigolion, cymdeithasau tenantiaid neu sefydliadau lleol eraill. Mewn cymunedau lle na sefydlwyd cynghorau gall y cyfryw grwpiau weithredu fel cyngor de facto yn lle cyngor cymuned. Fodd bynnag, mae cynghorau cymuned a thref hefyd yn elwa ar y ffaith eu bod yn gyrff statudol, sy'n rhoi pedair mantais arall iddynt:

- *Atebolrwydd:* Mae awdurdod cynghorau cymuned a thref yn dod o'u mandad etholiadol. Yn wahanol i swyddogion cymdeithasau cymunedol anstatudol, mae cynghorwyr cymuned a thref yn atebol i'r etholwyr lleol a gellir cael gwared â hwy adeg etholiad. Ar ben hynny, maent yn atebol i'r gymuned gyfan, nid i aelodau llawndaledig, ac felly mae ganddynt gymhelliant dros gysylltu â holl sectorau'r gymuned a'u cynrychioli, nid dim ond y rhai sydd mwyaf tueddol o ymuno â chymdeithasau lleol.
- *Sefydlogrwydd a Pharhad:* Mae eu cyfansoddiad statudol yn rhoi i gynghorau cymuned a thref sicrwydd rhesymol y byddant yn parhau i fodoli. Yn wahanol i gymdeithasau cymunedol anstatudol, nid ydynt yn dibynnu ar recriwtio aelodau neu sicrhau parhad ariannu gan gyrff sy'n rhoi grantiau. Mae hyn yn golygu y gall cynghorau cymuned a thref gynllunio ar gyfer y tymor hwy a bod ganddynt fwy o gapasiti i ymgymryd â phrosiectau ar raddfa fwy.
- *Pwerau Codi Trethi:* Mae gallu cynghorau cymuned a thref i archebu treth y cyngor yn un o'u pwerau pwysicaf. Er efallai eu bod yn gyfyngedig o ran sicrhau cyllid mewn cyd-destunau eraill (gweler pennod 7), mae'r gallu i archebu yn golygu bod sefyllfa cynghorau o ran incwm yn weddol sefydlog (sydd unwaith eto yn cynorthwyo'r broses cynllunio hir dymor) a bod modd iddynt godi arian o'r gymuned i'w ailfuddsoddi yn y gymuned er lles y gymuned.
- *Hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus:* Mae cymryd rhan fel cynghorydd cymuned neu dref yn cynnwys unigolyn gryn dipyn yn fwy mewn gwasanaeth cyhoeddus mewn llywodraeth leol na chymryd rhan mewn cymdeithas gymunedol anstatudol. Gall cynghorau cymuned a thref ddarparu 'maes hyfforddi' ar gyfer unigolion a all fynd ymlaen ar ôl hynny i wasanaethu fel cynghorwyr sir neu gynghorwyr bwrdeistref sirol, neu i ymgynnig am swyddi gwleidyddol uwch.

3.6 3.6 Dylid cydnabod bod costau yn gysylltiedig â chynghorau cymuned a thref. Mae cyfanswm yr archebiant a godir gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn cyfateb i tua £9.50 ar gyfer pob preswylydd a wasanaethir ganddynt, tra bod cyfanswm y gwariant gan gynghorau cymuned a thref yn cyfateb i tua £12.50 fesul preswylydd. Fodd bynnag, byddai'n gamgymeriad cymryd yn

ganiataol yr arbedid y costau hyn pe na bai unrhyw gynghorau cymuned a thref, neu y byddai sefydlu cynghorau cymuned a thref newydd yn cynyddu taliadau'r dreth gyngor yn yr ardaloedd dan sylw o'r symiau hyn. Mae rhywfaint o'r gwariant hwn yn ymwneud â swyddogaethau cyfochrog yr ymgymerir â hwy neu yr ymgymerid â hwy gan y prif awdurdod pe na bai unrhyw gyngor cymuned na thref. I'r graddau y crëir costau o ganlyniad i wario ychwanegol, diamod gan gynghorau cymuned a thref, mae cynghorau yn atebol i'w hetholaethau am benderfyniadau ynghylch gwario.

3.7 Mae lefel yr ymateb i'r astudiaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn dangos fod y cyhoedd yn dra amwys ei farn ynglŷn â rôl cynghorau cymuned a thref a'u potensial yn y dyfodol. Fodd bynnag, lle y derbyniwyd cyfraniadau, naill ai mewn trafodaethau mewn seminarau cyhoeddus neu trwy gyflwyniadau ysgrifenedig, mae sylwadau cadarnhaol am gynghorau cymuned a thref at ei gilydd wedi bod yn drech na'r sylwadau negyddol, a derbyniwyd mwy o argymhellion o blaid sefydlu cynghorau cymuned a thref ym mhob rhan o Gymru nag a dderbyniwyd o blaid diddymu neu wanhau rôl cynghorau cymuned a thref.

3.8 Felly, ein casgliadau yw bod manteision cynghorau cymuned a thref yn bwysicach na'r costau cysylltiedig a bod dadl gref dros sefydlu cynghorau cymuned ym mhob rhan o Gymru.

Sefydlu a diddymu cynghorau

3.9 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu ar gyfer cymuned yn gwneud cais i'r prif gyngor perthnasol ar gyfer sefydlu cyngor cymuned, os, (i) penderfynodd cyfarfod cymuned a fynychwyd gan o leiaf 30% o'r etholwyr, neu, os bydd y nifer honno yn fwy na 300, o leiaf 300 o etholwyr, gynnal pleidlais o'r holl etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned; a (ii) cefnogwyd y cynnig i sefydlu cyngor gan fwyafrif o'r rhai a bleidleisiodd.

3.10 Ymddengys fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r weithdrefn uchod yn gyfyngedig iawn, ac ychydig iawn o enghreifftiau sydd o gynghorau newydd a grëwyd yn llwyddiannus trwy ddefnyddio'r dull hwn. Mae tystiolaeth o ymdrechion i sefydlu cynghorau yng Nghwmafan (Castell-nedd Port Talbot) a Threharris (Merthyr Tudful) yn awgrymu y gall yr angen i gynnull cyfarfod cyhoeddus sy'n denu cynulleidfa dda, argaeledd lleoliadau addas ar gyfer cyfarfodydd, a diffyg diddordeb gan brif gynghorau, oll rwystro ymgyrchoedd i sefydlu cynghorau newydd.

3.11 Mewn cyferbyniad, dylid nodi i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 gyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer sefydlu cynghorau lleol yn Lloegr, nad ydynt yn berthnasol yng Nghymru. Arweiniodd y rhain at greu dros 80 o gynghorau plwyf newydd yn Lloegr ers 1998. Ni sefydlwyd yr un cyngor cymuned newydd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod, ar wahân i Gyngor Cymuned Hook a grëwyd o ganlyniad i adolygiad ffin.

3.12 Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd bod y weithdrefn bresennol yng Nghymru yn ymgorffori egwyddor y dylai cynghorau cymuned a thref fodoli trwy gydsyniad y cyhoedd sy'n unigryw ar gyfer haen statudol o lywodraeth leol ym Mhrydain. Mae'r graddau y dylid cadw'r egwyddor hon yn benderfyniad gwleidyddol. Felly, mae argymhelliad A3.1 isod yn nodi nifer o opsiynau ar gyfer hyrwyddo'r broses o greu cynghorau cymuned newydd, a hynny gan gynnwys y cyhoedd i wahanol raddau.

Argymhelliad A3.1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog creu cynghorau yn y cymunedau hynny lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Mae pedwar opsiwn y gellid edrych arnynt yn hyn o beth:

- Gellir hyrwyddo ymwybyddiaeth uwch o'r cyfleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd i sefydlu cynghorau cymuned newydd trwy ymgyrchoedd gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Un Llais Cymru a mentrau datblygu cymunedau. Gallai'r rhain gynnwys gweithdai, hysbysebion yn y wasg a chanllaw hawdd ei ddeall ar sefydlu cynghorau lleol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru neu wefan Un Llais Cymru.
- Gellid adolygu'r fframwaith deddfwriaethol i gyflwyno hawl i etholwyr llywodraeth leol ddeisebu ar gyfer sefydlu cyngor cymuned newydd (bydd angen llofnod 250 o etholwyr llywodraeth leol neu 10% o'r etholwyr, p'un bynnag yw'r mwyaf, ar ddeiseb, er mwyn iddi gael ei derbyn); ac awdurdodi prif gynghorau i greu cynghorau cymuned newydd trwy orchymyn. Byddai'r newidiadau hyn yn cysoni'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru â'r fframwaith deddfwriaethol yn Lloegr a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997.
- Gellid mynnu bod pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol sy'n cynnwys cymunedau nas gwasanaethir gan gyngor tref na chymuned yn trefnu pleidleisiau ym mhob cymuned o'r fath ar yr opsiwn o sefydlu cyngor. Ar ben hynny gallai fod yn ofynnol ailadrodd y pleidleisiau yn rheolaidd yn y cymunedau hynny lle nad oes unrhyw gefnogaeth i gyngor ar hyn o bryd.
- Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio deddfwriaeth sylfaenol i greu cynghorau cymuned ar gyfer pob cymuned yng Nghymru.

3.13 Er mwyn gweithredu'r argymhellion a geir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn ar gyfer datblygu rôl cynghorau cymuned a thref o ran darparu gwasanaethau ac amwynderau byddai angen i gynghorau allu cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir â sicrwydd rhesymol o ran deiliadaeth. Rydym o'r farn bod y weithdrefn bresennol ar gyfer diddymu cyngor lleol gan bleidlais etholwyr llywodraeth leol yn anghyson â'r gofyniad hwn.

Argymhelliad A3.2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi deddfwriaeth i ddiddymu Adran 28 paragraff 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu diddymu cyngor cymuned neu dref. Er mwyn gweithredu'r argymhellion ar gyfer datblygu'r rolau a gyflawnir gan gynghorau cymuned a thref a nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn bydd angen i gynghorau allu gweithredu â sicrwydd deiliadaeth. Mae gweithdrefnau ar gyfer newid cymunedau yn briodol am resymau daearyddol neu am resymau yn ymwneud â newid yn y boblogaeth yn bodoli eisoes o fewn pwerau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Trefniadau cyfuno

3.14 Ar hyn o bryd mae chwe chyngor cymuned neu dref 'cyfunedig' yng Nghymru, lle y sefydlwyd un cyngor ar gyfer dwy neu ragor o gymunedau cyfagos. Mewn tri o'r achosion hyn, mae'r cyngor yn ymwneud ag ardal drefol sy'n croesi ffiniau cymunedau (Cwmbrân, Bae Colwyn a Phont-y-pŵl). Mewn dau achos mae'r cyngor yn cyfuno dwy gymuned drefol (Abertyleri a Llanhiledd; Croesyceliog a Llanyrafon), ac mewn un achos, mae'r cyngor yn grŵp o gymunedau gwledig bach (Cwm, Waen a Thremeirchion).

3.15 Rydym o'r farn bod grŵp Cwm, Waen a Thremeirchion yn cynnig model y gellid ei ddyblygu yn fwy eang yng nghefn gwlad Cymru. Mae trefniadau cyfuno o'r math hwn yn cynnig i gynghorau llai o faint gyfle i oresgyn yr annarbodusrwydd maint, arbed treuliau trwy gwtogi ar lefel y dyblygu o ran cyfarfodydd a gwaith clercod, a sicrhau lefel o adnoddau a all eu galluogi i ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig gan brif gynghorau (gweler paragraff 4.16). Yn y bôn, mae gan drefniadau cyfuno y fantais eu bod yn gytundebau gwirfoddol, a sefydlwyd ar sail pleidleisiau cymunedau, ac y gellir eu gwrthdroi o hyd gan y cymunedau unigol mewn grŵp.

3.16 Ar ben hynny, rydym yn rhagweld y gellid sefydlu mathau o weithio mewn partneriaeth a chytundebau ffederasiwn, heb gytundebau cyfuno ffurfiol, rhwng cynghorau lleol at ddibenion penodol. Gall y rhain, er enghraifft, gynnwys darparu cyfleuster ar y cyd megis neuadd gymunedol; neu bartneriaeth neu ffederasiwn fwy ffurfiol â phwyllgor rheoli a chyllideb annibynnol, sy'n gyfrifol am ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau wedi'u dirprwyo gan y prif gyngor y cytunwyd arnynt o fewn y cymunedau cyfansoddiadol. Mae modelau intercommunualité a ddatblygwyd yn Ffrainc yn darparu enghreifftiau o'r mathau o strwythurau y gellid eu creu.

Argymhelliad A3.3

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ymgynghori ag Un Llais Cymru, gyhoeddi arweiniad i gynghorau cymuned a thref ar ffurfio cynghorau cymuned cyfunedig ac ar ddatblygu trefniadau partneriaeth a ffederasiwn ar gyfer cydweithio gan gynghorau cymuned a thref mewn perthynas â swyddogaethau penodol. Dylid hyrwyddo manteision y cyfryw drefniadau. Fodd bynnag, dylai penderfyniad cynghorau unigol i wneud y cyfryw gytundebau barhau i fod yn un gwirfoddol. Nid oes unrhyw achos ar hyn o bryd dros ymgymryd ag adolygiad systematig o gymunedau, na chyfuno cymunedau'n orfodol, ond dylid cadw'r mater hwn dan arolwg.

Adolygiadau ffin

3.17 Adolygwyd ac ailstrwythurwyd ffiniau cymunedau yng Nghymru yn drylwyr ugain mlynedd yn ôl gan yr Adolygiadau Cymunedau Arbennig. Cynhwysai'r cymunedau newydd a sefydlwyd gan yr arolygon i raddau helaeth y newidiadau daearyddol a fu yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac ymatebwyd i ddatblygiadau a gafwyd ar ôl hynny (er enghraifft, ystadau tai newydd) mewn cyfres o adolygiadau lleol gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a'r gorchmynion newid ffiniau a ddeilliodd ohonynt. Ein casgliad ni yw bod y system hon yn gweithredu'n effeithiol ac y gall ymdrin yn agored ac yn briodol â phryderon ynghylch ffiniau wrth iddynt gael eu codi.

Argymhelliad A3.4

Mae gweithdrefnau eisoes yn bodoli ar gyfer mynd i'r afael â materion yn ymwneud â ffiniau cymunedau ac isrannu cymunedau yn wardiau neu'n gymunedau newydd trwy'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Nid oes unrhyw achos dros ddiwygio'r gweithdrefnau hyn, er y gellid codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau hyn ymhlith cynghorau cymuned a thref trwy ymdrin â'r pwnc fel rhan o'r hyfforddiant a roddir i glercod a chynghorwyr.

4. Rôl Cynghorau Cymuned a Thref wrth Ddarparu Gwasanaethau ac Amwynderau

Mae'r bennod hon yn adolygu'r rhan a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd yn y broses o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau, mae'n ystyried y dadleuon o blaid ehangu'r rôl hon, ac yn nodi modelau y gellid eu defnyddio i ddirprwyo swyddogaethau o brif gynghorau.

Trosolwg o'r rhan a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd

4.1 Community and town councilc are recponcible for the provicion of a wide range of public cervicec and community amenitiec. At minimum, even cmall community councilc will typically be recponcible for cignc, noticeboardc, public ceating, buc chelterc and war memorialc. Legiclation identifiec 32 areac in which community and town councilc have a ctatutory entitlement to act (licted in Appendix F), ac well ac a number of functionc on which councilc are empowered to grant-aid provicion by other bodiec. Few councilc are active with regard to more than a handful of thece functionc, and around half are performed by lecc than a quarter of local-level councilc (tablec 4.1 and 4.2).

	% y cynghorau sy'n darparu gwasanaeth neu amwynder
Arwyddion a Hysbysfyrddau	75.06
Seddau a Chabanau Aros	69.21
Cofgolofnau Rhyfel, Clociau Cyhoeddus ac ati	39.55
Meysydd neu Leoedd Chwarae	38.20
Llwybrau Cyhoeddus a Llwybrau Ceffylau	32.36
Mannau Agored, Sgwâr y Pentref a Thir Comin	31.24
Goleuadau	26.64
Mynwentydd, Claddfeydd ac Amlosgfeydd	25.39
Neuadd y Pentref neu Ganolfan Gymunedol	24.04
Biniau Ysbwriel, Sgipiau	24.04
Gwasanaethau Cyngor a Gwybodaeth	12.36
Atal Troseddu (CCTV, Gwarchod y Gymdogaeth)	10.56
Rhandiroedd	9.89
Parciau Ceir a Beiciau	9.66
Hyrwyddo Twristiaeth	9.44
Tawelu Traffig	8.09
Cynnal a Chadw Lleiniau Ymyl Ffordd	6.29
Cyfleusterau Cyhoeddus	5.62
Cyfleusterau Ailgylchu	4.04
Cyfleusterau Hamdden Dan Do	3.37
Cyfleusterau Post a Ffôn	2.25
Gwasanaethau Dŵr, Draeniau a Charthffosiaeth	2.02
Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol	1.35
Arall	9.66

Tabl 4.1: Darparu neu gynnal gwasanaethau ac amwynderau gan gynghorau cymuned a thref, (n=445)

	% y cynghorau sy'n darparu cymorth grant
Neuaddau Pentref neu Neuaddau Cymunedol	49.89
Digwyddiadau Celfyddydol neu Gyfleusterau Celf	31.46
Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored	30.56
Seddau a Chabanau Aros	27.87
Claddfeydd, Mynwentydd ac Amlosgfeydd	27.64
Adloniant Cyhoeddus	21.57
Cynlluniau Atal Troseddu	18.43
Cyfleusterau Hamdden Dan Do	14.61
Sgwâr y Pentref neu Fan Agored	13.26
Biniau Ysbwriel	13.26
Hyrwyddo Twristiaeth	11.91
Tawelu Traffig	9.44
Clociau cyhoeddus	6.07
Arall	10.34

Tabl 4.2: Cynghorau sy'n darparu cymorth grant i ddarparu rhai amwynderau a gweithgareddau (n=445)

4.2 Mae maint poblogaeth y gymuned yn dylanwadu'n fawr ar yr ystod o swyddogaethau a gyflawnir gan gyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r potensial sydd gan gyngor o ran codi refeniw a lefel a natur y galw am wahanol wasanaethau ac amwynderau. Fel y dengys tabl 4.3, nid yn unig y mae cynghorau mwy o faint yn debygol o ddarparu amrywiaeth ehangach o gyfleusterau, ond maent hefyd yn debygol o ddarparu cyfleusterau o radd uwch megis canolfannau cymunedol a chyfleusterau hamdden dan do.

4.3 Mae gan gynghorau cymuned a thref, ac yn arbennig y cynghorau mwy o faint, gryn ddiddordeb mewn ehangu eu rôl o ran darparu gwasanaethau ac amwynderau. Dadleuodd llawer o gynghorau lleol eu bod mewn gwell sefyllfa na phrif gynghorau i ymateb i anghenion lleol a bod yn atebol i'r gymuned, ac y byddai cynyddu eu rôl o ran cyflwyno gwasanaethau yn hyrwyddo'r ymdeimlad o 'berchenogaeth' gan y gymuned ar wasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau, ac y byddai'n annog trigolion lleol i chwarae rhan fwy amlwg fel cynghorwyr cymuned a thref.

4.4 Fodd bynnag, mae cryn dipyn yn llai o frwdfrydedd gan brif gynghorau dros drosglwyddo swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref i unrhyw raddau sylweddol. Yn arbennig, mae pryderon ynghylch colli arbedion maint a'r ffaith na chaiff gwasanaethau eu cydlynu'n strategol ar draws tiriogaeth ehangach bellach.

4.5 Mae capasiti cynghorau cymuned llai o faint i ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol wedi'i gyfyngu gan adnoddau ac arbenigedd a'r ffaith bod cynghorau yn cyfarfod mor anaml. Lleisiodd nifer o gynghorau llai o faint eu pryder y caent eu 'gorfodi' i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn erbyn eu hewyllys pe cynigid trosglwyddo swyddogaethau i unrhyw raddau sylweddol.

<500	500-999	1000-2499	2500-4999	5000-9999	10000-19999	>20000
Arwyddion a hysbys-fyrddau Seddau a chabanau aros Cofgolofnau rhyfel Meysydd a lleodd chwarae Mannau argored	**Arwyddion a hysbys-fyrddau** **Seddau a chabanau aros** Cofgolofnau rhyfel Meysydd a lleodd chwarae Llwybrau troed Claddfeydd Mannau argored Goleuadau	**Seddau a chabanau aros** **Arwyddion a hysbys-fyrddau** Meysydd a lleodd chwarae Llwybrau troed Cofgolofnau rhyfel Claddfeydd Mannau argored Goleuadau Biniau ysbwriel	**Arwyddion a hysbys-fyrddau** **Seddau a chabanau aros** **Meysydd a lleodd chwarae** Cofgolofnau rhyfel Neuaddau pentref Goleuadau Llwybrau troed Mannau argored Biniau ysbwriel Claddfeydd Cyngor a gwybodaeth	**Seddau a chabanau aros** **Arwyddion a hysbys-fyrddau** **Cofgolofnau rhyfel** Litter bins Llwybrau troed Meysydd a lleodd chwarae Neuaddau pentref Mannau argored Cyngor a gwybodaeth Goleuadau Claddfeydd Twristiaeth Atal troseddu	**Mannau agored** **Seddau a chabanau aros** **Arwyddion a hysbys-fyrddau** **Cofgolofnau rhyfel** Llwybrau troed Meysydd a lleodd chwarae Neuaddau pentref Biniau ysbwriel Rhandiroedd Twristiaeth Atal troseddu Cyngor a gwybodaeth Tawelu traffig Claddfeydd Cyfleusterau cyhoeddus	**Canolfannau cymunedol** **Seddau a chabanau aros** **Llwybrau troed** Meysydd a lleodd chwarae Cofgolofnau rhyfel Arwyddion a hysbysfyrddau Claddfeydd Goleuadau Cyngor a gwybodaeth Biniau ysbwriel Hamdden dan do Atal troseddu Rhandiroedd

Tabl 4.3: Meysydd gweithgarwch nodweddiadol ar gyfer cynghorau yn ôl band poblogaeth, wedi'u trefnu yn ôl nifer y cynghorau sy'n weithredol mewn maes. (gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gan fwy nag 20% o'r cynghorau mewn band; mae'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gan fwy na 50% o'r cynghorau mewn print bras).

4.6 Mae'r diddordeb a fynegir gan gynghorau cymuned a thref er mwyn ehangu rôl cynghorau lleol wrth gyflwyno gwasanaethau wedi'i lywio mewn llawer o achosion gan gynghorau yn cymryd rhan mewn cyfnewidiadau gefeillio gyda chymunedau mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd, a thrwy gymharu swyddogaethau'r gwahanol gynghorau (gweler Atodiad G). Mae'r cyfryw gymariaethau yn ddefnyddiol am eu bod yn dangos y capasiti sydd gan gynghorau lleol â phoblogaethau bach i gyflawni swyddogaethau lefel uwch; fodd bynnag, mae'r potensial i drosglwyddo modelau Ewropeaidd i Gymru yn gyfyngedig gan

wahaniaethau yn strwythur cyffredinol y system llywodraeth leol ac yn y trefniadau ariannol ar gyfer llywodraeth leol. Dim ond trwy ailstrwythuro'r system llywodraeth leol yng Nghymru ar raddfa eang y gellid ymgymryd â diwygiadau o'r math hwn, a byddai angen rhagor o ymchwil i werthuso effeithlonrwydd ac ansawdd cymharol gwasanaethau a gyflwynir gan wahanol raddfeydd o lywodraeth ac yn y systemau Ewropeaidd gwahanol cyn y gellid cyfiawnhau cymryd cam o'r fath.

4.7 Gallai fod yn briodol ystyried ailddosbarthu swyddogaethau gryn dipyn o fewn system llywodraeth leol Cymru rywbryd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r rôl ehangach yn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau y mae cynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd ganddynt yn un gymharol fach, a gellir ei chynnwys yn bennaf o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn arbennig, gellir cyflawni hyn trwy ddirprwyo swyddogaethau o brif gynghorau, a thrwy sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cymryd mwy o ran mewn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a sefydliadau lleol eraill.

Dirprwyo swyddogaethau o brif gynghorau

4.8 Diffiniodd deddfwriaeth nifer o swyddogaethau lle y delir pwerau ar yr un pryd gan brif gynghorau a chynghorau cymuned a thref (gweler Atodiad F). Yn y mwyafrif o gymunedau, cyflawnir llawer o'r swyddogaethau hyn gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol, ond mae modd trosglwyddo cyfrifoldeb i gynghorau cymuned a thref. Gellir gwneud hyn yn unffurf ar draws ardal prif gyngor, neu gall fod yn broses ddewisol, yn cynnwys dim ond nifer gyfyngedig o gynghorau lleol. Ar ben hynny, gall prif gynghorau gontractio swyddogaethau o fewn eu cylch gwaith i gynghorau cymuned a thref eu cyflwyno fel eu hasiantiaid.

4.9 Ar hyn o bryd, mae'r graddau y dirprwyir swyddogaethau o brif gynghorau i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn gyfyngedig. Dim ond tua dau o bob pum cyngor cymuned a thref sydd â swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt gan y prif gyngor priodol, gan amlaf mewn perthynas â hawliau tramwy, goleuadau stryd ac enwi strydoedd. Ymhlith enghreifftiau o gynlluniau dirprwyo pwysig mae cynnwys rhai cynghorau cymuned a thref ym Mhen-y-Bont ar Ogwr fel asiantiaid ar gyfer y cyngor bwrdeistref sirol yn y gwaith o reoli meysydd chwarae; a datblygu Partneriaethau Gwasanaethau Cymunedol gan Gyngor Sir Caerfyrddin (gweler y blwch).

ASTUDIAETH ACHOS: PARTNERIAETHAU GWASANAETHAU CYMUNEDOL SIR GAERFYRDDIN

Ers 2001, sefydlodd Cyngor Sir Caerfyrddin 'Bartneriaethau Gwasanaethau Cymunedol' gydag wyth cyngor cymuned a thref, lle y cytunodd y cynghorau lleol ymgymryd â chyfrifoldebau sylfaenol dros waith cynnal a chadw, glanhau a rheoli ar gyfer cyfleusterau sydd fel arfer yn cynnwys cabanau aros bysiau, cyfleusterau cyhoeddus a safleoedd ailgylchu. Darperir arian gan y cyngor sir, yn amrywio o £1,800 i £11,600 y flwyddyn, gan ddibynnu ar faint y gymuned. Negodwyd y cytundebau partneriaeth fesul un a dilynasant arolwg drwy gyfrwng holiadur o bob cyngor cymuned a thref yn y sir ym 1998 i ganfod y lefel o ddiddordeb.

4.10 Er mwyn dirprwyo swyddogaethau yn fwy eang bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo dirprwyo swyddogaethau yn benodol, a bydd angen ffurfioli trefniadau dirprwyo. Y ffordd fwyaf cyson a mwyaf tryloyw o wneud hyn yw fel rhan o'r broses o fabwysiadu 'Siarteri' rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref (trafodwn Siarteri hefyd ym mhennod 5). Yn dilyn y model a arloeswyd gan Gyngor Sir Swydd Stafford (gweler y blwch), ac a fabwysiadwyd ar ôl hynny gan nifer o awdurdodau eraill, gall Siarteri nodi gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer dirprwyo swyddogaethau ac maent yn cynnig 'dewislen' o swyddogaethau y mae'r prif gyngor yn barod i'w dirprwyo, a gall y cynghorau lleol ddewis y swyddogaethau y maent am ymgymryd â hwy ohoni.

ASTUDIAETH ACHOS: SIARTER PLWYF SWYDD STAFFORD

Mae'r Siarter Plwyf y cytunwyd arni rhwng Cyngor Sir Swydd Stafford a Chymdeithas Cynghorau Plwyf a Thref Swydd Stafford ym 1995 yn nodi y bydd y cyngor sir yn annog cynghorau lleol i ymgymryd â chyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y cyngor lleol "lle y bo hynny'n gost-effeithiol ac yn ymarferol". Amlinellodd y Siarter 'ddewislen' o swyddogaethau y gall cynghorau lleol ddewis gwasanaethau yr hoffent iddynt gael eu dirprwyo ohoni, gan gynnwys: torri glaswellt, clirio gwrychoedd, clirio chwyn, glanhau ffosydd, glanhau arwyddion a dodrefn stryd, rheoli arwyddion yn nodi enwau strydoedd, enwi strydoedd, rheoli cynlluniau parcio trigolion, rheoli meysydd parcio, patrolau croesfannau ysgol, hyfforddiant seiclo, ymgyrchoedd diogelwch y ffordd, goleuadau troedffyrdd, rheoli eiddo'r cyngor sir 'y tu allan i oriau agor arferol' (e.e. llyfrgelloedd), rheoli llwybrau troed a chynllunio argyfwng lleol (e.e. cynlluniau rhybuddio llifogydd). Mae'r Siarter hefyd yn nodi ffyrdd posibl o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau, gan gynnwys defnyddio contractwr lleol, cyflogi 'fforddoliwr pentref' neu ddefnyddio contractwr cyngor sir.[1]

4.11 Ychydig a wnaed i ddatblygu Siarteri yn wirfoddol gan brif awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro wedi cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref dderbyn swyddogaethau ychwanegol o brif gynghorau ac ar y potensial i ffurfioli'r cysylltiadau rhwng prif gynghorau a chynghorau lleol yn agored ac yn ddiamwys. O'u defnyddio i'w llawn botensial, gall Siarteri helpu i atgyfnerthu'r rôl sydd gan gynghorau cymuned a thref o ran gwasanaethu eu cymunedau lleol; hyrwyddo ymagwedd agored mewn llywodraeth leol; esbonio trefniadau ariannol rhwng cynghorau a materion yn ymwneud â threthu dwbl (gweler pennod 7); a chyflwyno system ar gyfer achredu cynghorau cymuned a thref sy'n bodloni meini prawf penodol fel modd i wahaniaethu rhwng anghenion cynghorau mawr a bach. Fodd bynnag, dim ond os datblygir Siarteri yn unffurf ar draws Cymru y gwireddir y manteision hyn. Felly, ein barn ni yw bod angen deddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ddatblygu trefniadau Siarter gyda chynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd.

1 Gweler Clark, D.M. (1998) Local councils delievery services, Local Governance, 24(4), 275-284; Hopkins, S. (1998) Creating working partnerships between county, district and local councils; the Charter experience, Local Governance, 24(4), 289-296.

4.12 Cytunid ar Siarteri fesul cyngor neu gyngor bwrdeistref gan y prif gyngor a phwyllgor ardal priodol Un Llais Cymru. O ran dirprwyo gwasanaethau, byddai'r Siarter yn nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn, y disgwyliadau o ran yr arfer da y dylid eu dilyn gan gyngor cymuned a thref sy'n derbyn swyddogaethau o brif gynghorau, a byddai'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir dileu penderfyniad i ddirprwyo swyddogaeth a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny. Byddai'r Siarter yn cynnwys dewislen o swyddogaethau a fyddai ar gael i'w dirprwyo y cytunid arni gan y prif gyngor a chynrychiolwyr y cynghorau lleol, a byddai'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. Byddai'r Siarter yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer dirprwyo swyddogaethau, a chân'r cytundebau ar gyfer dirprwyo swyddogaethau penodol eu negodi ar ôl hynny â chynghorau cymuned a thref unigol. Rhoddir enghraifft o Siarter yn Atodiad H.

4.13 Byddai Siarteri hefyd yn pennu'r union drefniadau ariannu ar gyfer swyddogaethau dirprwyedig. Ni ddylid ystyried bod dirprwyo swyddogaethau yn fodd i symleiddio gwariant trwy drosglwyddo baich y cyfrifoldeb, am y gall y cyfryw arferion esgor ar broblemau o ran trethu dwbl (gweler pennod 7). Yn lle hynny disgwylir y câi arian craidd ei ddarparu fel grant a glustnodwyd yn benodol gan y prif gyngor i'r cynghorau cymuned neu dref, ond y câi unrhyw arian ychwanegol y byddai ei angen i wella neu ehangu'r gwasanaeth neu'r amwynder ei godi gan y cyngor lleol (gweler paragraff 7.10).

Argymhelliad A4.1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi deddfwriaeth yn mynnu bod pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yn cyflwyno cytundeb 'Siarter' gyda chynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer dirprwyo ystod benodol o swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref achrededig. Dylai'r Siarter nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ariannu swyddogaethau dirprwyedig ac ar gyfer diddymu'r contract yn dirprwyo'r swyddogaeth. Dylid cynhyrchu Siarter yn seiliedig ar drafodaethau rhwng cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a'i gynghorau cymuned a thref lleol a dylai ei chynnwys adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn gyfrifol am fonitro'r broses o gynhyrchu a gweithredu'r Siarteri i sicrhau arfer teg a chyson.

4.14 Bydd galwadau newydd o ran personél ar gynghorau cymuned a thref o ganlyniad i ddirprwyo swyddogaethau. Er mwyn rheoli swyddogaethau dirprwyedig efallai y bydd angen arbenigedd technegol nad oes gan glercod nac aelodau eraill o staff a gyflogir gan gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd, yn ogystal â staff i gynnal neu gyflwyno cyfleusterau neu wasanaethau. Gall dirprwyo swyddogaethau arwain at greu swyddi newydd ar gyfer personél ar lefel iau a lefel uwch (gweler hefyd argymhelliad A4.11). Mewn rhai achosion efallai y bydd dirprwyo swyddogaeth bwysig yn cynnwys trosglwyddo cyflogeion o'r prif gyngor i'r cyngor cymuned neu dref. Gallai'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) fod yn berthnasol o dan yr amgylchiadau hyn.

Argymhelliad A4.2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad i awdurdodau lleol ar ofynion y rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) mewn perthynas â dirprwyo swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref. Mewn llawer o achosion lle y mae dirprwyo swyddogaethau yn cynnwys trosglwyddo adnoddau staff, gall fod yn fwy priodol i gynghorau cymuned a thref 'brynu' amser un o gyflogeion prif awdurdod yn hytrach na throsglwyddo personél i gyflogwr newydd.

4.15 Mewn llawer o achosion, efallai na fydd y gwaith sy'n gysylltiedig â swyddogaeth ddirprwyedig yn ddigon i gyfiawnhau cyflogi aelod penodol o staff gan y cyngor cymuned neu dref. O dan y cyfryw amgylchiadau gellid gweithredu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys contractio'r gwasanaeth neu'r dasg allan; prynu amser un o gyflogeion prif gyngor i mewn; neu gyflogi staff ar y cyd gan grŵp o gynghorau lleol. Darperir model o'r dull gweithredu hwn gan drefniadau a wnaed rhwng Cyngor Cymuned Penarlâg, Cyngor Tref Shotton a Brychdwn a Chyngor Cymuned Bretton (gweler y blwch).

ASTUDIAETH ACHOS: CYDWASANAETH CYNNAL A CHADW PENARLG

Ym 1985 rhannwyd hen blwyf Penarlâg yn gymunedau newydd, sef Penarlâg, Shotton a Brychdwn a Bretton. Parhaodd y cynghorau newydd i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau megis goleuadau stryd, meysydd chwarae a gwaith cynnal a chadw adeiladau. Trwy rannu adnoddau gall y cynghorau gyflogi eu gweithlu uniongyrchol eu hunain sy'n ymgymryd â swyddogaethau a gyflawnir gan y prif gyngor mewn rhannau eraill o'r sir. Ar ben hynny mae gweinyddiaeth gyfunedig, a swyddfa a ddelir ganddynt ar y cyd a dwy ysgrifenyddes rhan amser, er bod gan Gyngor Tref Shotton ei glerc ei hun.

4.16 Gall dirprwyo swyddogaethau hefyd osod rhagor o alwadau ar gynghorau cymuned a thref o ran eu strwythurau gwneud penderfyniadau a rheoli. Gall cylch presennol cyfarfodydd y cyngor a/neu strwythur y pwyllgorau fod yn amhriodol ar gyfer ymdrin â'r math o faterion rheoli sy'n codi o swyddogaethau newydd ac â pha mor aml y byddant yn codi. Ar ben hynny, efallai y bydd angen i gynghorwyr a'r clerc ystyried materion nad oes ganddynt y wybodaeth arbenigol na thechnegol briodol i ymdrin â hwy, gyda'r canlyniad y bydd angen darparu hyfforddiant.

Argymhelliad A4.3

Dylai cynghorau cymuned a thref adolygu pa mor briodol yw eu strwythurau a'u gweithdrefnau busnes i gwrdd â'r gofynion yn deillio o ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig ychwanegol. Gall hyn gynnwys adolygu strwythurau pwyllgor, pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd, disgrifiadau swydd personél, a'r modd yr awdurdodir clercod ac isbwyllgorau i weithredu ar ran y cyngor ynghylch materion brys rhwng cyfarfodydd.

Argymhelliad A4.4

Er mwyn ehangu rôl cynghorau cymuned a thref wrth ddarparu gwasanaethau ac amwynderau bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Un Llais Cymru adolygu anghenion hyfforddiant cynghorwyr, clercod ac aelodau eraill o staff mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion rheoli a phynciau arbenigol. Dylai Un Llais Cymru sicrhau bod hyfforddiant ar y materion hyn ar gael i gynghorau. (Gweler hefyd argymhelliad A8.10)

4.17 O gofio'r galwadau hyn ar arian, personél ac arferion a strwythurau cynghorau, ystyrir na fydd gan bob cyngor cymuned a thref y capasiti i gyflawni swyddogaethau dirprwyedig ychwanegol yn ddigon da. Er mwyn sicrhau cynnal safonau atebolrwydd a rheolaeth ariannol mewn llywodraeth leol, a gwarantu ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, dylai fod yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref sydd am ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig ychwanegol ddangos eu bod yn cyrraedd rhai safonau gofynnol mewn rhai meysydd.

Argymhelliad A4.5

Rydym yn argymell, er mwyn derbyn swyddogaethau dirprwyedig o brif gyngor o dan gytundeb Siarter, y dylai fod yn ofynnol i gyngor cymuned neu dref basio gweithdrefn achredu yn gyntaf. Dylai'r weithdrefn achredu ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fodloni meini prawf a nodwyd ynghylch cymhareb yr aelodau etholedig i'r aelodau cyfetholedig; hyfforddiant neu brofiad y clerc; hyfforddiant a dderbynnir gan gynghorwyr; y strwythur rheoli, gan gynnwys strwythur y pwyllgorau a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd; a systemau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a bod yn atebol iddo. Dylai'r weithdrefn fod wedi'i strwythuro yn glir ac yn syml, a dylai'r hunanasesiad gael ei gynnal gan y cynghorau a dylai'r achrediad gael ei ddyfarnu gan y prif awdurdod priodol. Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am fonitro'r modd y gweithredir y weithdrefn achredu, a dylai fod gan gynghorau y gwrthodwyd eu hachredu yr hawl i apelio i'r Gweinidog sy'n gyfrifol.

4.18 Er mwyn i'r dull gweithredu a gynigir fod yn effeithiol o ran cynyddu rôl cynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, bydd angen i'r weithdrefn achredu fod yn hawdd ei deall a'i gweithredu, ac yn anfiwrocrataidd. Dylid negodi'r elfennau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn asesu a'r meini prawf y dylid eu bodloni rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r asesiad ar ffurf rhestr wirio syml y gellid ei chwblhau gan y cynghorau cymuned neu dref eu hunain fel ymarfer hunanasesu, ac y câi achrediad ei ddyfarnu gan y prif gyngor trwy gymharu'r wybodaeth a ddychwelwyd yn erbyn y meini prawf a nodwyd.

4.19 Mae'n anochel y bydd gofynion y broses achredu yn ffafrio cynghorau cymuned a thref mwy o faint yn fwy na chynghorau llai o faint. Ni allai llawer o gynghorau llai o faint fodloni meini prawf priodol ynghylch hyfforddiant, strwythur rheoli a chysylltu â'r cyhoedd. Felly, efallai y bydd y system achredu yn symbylu cynghorau llai o faint i wneud trefniadau cyfuno fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 3.14.3.15. Fodd bynnag, efallai na fydd bob amser yn briodol ffurfio grwpiau

cyflawn pan na fwriedir dirprwyo ond nifer gyfyngedig o swyddogaethau sylfaenol, neu pan fyddai cynghorau o faint tra gwahanol yn cydweithredu. O dan y cyfryw amgylchiadau gall fod yn briodol cydnabod mathau eraill o drefniadau bartneriaeth neu gydweithio rhwng cynghorau at ddibenion achredu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddau neu ragor o gynghorau yn ffurfio cydbwyllgor i gynnal a chadw llwybrau troed; neu, ar raddfa fwy soffistigedig, grw^p o gynghorau yn ffurfio 'partneriaeth' neu 'ffederasiwn', â phwyllgor rheoli a chyllideb ar y cyd, i gyflwyno amrywiaeth o swyddogaethau dirprwyedig ac yn cyflogi staff yn ôl model Penarlâg a ddisgrifiwyd uchod, tra byddai'r cynghorau yn cadw eu hannibyniaeth mewn perthynas â modelau eraill.

Argymhelliad A4.6

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Un Llais Cymru annog cynghorau cymuned llai o faint i wneud eu hunain yn gymwys i gael eu hachredu trwy weithio gyda chynghorau eraill. Un model fyddai ffurfio 'cyngor cyfun' gan ddefnyddio'r gweithdrefnau presennol fel y'u cynhwysir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth i gyflwyno cytundebau Siarter roi cydnabyddiaeth gyfreithiol i fodel newydd o 'bartneriaethau cydgyflwyno' lle y gall dau neu ragor o gynghorau ffurfio partneriaeth i gyflwyno un neu ragor o swyddogaethau. Câi'r 'partneriaethau cydgyflwyno' eu rheoli gan gydbwyllgor o'r cynghorau cyfrannog a byddai angen cydnabyddiaeth gyfreithiol ffurfiol arnynt er mwyn nodi gweithdrefnau ar gyfer ariannu a rheoli personél. Byddai gan y 'partneriaethau cydgyflwyno' yr hawl i gael eu hachredu'n rhannol mewn perthynas â swyddogaethau penodol.

4.20 Dylai siarteri nodi hyd oes cytundeb dirprwyo, y gellir parhau i ddirprwyo swyddogaethau neu ddiddymu'r cytundeb ar ei ôl. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylid ystyried barn defnyddwyr am ansawdd y gwasanaethau neu'r amwynderau dirprwyedig. Er mwyn gwneud hyn dylai cynghorau cymuned a thref â swyddogaethau dirprwyedig roi systemau i fonitro boddhad defnyddwyr ac i ganiatáu ac ystyried adborth gan ddefnyddwyr ar waith.

Argymhelliad A4.7

Dylai cytundebau Siarter fynnu bod cynghorau cymuned a thref yn nodi'r gweithdrefnau y dylai defnyddwyr eu dilyn wrth roi adborth a gwerthuso gwasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan y cyngor. Bydd natur y gweithdrefnau a fabwysiedir yn amrywio yn ôl natur y gwasanaeth neu'r amwynder a maint y cyngor a'r grŵp defnyddwyr.

4.21 Pan fydd cynghorau cymuned neu dref yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol sylweddol dros gyflwyno gwasanaethau a ddarparwyd cyn hynny gan brif gynghorau, mae'n briodol y dylent fod yn ddarostyngedig i'r un fframwaith rheoliadol yn ymwneud â chamweinyddu ag sy'n berthnasol i brif gynghorau. Byddai hyn yn cynnwys diwygio Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 1974 i ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol i gynnwys camweinyddu mewn cynghorau cymuned a thref achrededig.

Argymhelliad A4.8

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi deddfwriaeth sylfaenol i ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol i gynnwys camweinyddu mewn cynghorau cymuned a thref achrededig.

Y rhan a gymerir gan gynghorau wrth weithio mewn partneriaeth

4.22 Gallai'r mwyafrif o gynghorau cymuned a thref gymryd llawer mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau, hyd yn oed heb gaffael unrhyw swyddogaethau dirprwyedig. Yn aml gellir goresgyn cyfyngiadau ymddangosiadol ar gapasiti cynghorau, er enghraifft o ran sicrhau cyllid, trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau eraill, gan gynnwys prif awdurdodau.

4.23 Mae Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu i gyngor cymuned neu dref wario hyd at £5 fesul etholwr ar "unrhyw ddiben sydd yn ei farn ef o fantais uniongyrchol i'w ardal neu i'r trigolion", yn cynnig i gynghorau gryn dipyn o botensial i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o wasanaethau ac amwynderau. Gellir ategu adnoddau a gafwyd o dan Adran 137 trwy weithio mewn partneriaeth, trwy gymorth neu nawdd gan sefydliadau a chronfeydd eraill, a gall partneriaid hefyd ddarparu arbenigedd, staff, adeiladau, cyhoeddusrwydd ac ati. Mae enghreifftiau da o gynlluniau arloesol o'r math hwn yn cynnwys Tasglu Cyngor Cymuned Cwmbrân, a chanolfan adnoddau Cyngor Cymuned Offa (gweler y blwch).

ASTUDIAETH ACHOS: TASGLU CYMUNEDOL CWMBRAN

Mae'r Tasglu Cymunedol a sefydlwyd ac a reolir gan Gyngor Cymuned Cwmbrân yn ymgymryd â gwaith garddio ac addurno 'sylfaenol' ar gyfer pobl leol, yn bennaf y rhai na allai wneud y gwaith drostynt hwy eu hunain. Gwneir y gwaith am ddim ar gyfer trigolion 80 oed a throsodd, ac mae gostyngiad o 50% ar gyfer trigolion anabl. Mae gan y tasglu staff o bobl ifanc lleol a fyddai fel arall yn ddiwaith.

ASTUDIAETH ACHOS: CANOLFAN ADNODDAU GYMUNEDOL OFFA

Ymgymerodd Cyngor Cymuned Offa yn Wrecsam â nifer o fentrau arloesol gan gynnwys datblygu canolfan adnoddau gymunedol yn Nhŷ Luke O'Connor. Defnyddir y ganolfan gan sefydliadau partner i ddarparu cyrsiau hyfforddi ar gyfer pobl leol, gyda chymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd.

4.24 Ar ben hynny gall cynghorau cymuned a thref sicrhau eu bod yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned trwy gymryd rhan mewn sefydliadau partneriaeth a sefydlwyd yn ffurfiol gyda grwpiau ac asiantaethau lleol eraill. Gall y cyfryw bartneriaethau sicrhau cyllid o grantiau allanol nad ydynt ar gael yn uniongyrchol i'r cyngor ei hun yn aml, er y gall y cyngor gyfrannu at 'arian cyfatebol' o dan wariant Adran 137. Gall

partneriaid eraill ddarparu adnoddau eraill gan gynnwys personél, gofod mewn swyddfa ac offer, neu gallant gynrychioli grwpiau 'anodd eu cyrraedd' o fewn y gymuned megis ieuenctid lleol. Mae cyfranogiad y cyngor cymuned neu dref mewn partneriaethau o'r fath yn darparu cyfreithlondeb democrataidd ac yn sicrhau bod y cyngor a'r sefydliad partneriaeth yn rhannu gweledigaeth a phwrpas cyffredin.

4.25 Roedd Menter y Trefi Marchnad, a drefnwyd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (Awdurdod Datblygu Cymru yn ddiweddarach) rhwng 1996 a 2000, yn cynnwys nifer o enghreifftiau llwyddiannus o gyngor tref yn cymryd rhan yn y math hwn o bartneriaeth. Er enghraifft, Cyswllt Llanidloes, y darparodd cyngor y dref swyddfa ac adnoddau personél ar ei gyfer, a Menter Aberteifi a Deudraeth 2000, sef dwy fenter a sefydlwyd yn wreiddiol y naill gan Gyngor Tref Aberteifi a'r llall gan Gyngor Cymuned Penrhyndeudraeth. Cyfrannodd pob un o'r tair partneriaeth at adfywio'r trefi ac at wella cyfleusterau'r cymunedau.

4.26 Oherwydd y defnydd amwys a wneir o'r term 'partneriaeth' mae'n anodd mesur i ba raddau yn union y mae cynghorau cymuned a thref wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Fodd bynnag, mae o leiaf un o bob pum cyngor yn gweithio mewn rhyw fath o bartneriaeth, yn gynnwys aelodau sefydliadau partneriaeth a sefydlwyd yn annibynnol, a phrosiectau partneriaeth wedi'u cydariannu. Prif gynghorau yw'r partneriaid mwyaf cyffredin, ond mae partneriaid hefyd yn cael eu tynnu o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae prosiectau yr ymgymerwyd â hwy trwy weithio mewn partneriaeth yn cynnwys cynlluniau teledu cylch cyfyng (CCTV), darparu cabanau aros bysiau ac offer chwarae, parciau sgrialfyrddio, cynlluniau treftadaeth ac amgueddfeydd, adnewyddu neu ailddatblygu adeiladau, a mentrau amgylcheddol megis plannu coed, adfer tir a chreu bywyd gwyllt ardaloedd a llwybrau.

Argymhelliad A4.9

Rydym yn argymell y dylai mwy o gynghorau cymuned a thref ddilyn yr arfer o weithio mewn partneriaeth rhwng cynghorau a sefydliadau, asiantaethau a busnesau lleol er mwyn sicrhau adnoddau ar gyfer mentrau, cyfleusterau a digwyddiadau o fewn y gymuned. Dylid lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth weithio mewn partneriaeth yn eang trwy Un Llais Cymru.

4.27 Mewn llawer o achosion, y rhwystr mwyaf rhag gweithio mewn partneriaeth yw gochelgarwch aelodau o gynghorau. Gall cynghorwyr ddigio am fod partneriaethau yn gallu sicrhau cyllid nad yw ar gael i gynghorau cymuned a thref er mwyn darparu cyfleusterau sydd o fewn swyddogaethau'r cyngor. Gallant hefyd fod yn feirniadol o ddiffyg atebolrwydd ymddangosiadol partneriaethau neu bartneriaid eraill. Mae yna gred gyffredin mewn rhai cynghorau, yn arbennig yn Ne Cymru, bod gweithio mewn partneriaeth yn ffordd 'ddrws cefn' o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau y maent yn teimlo y dylai'r cyngor allu eu darparu'n uniongyrchol ei hun.

4.28 Gall heriau godi hefyd wrth weithio mewn partneriaeth, yn arbennig os bydd partneriaid eraill yn cynnwys prif gynghorau ac asiantaethau cyhoeddus. Fel gwirfoddolwyr, gall cynrychiolwyr o gynghorau cymuned a thref deimlo nad ydynt wedi'u paratoi cystal a'u bod yn llai cymwys i gyfrannu at fusnes na'r swyddogion proffesiynol sy'n cynrychioli partneriaid eraill. Felly, efallai y bydd cynghorwyr yn cael llai o ddylanwad ar yr agenda a'r penderfyniadau a wneir gan bartneriaethau nag yr hoffent ei gael. Er mwyn sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn gweithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth â chynghorau a chyrff eraill mae angen i bartneriaid eraill, yn arbennig partneriaid yn y sector cyhoeddus, fod yn fwy ymwybodol o amgylchiadau cynghorwyr lleol, ond hefyd mae angen darparu gwell cyngor a hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr lleol a swyddogion y cynghorau sy'n ymwneud â gweithgareddau partneriaeth.

Argymhelliad A4.10

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu swydd ymgynghorydd/animateur yn Un Llais Cymru i roi cyngor i gynghorau cymuned a thref ar nodi a datblygu mentrau i fynd i'r afael ag anghenion a ddiffiniwyd yn lleol, ar sicrhau ffynonellau cyllid gwahanol, ac ar weithio mewn partneriaeth.

4.29 Fel sy'n digwydd pan fydd rôl cyngor wrth gyflwyno gwasanaethau yn ehangu o ganlyniad i ddirprwyo swyddogaethau, bydd gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn creu galwadau ar gynghorau cymuned a thref o ran arian, personél ac arferion gwaith. Yn benodol, efallai y bydd angen swyddi ar gyfer aelodau newydd o staff, naill ai o fewn y cyngor ei hun, neu mewn sefydliadau partneriaeth y mae'r cyngor yn gysylltiedig â hwy. Gall y rhain, er enghraifft, gynnwys gweithwyr datblygu cymuned, gweithwyr ieuenctid a chydlynwyr tref. Ar ben hynny gall personél megis gweithwyr cymdeithasol a chydlynwyr tref, fel rhan o'r swydd, fod yn gyfrifol am ddatblygu partneriaethau a nodi prosiectau a/neu ffynonellau cyllid newydd.

Argymhelliad A4.11

Bydd datblygu rôl cynghorau cymuned a thref yn creu swyddi ar gyfer aelodau newydd o staff gyda chynghorau cymuned a thref a chyda phartneriaethau y maent yn gysylltiedig â hwy. Gall y swyddi hyn gynnwys gweithwyr datblygu cymuned, cydlynwyr tref, swyddogion technegol a gweithwyr ieuenctid. Dylid lledaenu disgrifiadau swydd enghreifftiol ar gyfer y swyddi hyn trwy Un Llais Cymru, yn seiliedig ar enghreifftiau o arfer da.

5. Rôl Gynrychioliadol Cynghorau Cymuned a Thref

Mae'r bennod hon yn trafod rôl cynghorau cymuned a thref wrth gynrychioli buddiannau'r gymuned wrth ymdrin â chyrff allanol, gan gynnwys prif gynghorau a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y bennod ystyrir y rhan a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio, a rôl a photensial cymdeithasau cynrychioliadol.

5.1 Mae cynrychioli buddiannau lleol yn rhan hollbwysig o waith cynghorwyr cymuned a thref, ac mae tri o bob pedwar cynghorydd o'r farn mai dyma un o'r ffyrdd allweddol y gallant wasanaethu eu cymuned orau. Mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu ag amrywiaeth eang o gyrff, a hynny ar wahanol raddfeydd a cheir amrywio o ran pa mor aml y maent yn gwneud hynny, a gall fod gan hyd yn oed gynghorau cymuned bach, er enghraifft, hyd at ddwsin o eitemau o ohebiaeth â chyrff allanol, gan gynnwys prif gynghorau, i gyflwyno adroddiad arnynt yn eu cyfarfodydd. Gyda phrif gynghorau y mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu yn bennaf, wedyn yr heddlu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau iechyd (tabl 5.1).

5.2 Gall cynghorau cymuned a thref a chyrff eraill ryngweithio mewn nifer o ffyrdd. Gellir cysylltu â chynghorau er mwyn ceisio gwybodaeth yn unig, neu gellir gofyn iddynt gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, neu gellir eu gwahodd i gyfarfod neu i gymryd rhan mewn menter newydd. Gall cynghorau gysylltu â chyrff eraill hefyd i ofyn am wybodaeth, neu i gwyno neu dynnu sylw at broblemau. Yn ogystal â'r cysylltu ffurfiol hwn rhwng cynghorau a chyrff eraill, gall cynghorwyr cymuned a thref unigolyn gysylltu â chyrff eraill yn uniongyrchol neu ar ran eu hetholwyr, tra gall cynghorau godi materion gyda'u cynghorwyr sir neu eu cynghorwyr bwrdeistref sirol lleol, Aelodau o'r Cynulliad a'r Aelod Seneddol.

5.3 Gall y cynrychioliadau a wneir gan gynghorau cymuned a thref fod yn gyfraniadau pwysig ac effeithiol at ymgynghoriadau ehangach, ac maent yn elfen sylfaenol o gynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru. Yn wir, mae dadleuon cryf dros ehangu rôl gynrychioliadol cynghorau lleol. Yn y bôn byddai hyn yn golygu mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd ac effeithiolrwydd y broses gynrychioli, ond gall hefyd fod yn briodol adolygu'r pynciau y mae gan gynghorau cymuned a thref yr hawl statudol i fynnu yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch. Ar hyn o bryd mae'r rhestr yn gyfyngedig ac weithiau yn hynafol. Fodd bynnag, mae adran 14 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y p_er i ymestyn y darpariaethau ar gyfer ymgynghori statudol i gynnwys materion ychwanegol. Materion y gellid eu cynnwys, er enghraifft, yw cynigion ar gyfer terfynu gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan lywodraeth leol, yr heddlu neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Asiantaeth	Cysylltodd â'r cyngor (%)	Cysylltodd y cyngor â hi (%)
Heddlu	89.2	73.6
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	86.9	66.0
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	52.1	25.5
Asiantaeth yr Amgylchedd	51.7	37.8
Awdurdod Iechyd	51.5	21.1
Ymddiriedolaeth GIG	48.9	21.5
Pwyllgor Rhanbarthol y Cynulliad Cenedlaethol	44.5	11.6
Cyngor Iechyd Cymuned	42.4	19.6
Cwmnïau cyfleustodau (dŵr/nwy/trydan)	42.2	38.4
Partneriaeth Amcan 1 neu Amcan 2 leol	34.8	18.6
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol lleol	31.6	17.3
Y Comisiwn Ffiniau	30.2	16.2
Awdurdod Datblygu Cymru	27.8	12.4
Cwmni bysiau neu reilffordd	27.4	27.2
Awdurdodau Eglwysig	26.4	24.3
Swyddfa'r Post	25.9	29.3
Awdurdod Parc Cenedlaethol	25.5	18.8
Cymru yn ei Blodau	25.1	8.2
Bwrdd Croeso Cymru	22.6	8.2
Cwmni telathrebu	21.5	21.9
Cyngor Chwaraeon Cymru	18.8	7.2
Cymdeithas Tai leol	18.6	15.6
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	16.9	8.4
Fforwm Economaidd Rhanbarthol	13.7	3.2
Cyngor Celfyddydau Cymru	13.5	6.5
Siambr Fasnach leol	13.3	10.8
Adran neu asiantaeth arall y llywodraeth	12.9	10.8
Pwyllgor y Llysoedd Ynadon	12.0	9.3
Grŵp LEADER neu URBAN	8.2	4.0
Arall	4.6	4.2

Tabl 5.1: Nifer y cynghorau cymuned a thref a gysylltodd â chyrff eraill neu y cysylltodd cyrff eraill â hwy yn 2001-2
(Ac eithrio prif gynghorau, gweler tabl 5.2) (n=474)

Argymhelliad A5.1

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r rhestr o bynciau y mae gan gynghorau cymuned a thref hawl statudol i fynnu yr ymgynghorir â hwy. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen ehangu'r rhestr yn sylweddol, ond rydym o'r farn y gall fod angen rhai diwygiadau i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.

5.4 Fodd bynnag, mae nifer o anawsterau cyffredin a nodir gan gynghorau sydd wrthi'n cysylltu mewn ffyrdd gwahanol â sefydliadau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg man cyswllt neu berson cyswllt clir; y ffaith na chydnabyddir gohebiaeth nac unrhyw ymatebion i ohebiaeth; amserlenni ar gyfer ymgynghoriadau nad ydynt yn cyd-fynd â chylchoedd cyfarfodydd; a'r galwadau sydd ar gynghorwyr gwirfoddol o ran darllen dogfennau ymgynghori. Gellir mynd i'r afael â llawer o'r pryderon hyn trwy sicrhau bod cynghorau cymuned a thref a'r sefydliadau y maent yn rhyngweithio â hwy yn mabwysiadu arfer da, fel y trafodir yng ngweddill y bennod hon.

Rhyngweithio â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol

5.5 Perthynas allanol bwysicaf y mwyafrif o gynghorau cymuned a thref yw'r un gyda'u cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. Bydd cyngor cymuned nodweddiadol yn ymdrin a mwy na hanner dwsin o faterion o ohebiaeth gan brif gynghorau neu iddynt ym mhob cyfarfod. Gall cynghorau lleol gysylltu â holl adrannau prif gyngor i raddau mwy neu lai, er bod y rhan fwyaf o'r rhyngweithio yn digwydd gyda'r adrannau cynllunio a phriffyrdd (tablau 5.2 a 5.3).

Adran o'r Prif Awdurdod	Cysylltodd â'r cyngor (%)	Cysylltodd y cyngor â hi (%)
Adran Gynllunio	90.7	83.3
Adran Briffyrdd	86.3	86.1
Adran Gyllid	69.2	61.2
Adran Iechyd yr Amgylchedd	63.1	67.5
Adran Adloniant/Hamdden	58.0	54.6
Adran y Cyfreithiwr	50.0	50.0
Adran Addysg	39.7	38.6
Adran Dai	30.6	35.2
Adran arall	32.5	32.1

Tabl 5.2: Nifer y cynghorau cymuned a thref a gysylltodd ag adrannau cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol neu y cysylltodd cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol â hwy yn 2001 (n=445)

Adran	Rheolaidd	Achlysurol	Anaml
Cynllunio	18	0	0
Priffyrdd	13	3	0
Gwasaanethau Etholiadol	8	7	1
Iechyd Amgylcheddol	7	9	0
Adlonint a Hamdden	7	6	2
Cyllid	5	6	4
Tai	3	11	1
Materion Cyfreithiol	3	9	3
Addysg	2	7	5
Gwasanaethau Cymdeithasol	2	7	6

Table 5.3: Pa mor aml y mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu ag adrannau prif awdurdodau (nifer y prif awdurdodau yn nodi amlder)
(n=18; DS: ni chyflwynodd pob awdurdod wybodaeth gyflawn)

5.6 Mae mathau o ryngweithio rhwng cynghorau cymuned a thref a phrif gynghorau yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd cysylltu ffurfiol, ymgynghoriadau strategol, ymgynghori statudol ynghylch ceisiadau cynllunio a materion eraill, gohebiaeth yn ymwneud â materion ariannol, etholaethol a thrwyddedu, gwybodaeth ac ymholiadau yn ymwneud â gwasanaethau a mentrau penodol, a chwynion a chynrychioliadau ynghylch problemau lleol. Ar ben hynny, gall cynghorwyr cymuned a thref unigol gysylltu'n uniongyrchol ag adrannau prif gynghorau yngl_n â materion megis gwaith i atgyweirio tai cyngor (er bod rhai prif gynghorau wedi tueddu i'w rhwystro rhag gwneud hynny), a gall cyfathrebu ddigwydd yn aml trwy'r cynghorydd sir neu fwrdeistref sirol etholedig.

5.7 Mae ansawdd y berthynas rhwng cynghorau cymuned a thref a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn amrywio gryn dipyn, ac nid dim ond rhwng gwahanol brif gynghorau. Gall fod gan adrannau o fewn yr un prif gyngor berthynas fwy neu lai cadarnhaol â chynghorau lleol, a gall y farn sydd gan wahanol gynghorau cymuned a thref yn ardal yr un prif gyngor am ansawdd y berthynas amrywio. Dylanwedir ar y farn sydd gan gynghorau am ansawdd y berthynas gan y disgwyliad, ond gall lefel y cysylltiadau personol dan sylw hefyd effeithio arni – er enghraifft, cynghorwyr cymuned sydd hefyd yn aelodau o brif gynghorau, neu swyddogion prif gynghorau sydd hefyd yn glercod cynghorau lleol. Mae hyn yn bwysig am fod y problemau sy'n dod i ran cynghorau cymuned a thref wrth ymdrin â phrif gynghorau yn aml yn deillio o lifau gwybodaeth gwael a chamddealltwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg mannau cysylltu clir, fel y caiff llythyrau a galwadau ffôn eu pasio o amgylch adrannau; llythyrau a negeseuon e-bost nas atebir; dim cydlynu rhwng adrannau prif gynghorau; cyngor, polisïau neu arferion anghyson rhwng adrannau gwahanol; diffyg adborth ynghylch cwynion a wneir ynghylch prosiectau a mentrau a redir ar y cyd; ac ymgynghoriadau a wahoddir ac a gyflawnir yn rhy hwyr yn y broses i ddylanwadu ar gynlluniau a pholisïau.

5.8 Ar yr un pryd, mae llawer o enghreifftiau o arfer da a fabwysiadwyd gan adrannau prif gynghorau i wella'r modd y maent yn cysylltu â chynghorau cymuned a thref. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio pro-forma i nodi materion ac i alluogi clercod cynghorau lleol i ddefnyddio mewnrwyd prif gyngor. Mae angen ffurfioli'r cyfryw fentrau a'u lledaenu yn ehangach, rhwng awdurdodau a'r tu mewn iddynt. Fel cam cyntaf yn y broses hon gallai prif gynghorau adolygu eu trefniadau ar gyfer ymgynghori a chyfathrebu â chynghorau lleol, fel y gwnaed yn ddiweddar gan Gyngor Sir Powys (gweler y blwch).

ASTUDIAETH ACHOS: ADOLYGIAD POWYS O'U TREFNIADAU YMGYNGHORI

Yn ystod haf 2002, ymgymerodd Prif Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Powys ag adolygiad o drefniadau'r cyngor ar gyfer ymgynghori â chynghorau cymuned a thref. Ymdriniai'r holiadur a anfonwyd i gynghorau lleol â'r dulliau o gysylltu, boddhad ag ansawdd y trefniadau cysylltu, a sylwadau penodol yn ymwneud â phroblemau a geid. Canfu'r adolygiad fod dros 70% o'r cynghorau o'r farn ei bod yn 'hawdd cysylltu' â'r cyngor sir a bod lefelau uchel o foddhad â'i drefniadau ymgynghori a'r wybodaeth a ddarperid yn y mwyafrif o adrannau. Fodd bynnag, nododd hefyd lefelau sylweddol o anfodlonrwydd gyda'r trefniadau mewn lleiafswm o adrannau. O ganlyniad i'r arolwg, gwnaeth yr adroddiad 11 o argymhellion ar gyfer gwella'r modd y mae'r cyngor sir a chynghorau lleol yn rhyngweithio.

Argymhelliad A5.2

Rydym yn argymell y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol adolygu eu gweithdrefnau ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori â chynghorau cymuned a thref. Fel rhan o'r adolygiad, gellir ymgorffori enghreifftiau o arfer da cyfredol, megis, er enghraifft, galluogi clercod cynghorau lleol i ddefnyddio mewnrwyd y prif awdurdod, mewn arferion gwaith. Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru rôl i'w chwarae wrth nodi a lledaenu arferion da o'r math hwn.

5.9 Gall Siarteri helpu i ffurfioli a chodio'r trefniadau ymgynghori rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref. Ym mhennod pedwar trafodwyd Siarteri fel ffordd o reoleiddio'r modd y dirprwyir swyddogaethau. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio hefyd i nodi materion yr ymgynghorir yn eu cylch, i nodi mannau cysylltu a systemau i alluogi cynghorau cymuned a thref i godi materion gyda'r prif gyngor, ac i osod targedau ar gyfer ateb gohebiaeth ac ati. Yr unig brif gynghorau yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu Siarter ffurfiol o'r math hwn hyd yma yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y farn gyffredin yw bod Siarter Caerffili (gweler y blwch) yn effeithiol, ac y gallai ffurfio model y gellid ei ddefnyddio yn ehangach. Ceir Siarter enghreifftiol hefyd yn Atodiad H.

ASTUDIAETH ACHOS: SIARTER CYNGHORAU CYMUNED CAERFFILI

Cytunwyd ar Siarter Gymunedol Caerffili gan y cyngor bwrdeistref sirol a'r cynghorau cymuned a thref lleol yn dilyn ad-drefnu ym 1996. Mae'n nodi'r wybodaeth y bydd cynghorau cymuned yn ei darparu ar gyfer y cyngor bwrdeistref sirol; y wybodaeth y bydd y cyngor bwrdeistref sirol yn ei darparu ar gyfer y cynghorau cymuned; y gweithdrefnau ar gyfer cysylltu ac ar gyfer ymgynghori ynghylch pynciau penodol; a'r pynciau yr ymgynghorir yn eu cylch. Mae'r Siarter yn gosod rhwymedigaethau ar y cyngor bwrdeistref sirol a'r cynghorau cymuned a thref. Ymdrinnir â materion yn ymwneud â'i gweithredu gan Swyddog Cyswllt Cynghorau Cymunedol penodedig.

Argymhelliad A5.3

Dylai cytundebau Siarter rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref (gweler argymhelliad 4.1) nodi'r gweithdrefnau a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer rhyngweithio rhwng y ddwy lefel o lywodraeth leol, gan gynnwys ymrwymiadau gan y partïon i fabwysiadu arferion da.

5.10 Elfen allweddol o drefniant Caerffili yw dynodi Swyddog Cyswllt Cynghorau Cymuned. Swydd ran amser ydyw ac mae'r disgrifiad swydd yn cynnwys gweithredu fel y man cyswllt cyntaf ar gyfer cynghorau cymuned a thref, trefnu cyfarfodydd cysylltu gyda chynghorau cymuned a thref, a sicrhau bod cynghorau lleol yn derbyn cydnabyddiaeth o unrhyw ohebiaeth a anfonir i'r cyngor bwrdeistref sirol. Mae nifer o brif gynghorau eraill, gan gynnwys Sir Ddinbych, Abertawe a Thor-faen wedi creu swyddi tebyg, tra bod gan awdurdodau eraill swyddogion cyswllt neu fannau cyswllt penodedig mewn adrannau unigol. Mae dynodi swyddogion cyswllt ar lefel y cyngor cyfan ac ar lefel adrannol yn helpu i sicrhau bod y cysylltu rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref yn fwy effeithiol a dylai mwy o gynghorau wneud hyn.

Argymhelliad A5.4

Rydym yn argymell y dylai pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol ddynodi Swyddog Cyswllt Cynghorau Lleol. Byddai'r swyddog cyswllt yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r Siarter, am gefnogi cyfarfodydd cysylltu gyda chynghorau cymuned a thref, ac am weithredu fel y man cyswllt cyntaf ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar unrhyw fater yn ymwneud â'r prif awdurdod.

5.11 Ar ben hynny cynorthwyir prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref i gysylltu â'i gilydd yn effeithiol gan gyfarfodydd cysylltu ffurfiol, a all ddarparu fforwm ar gyfer trafodaethau ac arwain at brif gynghorau yn ymgynghori â chynghorau lleol ynghylch datblygu polisi yn gynnar. Trefnir cyfarfodydd cysylltu o'r math hwn (y cyfeirir atynt yn aml fel 'fforymau cynghorau lleol'), mewn amrywiaeth o ffurfiau gan tua thri chwarter y prif gynghorau yng Nghymru. Canfu gwerthusiadau

a gynhaliwyd gan awdurdodau megis Abertawe yr ystyrir bod y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol gan y mwyafrif o'r cynghorau lleol sy'n cymryd rhan ynddynt. Fodd bynnag, lleisiodd rhai cynghorau bryderon fod mentrau a gynigiwyd mewn cyfarfodydd cysylltu yn cael eu hanwybyddu gan y prif gyngor. Yn y tymor hwy, gall datblygiadau mwy diweddar megis pwyllgorau ardal (gweler isod) a chysylltiad uniongyrchol rhwng prif gynghorau a phwyllgorau ardal Un Llais Cymru, leihau pwysigrwydd cyfarfodydd cysylltu ffurfiol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, maent yn darparu cyfle gwerthfawr i drafod ac ymgynghori.

Argymhelliad A5.5

Rydym yn argymell y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol fabwysiadu'r arfer da o drefnu cyfarfodydd cysylltu rheolaidd gyda chynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd.

5.12 Mae datblygiadau diweddar mewn llywodraeth leol yng Nghymru wedi esgor ar ragor o gyfleodd i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref gysylltu â'i gilydd. O fewn ardaloedd llawer o brif gynghorau, mae cynghorau cymuned a thref wedi cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o baratoi Strategaethau Cymunedol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, naill ai fel aelodau o'r Bwrdd Llywio neu trwy ymgynghoriadau. Mae'r cyfranogiad hwn yn bwysig, nid dim ond fel modd i gynrychioli buddiannau cymunedau, ond hefyd o ran sicrhau bod gan gynghorau lleol fudd yn y strategaeth a gytunwyd. Fel rhan o broses y Strategaeth Gymunedol, cyflwynodd nifer o brif gynghorau, neu maent yn bwriadu cyflwyno, fforymau neu bartneriaethau ardal a fydd yn bwydo i mewn i'r strategaeth. Mae'r rhain yn ategu'r pwyllgorau ardal neu gymdogaeth cynharach a sefydlwyd gan gynghorau gan gynnwys Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd. Lle y mae'r cyfryw bartneriaethau, fforymau neu bwyllgorau i'w cael ar raddfa briodol, mae cynnwys cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref yn gam cadarnhaol a all ddarparu llwybr ffurfiol ar gyfer cysylltu ac adborth dwyffordd. Yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, mae pob pwyllgor ardal yn cynnwys dau gynrychiolydd cynghorau cymuned a thref di-bleidlais, a etholwyd gan y cynghorau lleol yn yr ardal. Lle y mae partneriaethau hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau a sefydliadau eraill, fel y cynigir yn Sir Ddinbych, mae ganddynt y potensial i ddarparu fforwm ar gyfer trafod ac ymgynghori strategol ar draws amrywiaeth o feysydd a gallent helpu i wella'r modd y mae cynghorau cymuned a thref yn rhyngweithio nid yn unig â'r prif gyngor ond hefyd ag asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y 'pwyllgorau/partneriaethau ardal' hyn yn wahanol i'r pwyllgorau sy'n bodoli ar gyfer ardaloedd yr hen ddosbarthau yng Ngwynedd a Phowys ac a sefydlwyd yn gynharach. Mae cylch gwaith y pwyllgorau olaf hyn sy'n cwmpasu tiriogaethau mwy o faint yn golygu efallai na fydd yn briodol i gynghorau cymuned a thref gael eu cynrychioli arnynt.

Argymhelliad A5.6

Rydym yn argymell y dylai cynghorau cymuned a thref gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaethau Cymunedol. Lle y mae'r Strategaeth Gymunedol wedi cynnwys creu fforymau neu bartneriaethau ardal newydd (neu lle y mae wedi adeiladu ar bwyllgorau ardal a fodolai eisoes), argymhellir cynnwys cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref ar y pwyllgorau hyn fel arfer da. Yn y mwyafrif o achosion byddai'n briodol i gynghorau lleol o fewn tiriogaeth pwyllgor ardal gael eu cynrychioli gan un neu ddau aelod di-bleidlais. Lle y mae pwyllgorau ardal hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau cyhoeddus a grwpiau cymunedol gallant chwarae rôl bwysig wrth wella'r modd y cynrychiolir buddiannau cymunedau ar draws amrywiaeth o feysydd.

5.13 Nododd yr argymhellion uchod newidiadau strwythurol a gweithdrefnol y gellid eu cyflwyno gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i wella'r modd y maent yn cysylltu â chynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, mae gan gynghorwyr rôl bwysig i'w chwarae hefyd, yn arbennig y rhai sy'n aelodau o brif gynghorau a chynghorau lleol. Mae tua 600 o unigolion yng Nghymru sy'n gynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol ac yn gynghorwyr cymuned a thref ar yr un pryd, sy'n cynrychioli tua 47% o'r holl brif gynghorwyr a 7.5% o'r holl gynghorwyr cymuned a thref. Gyda'i gilydd maent yn lobi sylweddol dros gynghorau cymuned a thref o fewn prif gynghorau, a ddylai allu chwarae rhan ragweithiol o ran sicrhau bod strwythurau a threfniadau priodol yn eu lle i hwyluso cysylltu effeithiol ac effeithlon rhwng y ddwy haen.

Rhan cynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio

5.14 Mae gan brif awdurdodau cynllunio – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parc cenedlaethol – rwymedigaeth statudol i hysbysu cynghorau cymuned a thref o geisiadau cynllunio o fewn eu hardaloedd ac i wahodd sylwadau. Mae'n anodd canfod i ba raddau yn union y mae hyn yn digwydd am nad yw adrannau cynllunio yn coladu ystadegau am y mater hwn yn rheolaidd. Mae amcangyfrifon gan swyddogion cynllunio yn awgrymu bod y mwyafrif o adrannau cynllunio yn anfon hysbysiadau o rhwng 500 a 1500 o geisiadau i gynghorau lleol bob blwyddyn, a bod ymatebion yn cael eu derbyn ar gyfer dros 80% o'r ceisiadau.

5.15 Nid oes gan gynghorau cymuned a thref unrhyw hawl statudol i gymryd rhan mewn gweithgarwch cynllunio strategol nac yn y gwaith o orfodi polisi cynllunio. Fodd bynnag, mae'n arfer da cynnwys cynghorau lleol ym mhob cam o'r broses gynllunio. Gall cymryd rhan mewn gweithgarwch cynllunio strategol helpu i sicrhau yr ystyrir persbectifau cymunedau lleol ar ddatblygiadau ac, os bydd hynny'n briodol, y caiff y persbectifau hynny eu hymgorffori, a gall helpu cynghorwyr cymuned a thref i ddeall sail resymegol penderfyniadau a wneir ar ôl hynny ar geisiadau cynllunio. Gall cymryd rhan mewn gweithgarwch gorfodi hefyd feithrin gwell dealltwriaeth o bolisi cynllunio, a gall gynorthwyo adrannau cynllunio y mae eu hadnoddau eu hunain yn cyfyngu ar eu gallu i fonitro'r graddau y cydymffurfir â pholisi cynllunio ar draws pob rhan o'u tiriogaeth.

5.16 Mewn tua 80% o achosion, mae barn y cyngor cymuned neu dref yn cyd-fynd â'r penderfyniad a wnaed gan bwyllgor cynllunio'r prif awdurdod. Gall tensiynau godi, fodd bynnag, yn y bumed ran arall o achosion, lle y gall cynghorau lleol gael yr argraff bod eu barn wedi'i hanwybyddu gan y prif awdurdod. Mae problemau o'r fath yn tueddu i ddeillio o gamddealltwriaeth ynghylch gofynion cyfraith gynllunio a'r polisi cynllunio a fabwysiadwyd, ac o lif gwybodaeth gwael rhwng y ddwy haen. Er enghraifft, gellir cynyddu tensiynau pan na roddir unrhyw adborth i gynghorau cymuned a thref ynghylch pam y mae penderfyniadau wedi mynd yn erbyn eu hargymhellion. Gellir cwtogi ar y cyfryw broblemau trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref (gweler pennod 8) a mabwysiadu arfer da o ran lledaenu gwybodaeth gynllunio. Mae enghreifftiau o'r olaf yn cynnwys darparu adborth rheolaidd ar ffurf cofnodion neu nodiadau ffeil pwyllgorau cynllunio ynghylch ceisiadau perthnasol; dosbarthu cylchlythyrau cynllunio i gynghorau cymuned a thref; anerchiadau gan swyddogion cynllunio yng nghyfarfodydd cynghorau lleol; a 'nosweithiau agored' mewn adrannau cynllunio ar gyfer aelodau o gynghorau cymuned a thref a'u clercod.

Argymhelliad A5.7

Mae'n arfer da cynnwys cynghorau cymuned a thref cymaint â phosibl ym mhob cam o'r broses gynllunio. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog mwy o ddefnydd o gynlluniau cymunedol, arfarniadau cymunedol ac ymarferion Cynllunio Go Iawn wedi'u trefnu gan gynghorau cymuned a thref, neu ar y cyd â hwy, i lywio gweithgarwch cynllunio strategol rhagarweiniol. Ar ben hynny rydym yn argymell y dylai prif awdurdodau nodi ffyrdd o wella'r modd y darperir gwybodaeth am faes cynllunio i gynghorau cymuned a thref, gan gynnwys, er enghraifft, dosbarthu cylchlythyrau cynllunio i gynghorau a chynnal nosweithiau agored ar gyfer cynghorwyr a chlercod cymuned a thref mewn adrannau cynllunio.

5.17 Mae'r egwyddor o gynnwys cynghorau cymuned a thref ym mhob cam o'r broses gynllunio yn cynnwys annog prif awdurdodau i ddarparu cyfleoedd i gynghorau cymuned a thref gael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd pwyllgorau cynllunio ac yn ystod ymweliadau â safleoedd. Mae nifer o brif awdurdodau yn caniatáu i gynghorwyr cymuned a thref fod yn bresennol yn ystod ymweliadau â safleoedd. Ystyrir yn aml fod hyn yn arfer defnyddiol, llawn gwybodaeth; fodd bynnag, lleisiwyd pryder hefyd bod rhai cynghorwyr cymuned yn manteisio ar ymweliadau â safleoedd gan eu defnyddio fel cyfle i lobïo prif gynghorwyr yn hytrach nag i ddysgu am gyd-destun y cais. Defnyddiwyd y cyfryw bryderon hefyd gan rai prif gynghorau i wrthsefyll ceisiadau i gynghorau cymuned a thref gael caniatâd i annerch pwyllgorau mewn perthynas â cheisiadau yn eu cymunedau. Ar ben hynny cyfeiriwyd at bryderon ymarferol ynghylch y galwadau ar amser a lle. Fodd bynnag, ystyriwyd bod arbrawf a wnaed gan Gyngor Sir Fynwy lle y rhoddwyd i gynghorau cymuned a thref yr hawl i annerch cyfarfodydd pwyllgorau cynllunio o fewn canllawiau penodol yn effeithiol ac yn gynhyrchiol, a gallai ffurfio model i'w ddefnyddio ar raddfa ehangach (gweler y blwch).

ASTUDIAETH ACHOS: PWYLLGOR CYNLLUNIO CYNGOR SIR FYNWY

I ddechrau cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy fesur i ganiatáu i gynrychiolydd un cyngor cymuned a thref annerch un o gyfarfodydd y pwyllgor cynllunio ar ran pob cyngor â diddordeb mewn ceisiadau a oedd i'w hystyried gan y cyfarfod penodol hwnnw. Barnwyd bod yr arbrawf hwn yn ddigon llwyddiannus i'r rheoliad gael ei lacio i ganiatáu i bob cyngor unigol gael ei gynrychioli. Gall cynghorau cymuned a thref wneud cyflwyniad deng munud i'r pwyllgor, ac mae'n rhaid iddynt roi 48 awr o rybudd eu bod yn bwriadu gwneud hynny.

Argymhelliad A5.8

Rydym yn argymell y dylai prif awdurdodau cynllunio gyflwyno systemau i alluogi cynghorau cymuned a thref i annerch pwyllgorau cynllunio ar geisiadau yn ymwneud â'u cymuned. Er mwyn rheoleiddio'r broses hon, cymeradwyir y weithdrefn a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Fynwy lle y gall un cynrychiolydd o gyngor lleol roi cyflwyniad 10 munud os rhoddir rhybudd o 48 awr, fel model o arfer da.

5.18 Cwtogodd targedau'r llywodraeth bod awdurdodau lleol yn prosesu ceisiadau cynllunio o fewn chwe wythnos ar yr amser sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref gyflwyno sylwadau, gan greu anawsterau ar gyfer cynghorau lle y trafodir hysbysiadau cynllunio gan y cyngor llawn mewn cyfarfodydd a gynhelir yn fisol, neu'n llai aml hyd yn oed. Mae cynghorau cymuned a thref â phwyllgorau cynllunio, sy'n gallu cyfarfod yn amlach, mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r amserlen gyflymach ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

Argymhelliad A5.9

Rydym yn argymell y dylai cynghorau cymuned a thref sefydlu pwyllgorau cynllunio i alluogi rhoi sylw priodol i geisiadau o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani. Pan na fydd nifer y ceisiadau yn cyfiawnhau ffurfio pwyllgor, dylid ystyried galw cyfarfodydd arbennig o'r cyngor i drafod ceisiadau pwysig.

5.19 Ar ben hynny gall y defnydd mwy eang o bwyllgorau cynllunio helpu i esbonio cyfrifoldebau cynghorwyr yn ôl gofynion y Cod Ymddygiad. Mae rhai cynghorau cymuned a thref wedi mabwysiadu agwedd ymgyrchol at faterion cynllunio yn y gorffennol, gan ysgogi gwrthwynebiad i gynigion dadleuol. Gall yr arfer hwn fod yn anghyson ag egwyddor arfer da ym maes cynllunio y dylai fod yn eglur bod pob proses benderfynu yn un wrthrychol a diduedd. Gall dirprwyo'r gwaith o benderfynu ar geisiadau cynllunio i bwyllgor fod yn fodd i wahaniaethu rhwng y cynghorwyr hynny sydd â chyfrifoldeb dros faterion cynllunio na ddylent ddatgan safbwynt o flaen llaw, a'r cynghorwyr hynny sy'n rhydd i ymgyrchu ar faterion datblygu fel unigolion preifat. Trafodir safle cynghorwyr cymuned a thref ar bwyllgorau cynllunio prif gynghorau ym mharagraff 8.15.

5.20 Mae'r argymhellion uchod yn ymwneud â sicrhau bod y rhan a gymerir gan gynghorau lleol ar hyn o bryd yn y broses gynllunio yn fwy effeithiol. Fodd bynnag byddai mewnbwn cynghorau cymuned a thref yn parhau i fod yn gwbl ymgynghorol. Mae dadl y dylid rhoi rôl fwy sylweddol i rai cynghorau cymuned a

thref dethol, yn arbennig cynghorau mwy o faint, trwy ddirprwyo mân benderfyniadau cynllunio. Arloeswyd y math hwn o gynllun gan Gyngor Bwrdeistref Taunton Deane yng Ngwlad yr Haf (gweler y blwch). Er mwyn copïo'r model hwn yng Nghymru byddai angen i'r cynghorau lleol hynny a fyddai'n cymryd rhan gael cefnogaeth lawn staff cynllunio prif gynghorau, gan greu galw am adnoddau; ac, yn bwysicach na dim, byddai angen gwarantu safonau proffesiynoldeb, er enghraifft, trwy ganiatáu ystyried cynghorau achrededig yn unig, a thrwy fynnu bod pob aelod o gynghorau sy'n cymryd rhan wedi'i hyfforddi mewn materion cynllunio.

ASTUDIAETH ACHOS: DIRPRWYO PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO YN TAUNTON DEANE

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Taunton Deane yng Ngwlad yr Haf gynllun prawf ym 1993 i ddatganoli mân benderfyniadau cynllunio i wyth cyngor plwyf (yr amrywiai eu poblogaethau o 380 i 1,200). Mynychodd swyddogion cynllunio a gyflogid gan y cyngor bwrdeistref gyfarfodydd o'r cynghorau plwyf lle y trafodwyd ceisiadau a lle yr oedd gan geisyddion ac aelodau o'r cyhoedd yr hawl i siarad, a'u cynghori. Erbyn diwedd 1996, roedd 249 o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu gan gynghorau plwyf – yn achos 237 roedd argymhelliad y swyddog cynllunio wedi'i ddilyn. Roedd 10 wedi'u cymeradwyo yn erbyn argymhelliad y swyddog cynllunio, a 2 wedi'u gwrthod yn erbyn ei argymhelliad. Ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau yn ystod y tair blynedd gyntaf y bu'r cynllun ar waith.

Argymhelliad A5.10

Dylai prif awdurdodau cynllunio ystyried dirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar fân geisiadau cynllunio i gynghorau cymuned a thref dethol, gan ddilyn y model a arloeswyd gan Gyngor Bwrdeistref Taunton Deane yn Lloegr. Argymhellir mai dim ond i gynghorau cymuned a thref achrededig lle y mae pob aelod o'r cyngor wedi cwblhau hyfforddiant ar faterion cynllunio y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn.

5.21 Mae'r system gynllunio ar hyn o bryd yn caniatáu i apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio gael eu cyflwyno gan geisyddion yn unig. Dadleuodd llawer o gynghorau cymuned a thref o blaid hawl i apelio trydydd parti yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgor cynllunio y prif awdurdod i gymeradwyo ceisiadau. Mae hawl i apelio trydydd parti yng Ngweriniaeth Iwerddon, Denmarc a Seland Newydd, a gwnaed ymdrech yn ddiweddar i gyflwyno hyn trwy ddeddfwriaeth yn Senedd yr Alban. Mae cefnogwyr yr hawl i apelio yn dadlau y byddai'n unioni anghydbwysedd ymddangosiadol yn y system gynllunio tuag at ddatblygwyr ac mae ymgyrchwyr hefyd wedi amau a yw'r ffaith nad oes hawl i apelio trydydd parti ar hyn o bryd yn groes i'r Ddeddf Hawliau Dynol (2000). Fodd bynnag, ystyriwyd y posibilrwydd o gyflwyno hawl i apelio trydydd parti gan Isadran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y papur ymgynghori, Cynllunio: Cyflawni dros Gymru, ac fe'i gwrthodwyd am y byddai'n cymhlethu ac yn arafu'r broses gwneud penderfyniadau ymhellach. Pe cyflwynid hawl i apelio trydydd parti, mae'n debyg y byddai'n berthnasol i amrywiaeth o barïion, nid dim ond i gynghorau cymuned a

thref, a byddai'n dwyn goblygiadau y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon. Ein casgliad ni yw y dylid ystyried cyflwyno hawl i apelio trydydd parti, ond cyn gwneud unrhyw benderfyniad y dylid gwneud rhagor o ymchwil i'r manteision, yr anfanteision a'r canlyniadau tebygol.

Argymhelliad A5.11

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn cyflwyno hawl i apelio trydydd parti yn erbyn penderfyniadau cynllunio ac ystyried canlyniadau tebygol y cyfryw fesur.

Cysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff eraill

5.22 Mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu ar raddfa fwy â Llywodraeth Cynulliad Cymru nag ag unrhyw gorff arall ar wahân i brif gynghorau a'r heddlu. Mae gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynghorau lleol yn ymdrin ag ystod eang o faterion, ac yn ymwneud â nifer o adrannau (tabl 5.4), ac mae llawer ohoni ar ffurf ymgynghoriadau. Fodd bynnag, ceir hefyd gryn dipyn o ohebiaeth ynghylch materion gweithdrefnol, a gynhwysai yn y flwyddyn a astudiwyd gan yr arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon weithdrefnau'r cod ymddygiad a'r archwiliad newydd. Cysylltodd tri o bob pum cyngor ag Aelodau Cynulliad eu hetholaethau hefyd yn ystod 2001-02.

	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Aelod Cynulliad neu AS
Llywodraeth Leol	92 (21%)	42 (9%)
Traffig	87 (20%)	112 (25%)
Cynllunio	63 (14%)	85 (19%)
Yr Amgylchedd	48 (11%)	57 (13%)
Trafnidiaeth	34 (8%)	49 (11%)
Y Gymraeg	31 (7%)	9 (2%)
Iechyd Amgylcheddol	21 (5%)	23 (5%)
Datblygu Economaidd	24 (5%)	26 (6%)
Cyngor Cyfreithiol	17 (4%)	4 (1%)
Cyngor Arall	17 (4%)	14 (3%)
Troseddu	14 (3%)	38 (9%)
Addysg	8 (2%)	16 (4%)
Twristiaeth	10 (2%)	20 (4%)
Cyngor Ariannol	6 (1%)	3 (1%)
Tai	4 (1%)	19 (4%)
Arall	26 (6%)	41 (9%)

Tabl 5.4: Pynciau y cysylltodd cynghorau cymuned a thref â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aelodau o'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn eu cylch, yn 2001-02 (nifer y cynghorau) (n=445)

5.23 Mae materion a godwyd gan gynghorau cymuned a thref ynghylch y modd y maent yn cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ansicrwydd ynghylch y mannau cysylltu priodol, yr amser a gymerir i dderbyn atebion i ohebiaeth, a swmp y ddogfennaeth a dderbynnir, yn arbennig ar gyfer ymgynghoriadau. Cwynodd rhai cynghorau eu bod yn derbyn gormod o ohebiaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol, tra lleisiodd eraill eu pryder na fyddent bob amser yn cael eu hysbysu o newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n effeithio arnynt, er nad yw wedi'i hanelu at gynghorau cymuned a thref yn uniongyrchol.

Argymhelliad A5.12

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio ar y cyd ag Un Llais Cymru 'Siarter Cynghorau Cymuned a Thref' yn nodi'r gweithdrefnau a'r egwyddorion y dylid eu dilyn wrth i'r Cynulliad ryngweithio â chynghorau lleol. Gall y Siarter hon gynnwys ymrwymiadau i ddynodi swyddog cyswllt cynghorau cymuned a thref ar gyfer y Cynulliad, i ddynodi swyddogion cyswllt ym mhob un o'r adrannau allweddol sy'n dod i gysylltiad â chynghorau cymuned a thref amlaf, ac i nodi'r gliriach ddeunydd yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref ar wefan y Cynulliad.

5.24 Yn ogystal ag ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ymgynghorir â chynghorau cymuned a thref yn aml gan ystod o gyrff, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac asiantaethau cyhoeddus eraill a phartneriaethau eraill a gefnogir gan y cyhoedd. Mae cynnwys cynghorau cymuned a thref yn y cyfryw ymarferion yn fenter gadarnhaol sy'n darparu sianel y gellir bwydo safbwyntiau lleol i mewn i ymgynghoriadau trwyddi. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae natur ac amserlen yr ymgynghoriad yn aml yn cyfyngu ar allu cynghorau cymuned a thref i gymryd rhan effeithiol yn y cyfryw faterion. Gall fod angen ymatebion cyn y gall cynghorau gyfarfod; gall ymgynghoriadau a dderbynnir trwy'r post gynnwys copïau unigol o ddogfennau mawr a ddarllenir gan gynghorwyr gwirfoddol yn olynol; a nododd rhai cynghorau eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod ateb ymgynghoriadau nad ydynt, yn eu barn hwy, yn berthnasol iawn iddynt.

Argymhelliad A5.13

Rydym yn argymell y dylai asiantaethau cyhoeddus a chyrff eraill sy'n ymgymryd ag ymgynghoriadau yn cynnwys cynghorau cymuned a thref ddilyn modelau arfer da. Gall y rhain gynnwys dosbarthu crynodebau o adroddiadau yn hytrach nag adroddiadau llawn yn y lle cyntaf, gwneud mwy o ddefnydd o fforymau ymgynghorol yn cynnwys nifer o gynghorau, a, lle y bo modd, ystyried cylch cyfarfodydd cynghorau. Mae gan Un Llais Cymru rôl i'w chwarae wrth gynghori sefydliadau ar y materion hyn.

Argymhelliad A5.14

Ar ben hynny dylai cynghorau cymuned a thref eu hunain ystyried adolygu pa mor briodol yw eu harferion busnes i ganiatáu iddynt gymryd rhan effeithiol mewn ymgynghoriadau. Gall cynghorau, er enghraifft, ystyried awdurdodi is-bwyllgor bach i adolygu ceisiadau ymgynghori ac ymateb iddynt ar ran y cyngor pan na fydd amserlen yr ymgynghoriad yn cyd-fynd â chylch cyfarfodydd y cyngor.

5.25 Mae llawer o'r heriau a wynebir gan gynghorau cymuned a thref yn eu hymwneud â chyrff eraill yn debyg i'r rhai a wynebir gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol – prinder staff ac adnoddau, amserlenni llethol, gwybodaeth arbenigol gyfyngedig a dibyniaeth ar wirfoddolwyr. Dadleuwyd bod mwy yn gyffredin rhwng cynghorau cymuned a thref a'r sector gwirfoddol nag sydd rhyngddynt a rhannau eraill o'r sector statudol. Ac eto, mae ansawdd y cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned a thref a'r sector gwirfoddol yn amrywio. Mewn rhai meysydd maent yn agos ac yn adeiladol, mewn meysydd eraill maent yn wael ac yn gystadleuol. Byddai cydweithredu a chydlynu agosach rhwng cynghorau cymuned a thref a'r sector gwirfoddol ar bob lefel, ym mhob maes, yn helpu i atgyfnerthu effeithiolrwydd gweithgarwch cynrychioliadol gan y ddau barti.

Argymhelliad A5.15

Mae gan gynghorau cymuned a thref a'r sector gwirfoddol lawer o ddiddordebau cyffredin ar lefel gymunedol ac maent yn wynebu llawer o heriau cyffredin. Rydym yn argymell y dylid adeiladu cysylltiadau cryf rhwng Un Llais Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a rhwng pwyllgorau ardal y gymdeithas newydd a chynghorau gwirfoddol y siroedd.

Cyfathrebu'n electronig â chynghorau cymuned a thref

5.26 Gellid mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â'r llif gwybodaeth i gynghorau cymuned a thref, amserlenni ar gyfer ymateb, atebion i ohebiaeth a maint y ddogfennaeth a'r angen am gopïau lluosog, o leiaf yn rhannol, trwy hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau cyfathrebu electronig mewn cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned a thref, prif gynghorau, Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill. Ar hyn o bryd, mae adnoddau TG cyfyngedig cynghorau lleol yn cyfyngu ar y capasiti ar gyfer cyfathrebu trwy ddulliau electronig. Dim ond 56% o glercod sydd â chyfleuster e-bost ar hyn o bryd, tra cafodd Cyngor Sir Powys mai dim ond 16% o gynghorau cymuned a ddefnyddai negeseuon e-bost fel dull cyfathrebu o fewn y cyngor sir. Felly er mwyn cynyddu lefelau cyfathrebu electronig fel mater o arfer da bydd angen ymgyrch hyrwyddol weithredol, gan gynnwys darparu cyngor ar ffynonellau cyllid i fuddsoddi mewn adnoddau TG ac ar faterion technegol. Un Llais Cymru sydd yn y lle gorau i arwain yr ymgyrch hon, ar y cyd â phartneriaid o Lywodraeth Cynulliad Cymru, prif awdurdodau a'r sector gwasanaethau TG.

Argymhelliad A5.16

Rydym yn argymell y dylid ymgorffori cynghorau cymuned a thref yn strategaeth e-lywodraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai fod gan bob cyngor cymuned a thref gyfeiriad e-bost a wneir yn hysbys i'r cyhoedd lle y gall aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau eraill gysylltu ag ef. Dylid datblygu cyfathrebu electronig fel y prif ddull cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynghorau cymuned a thref, a dylid annog cynghorau a chyrff eraill i gyfathrebu â'i gilydd yn electronig.

Cynrychiolaeth cynghorau cymuned a thref ar gyrff eraill

5.27 Cynrychiolir cynghorau cymuned a thref yn uniongyrchol ar amrywiaeth eang o gyrff sydd o fewn eu cymunedau, neu sydd â chylch gwaith yn cynnwys eu cymunedau. Yn aml sefydliadau a phwyllgorau ydynt sy'n derbyn cymorth ariannol ganddynt, ond maent hefyd yn cynnwys cyrff llywodraethol ysgolion cynradd y mae ganddynt hawl statudol i benodi llywodraethwyr iddynt (tabl 5.5). Mae trefniadau o'r math hwn yn dwyn manteision i'r ddwy ochr ac maent yn sicrhau bod yna atebolrwydd ar gyfer arian cyhoeddus a chyfreithlondeb democrataidd ac yn helpu i sicrhau y cydlynir gweithgareddau cymunedol.

	%
Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd	81.7
Pwyllgor Neuadd Pentref neu Neuadd Gymuned	65.7
Pwyllgor Atal Troseddu neu Gyswllt yr Heddlu	48.0
Cymdeithas Gymunedol	26.7
Pwyllgor Gŵyl neu Ddigwyddiad Diwylliannol Lleol	25.5
Pwyllgor Meysydd Chwarae	25.3
Bwrdd Canolfannau Cyngor ar Bopeth	19.4
Pwyllgor Grŵp Ieuenctid	18.5
Ymddiriedolaeth Leol	15.6
Pwyllgor Canolfan Chwaraeon	13.1
Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth	9.7
Pwyllgor Diogelwch y Ffordd	1.5
Arall	14.5

Tabl 5.5: Cynrychiolaeth cynghorau cymuned a thref ar wahanol gyrff allanol (n=475)

5.28 Ystyrir bod cael cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref ar gyrff llywodraethol ysgolion cynradd yn gysylltiad arbennig o bwysig. Nid yn unig y gall cynghorau gynorthwyo ysgolion, mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond gall cynghorau ddefnyddio'r berthynas i gysylltu ag aelodau iau o'u cymuned. Gellir torri'r cysylltiadau hyn â phobl ifanc pan fydd plant yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd, y mae'r cysylltiadau â hwy yn aml yn wannach, ac nad oes gan gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd yr hawl i benodi aelodau i'w cyrff llywodraethol.

Argymhelliad A5.17

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried rhoi i gynghorau cymuned a thref o fewn dalgylch ysgol uwchradd yr hawl i benodi aelod o gorff llywodraethol yr ysgol. Byddai angen ymgynghori ymhellach ynghylch y system briodol ar gyfer penodi, ac ynghylch gosod ffiniau dalgylchoedd.

5.29 Mewn tair rhan o Gymru – sef Eryri, Bannau Brycheiniog, ac Arfordir Sir Benfro – mae'n rhaid i gynghorau cymuned a thref gysylltu nid yn unig â chyngor sir, ond hefyd ag awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r trefniadau ymgynghori rhwng awdurdodau parc cenedlaethol a chynghorau cymuned at ei gilydd yn dda, fodd bynnag, codwyd materion ynghylch y ffaith na chynrychiolir cymunedau lleol yn uniongyrchol ar yr awdurdodau. Gall cynghorwyr cymuned wasanaethu fel aelodau o'r awdurdod o bryd i'w gilydd, ond dim ond yn rhinwedd eu mandad deuol fel cynghorwyr sir neu fel penodedigion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mewn cyferbyniad, sefydlodd Deddf yr Amgylchedd 1995 hawl statudol i gymunedau lleol gael eu cynrychioli ar awdurdodau parc cenedlaethol yn Lloegr, a gyflawnwyd at ei gilydd trwy ethol cynrychiolwyr cynghorau plwyf yn anuniongyrchol. Dylid edrych ar y potensial ar gyfer cyflwyno system debyg yng Nghymru fel rhan o'r adolygiad presennol o barciau cenedlaethol Cymru.

Argymhelliad A5.18

Rydym yn argymell y dylai Awdurdodau Parc Cenedlaethol ystyried a ddylai cynghorau cymuned a thref sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn parc cenedlaethol gael eu cynrychioli ar yr awdurdod. Cynghorir yr adolygiad i edrych ar y modelau a ddefnyddir yn Lloegr i enwebu cynrychiolwyr cynghorau plwyf yn aelodau o Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

5.30 Fel mater o egwyddor, dylai'r holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a phartneriaethau a sefydlwyd trwy fentrau o eiddo'r Cynulliad geisio cysylltu â chynghorau cymuned a thref fel sy'n briodol i'w graddfa a'u cylch gweithredu. Pan fydd cyrff a phartneriaethau yn gweithredu ar lefel gymunedol, mae angen fel arfer i'r cyngor cymuned neu dref perthnasol gael ei gynrychioli'n uniongyrchol. Pan fydd cyrff a phartneriaethau yn cwmpasu nifer o gymunedau o fewn sir, gall fod yn fwy priodol penodi un neu ddau gynrychiolydd a etholwyd gan gynghorau cymuned a thref yn yr ardal. Ar gyfer cyrff haen uwch, gall fod yn briodol caniatáu i gynghorau

cymuned a thref enwebu ymgeiswyr i'w hystyried fel penodedigion posibl, neu gysylltu â chynghorau lleol trwy gyfarfodydd cydlynu neu ymgynghoriadau rheolaidd.

Argymhelliad A5.19

Rydym yn argymell y dylid rhoi arweiniad i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gynrychioli cynghorau cymuned a thref a'u buddiannau. Dylai'r arweiniad gydnabod y bydd y dulliau priodol yn amrywio yn ôl pa mor weithredol yw'r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ei gylch gorchwyl a chyfansoddiad ei fwrdd rheoli, a dylai gyflwyno nifer o fodelau a all gynnwys cynghorau cymuned a thref yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar fyrddau; cynghorau cymuned a thref yn cael eu cynrychioli'n anuniongyrchol ar fyrddau trwy Un Llais Cymru; cynghorau yn cael yr hawl i enwebu ymgeiswyr i'w hystyried ar gyfer eu penodi i'r bwrdd; neu ymgynghori neu drefniadau cydlynu ffurfiol.

5.31 Yn arbennig, mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnesau, Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf a Phartneriaethau Gweithredu Cymunedol Gwledig yn cynnwys meysydd cyfrifoldeb sydd o gryn ddiddordeb i gynghorau cymuned a thref. Er mwyn hybu cydlynu gweithgareddau lleol a darparu cyfreithlondeb democrataidd, dylid cynnwys cynghorau cymuned a thref cymaint â phosibl o fewn strwythurau rheoli'r mentrau hyn.

Argymhelliad A5.20

Dylai fod yn agored i gynghorau cymuned a thref gael eu cynrychioli o fewn strwythurau rheoli'r Ardaloedd Gwella Busnesau arfaethedig. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd swyddogaethau yn gorgyffwrdd, rydym yn argymell y dylid ymgynghori'n llawn ag Un Llais Cymru yn y broses o ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnesau.

Argymhelliad A5.21

Dylid adolygu arweiniad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar weithredu rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a rhaglen Gweithredu Cymunedol Gwledig er mwyn cyfeirio at gynnwys cynghorau cymuned a thref ar bartneriaethau lleol a sefydlwyd o dan y cynlluniau hyn fel mater i'w ystyried.

Rôl a photensial y cymdeithasau cynrychioliadol

5.32 Mae cynghorau cymuned a thref yng Nghymru hyd yma wedi'u cynrychioli gan bedair cymdeithas – Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol Cymru (NALC Cymru), Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru, Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru a Chymdeithas y Cynghorau Lleol Mwy o Faint. Mae dros dri chwarter y cynghorau cymuned a thref yn aelodau o un o'r cymdeithasau hyn o

leiaf; fodd bynnag, mae'r rhan weithredol a gymerir gan gynghorau yn fwy cyfyngedig. Dim ond tua hanner y cynghorau sy'n anfon cynrychiolwyr yn rheolaidd i gyfarfodydd y cymdeithasau, ac mae llai nag un ym mhob pum cynghorydd wedi mynychu cyfarfodydd neu gynadleddau'r cymdeithasau.

5.33 Mae'r cymdeithasau cynrychioliadol yn chwarae rôl bwysig wrth gynorthwyo a chynghori aelodau, ac wrth lobïo ar faterion o ddiddordeb strategol ar draws sector y cynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, gall y ffaith eu bod wedi'u rhannu rhwng y pedwar grŵp, ynghyd â nifer y cynghorau nad ydynt yn aelodau o unrhyw gymdeithas, amharu ar effeithiolrwydd gweithgarwch cynrychioli lobi'r cynghorau lleol.

5.34 Felly mae'r penderfyniad i ffurfio cymdeithas newydd unedig y cynghorau cymuned a thref, sef Un Llais Cymru, i'w groesawu. Mae gan y gymdeithas newydd gyfle unigryw i gryfhau llais cynghorau cymuned a thref ac i gynrychioli buddiannau a phryderon y sector yn uniongyrchol gerbon Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fforymau rhanbarthol, prif gynghorau, a chyrff eraill yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Argymhelliad A5.22

Bydd gan Un Llais Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella'r modd y cynrychiolir materion sy'n destun pryder i gynghorau lleol. Caiff y gymdeithas ei hun y cyfle i bleidio materion yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref yn uniongyrchol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac i gysylltu â sefydliadau ac asiantaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill. Er mwyn cyflawni'r potensial hwn yn effeithiol, rydym yn argymell:

- Bydd angen swyddfa a phrif weithredydd neu swyddog polisi canolog cryf ar y sefydliad newydd i'w alluogi i gysylltu'n effeithiol â Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Bydd angen i'r sefydliad sicrhau hefyd fod ei strwythur yn ei alluogi i barhau i gynrychioli pryderon cynghorau lleol yn effeithiol yn rhanbarthol o fewn Cymru
- Bydd angen i'r sefydliad fod yn sensitif i'r ffaith bod cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn amrywio o ran eu maint, eu cyllideb, eu gweithgarwch ac felly eu buddiannau er mwyn iddo eu cynrychioli'n effeithiol
- Bydd angen i'r sefydliad gynyddu ei aelodaeth ymhlith cynghorau cymuned a thref yng Nghymru cymaint â phosibl. Er mwyn gwneud hyn bydd angen iddo allu dangos ei fod yn cynnig gwerth am arian i danysgrifwyr.

Argymhelliad A5.23

Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith Un Llais Cymru gynnwys cynrychioli buddiannau cynghorau cymuned a thref gerbron sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol, hybu arfer da, codi ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned a thref a gweithredu fel 'man casglu a dosbarthu gwybodaeth' ar gyfer hyfforddiant i aelodau cynghorau lleol, clercod ac aelodau eraill o staff.

Argymhelliad A5.24

Er mwyn annog cynghorau i danysgrifio i Un Llais Cymru, gall fod yn briodol cyfyngu rhai o'r gwasanaethau hyfforddi a chyngor i aelodau yn unig, neu eu darparu ar gyfer aelodau ar gyfradd ostyngol.

6. Y Modd y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn Cysylltu â'u Cymunedau

Mae'r bennod hon yn edrych ar sut y mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu â'u cymunedau, gan ymchwilio i'r potensial ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cyngor, ymgynghoriadau a chyfranogiad mewn etholiadau.

6.1 Mae llwyddiant cynghorau lleol i gynrychioli buddiannau eu cymunedau yn effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar y modd y maent yn cysylltu â chyrff allanol, ond hefyd ar y modd y maent yn cysylltu â'u cymuned leol eu hunain. Cryfder mawr cynghorau cymuned a thref yw eu bod yn agosach at bobl leol nag unrhyw lefel arall o lywodraeth. Ac eto, yn ymarferol, gall ansawdd ac agwedd agored y rhyngweithio â'r cyhoedd gan gynghorau lleol amrywio gryn dipyn.

6.2 Yn hanesyddol, dibynnai llawer o gynghorau cymuned a thref ar ryngweithio anffurfiol rhwng eu haelodau a thrigolion lleol, a oedd yn adnabod ei gilydd fel cymdogion, cwsmeriaid, cydweithwyr, neu gydaelodau o glybiau, timau chwaraeon, eglwysi a chapeli. Mae natur gyfnewidiol cymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys symudoledd cynyddol, cau gwasanaethau lleol, gostyngiad y nifer y rhai sy'n mynychu addoldai a gwanhau cydlyniad cymunedol, wedi tanseilio'r cysylltiadau anffurfiol traddodiadol hyn. Ni ellir cymryd yn ganiataol bellach y bydd 'pawb' yn gwybod pwy yw'r cynghorwyr cymuned neu dref, neu fod cyfleoedd i'w cael pan fydd cynghorwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â thrigolion lleol eraill. Yn lle hynny, mae angen i gynghorau erbyn hyn sefydlu systemau mwy ffurfiol ar gyfer cysylltu â'u cymunedau, gan gynnwys cynnwys y cyhoedd yng nghyfarfodydd y cyngor a gwahanol fathau o ymgynghoriadau.

Cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cynghorau

6.3 Nid oes gan aelodau o'r cyhoedd unrhyw hawl statudol i gymryd rhan yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned a thref (dim ond i'w mynychu), ond mae gan gadeiryddion cynghorau y dewis i awdurdodi etholwr i annerch cyfarfod ar unrhyw adeg. Cyflwynodd tua chwarter y cynghorau cymuned a thref gyfnod ffurfiol er mwyn i'r cyhoedd gymryd rhan yn eu cyfarfodydd, ac mae cymaint hefyd yn caniatáu i etholwyr siarad yn fwy achlysurol ac yn fwy anffurfiol. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn amrywio, ond gall gynnwys, er enghraifft, gyfnod o ddeg i bymtheg munud a neilltuir ar ddechrau cyfarfod rheolaidd y cyngor, gyda'r gofyniad weithiau bod cyfranogwyr yn hysbysu'r clerc o flaen llaw (gweler y blwch). Yn y mwyafrif o achosion, nifer fach o aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd; fodd bynnag, mae darparu cyfleoedd yn ffurfiol i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn fenter ddemocrataidd bwysig, a phan y'i defnyddir gall helpu i sicrhau bod y cyngor yn ymateb i bryderon lleol, ac i annog y cyhoedd i ymddiddori ym musnes y cyngor.

ASTUDIAETH ACHOS: LLANBEDR-Y-FRO

Mae Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro ym Mro Morgannwg yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitem gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd cyngor. Mae'n rhaid rhoi pedwar diwrnod ar ddeg o rybudd o'r cais, a chaiff yr aelod o'r cyhoedd bum munud ar ddechrau'r cyfarfod i sôn am yr eitem. Ar ben hynny gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i wneud sylwadau cychwynnol ar unrhyw eitem ar yr agenda ar ddechrau cyfarfod y cyngor, a chânt hyd at ddeng munud i gyflwyno sylwadau ar unrhyw bwnc a drafodwyd ar ddiwedd y cyfarfod.

6.4 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynghorau cymuned a thref osod hysbysiad o gyfarfod cyngor mewn lle amlwg yn y gymuned, ac i ganiatáu i etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned ddarllen cofnodion cyfarfodydd y cyngor. Mae llawer o gynghorau yn mynd y tu hwnt i'r lleiafswm gofynion hyn ac maent yn trefnu bod agenda a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'w darllen ar hysbysfyrddau cyhoeddus, mewn llyfrgelloedd lleol, ac, mewn rhai achosion, ar wefannau'r cynghorau. Fodd bynnag, mae lleiafswm bach o gynghorau yr ymddengys nad ydynt yn bodloni'r gofynion cyfreithiol hyn. Mae trefnu bod manylion cyfarfodydd cyngor ar gael fel hyn yn un o elfennau hanfodol atebolrwydd lleol ac mae'n elfen hanfodol yn y broses o gynorthwyo'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd, ac mae angen atgyfnerthu'r rhwymedigaethau cyfreithiol a glynu wrthynt.

Argymhelliad A6.1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad i gynghorau cymuned a thref ar gysylltu â'r gymuned. Dylai'r arweiniad gynnwys:

i) Argymhelliad y dylai pob cyngor cymuned a thref ddarparu ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd llawn o'r cyngor. Gall natur y ddarpariaeth hon amrywio yn ôl amgylchiadau'r cyngor, ond gall gynnwys, er enghraifft, neilltuo deng munud ar gyfer cwestiynau yn gynnar yn yr agenda. Ar ben hynny gall fod yn briodol o dan rai amgylchiadau i fynnu yr hysbysir y clerc ymlaen llaw o unrhyw gwestiynau.

ii) Ailddatgan y gofyniad cyfreithiol bod cynghorau cymuned a thref yn arddangos hysbysiad o gyfarfodydd mewn man cyhoeddus o fewn y gymuned, a'u bod yn trefnu bod cofnodion cyfarfodydd ar gael i'w darllen gan unrhyw etholwr llywodraeth leol o'r gymuned. Ymddengys fod nifer fach iawn o gynghorau nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn ar hyn o bryd.

iii) Annog cynghorau cymuned a thref i sicrhau bod agendâu, cofnodion a dogfennau priodol eraill yn hawdd eu deall gan bob aelod o'r gymuned, gan gynnwys, lle y bo hynny'n briodol, gynhyrchu'r dogfennau hyn yn ddwyieithog.

(Gweler hefyd argymhellion 6.3, 6.5, 7.9 a 7.12)

6.5 Gall iaith busnes y cyngor fod yn bwnc sensitif a dadleuol. Mewn 18% o gynghorau cymuned a thref, Cymraeg yw'r unig iaith neu'r brif iaith a ddefnyddir mewn cyfarfodydd. Yn yr un modd, mae tua 12% o gynghorau yn ysgrifennu eu cofnodion yn Gymraeg yn unig, ac mae lleiafswm bach iawn yn cylchredeg agendâu yn Gymraeg yn unig. Mae'r cyfryw arferion yn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg yn y cymunedau dan sylw ac mae'n rhaid eu canmol am helpu i sicrhau bod i'r Gymraeg le canolog ym mywyd y gymuned o hyd. Fodd bynnag, i'r trigolion yn y cymunedau hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg gallant fod yn arferion gwaharddol sy'n cyfyngu ar gyfranogiad democrataidd.

6.6 Erbyn hyn mae'n ofynnol i gynghorau cymuned a thref lunio Cynllun Iaith Gymraeg o dan adran 6(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg safonol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lunio hysbysiadau ac agendâu ar gyfer cyfarfodydd cyngor yn ddwyieithog, ac yn caniatáu i gynghorau nodi a fydd cofnodion yn cael eu hysgrifennu yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Yn arbennig, mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau "ymateb i geisiadau am wybodaeth mewn perthynas â chofnodion, neu rannau o'r cofnodion yn newis iaith yr unigolyn." [2]

6.7 Mae mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn brawf cadarnhaol bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal fel ieithoedd busnes mewn cynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, dylid cydnabod y bydd mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn creu rhagor o alwadau ar gynghorau o ran adnoddau, ac y gall godi heriau ymarferol ar gyfer rhai cynghorau o ran cwrdd â cheisiadau am wasanaethau cyfieithu. Efallai y bydd angen rhagor o arweiniad i gynorthwyo cynghorau i weithredu cynlluniau iaith, a dylid monitro'r angen posibl am gymorth ariannol, er enghraifft ar gyfer cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Argymhelliad A6.2

Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg fonitro'r modd y mabwysiedir ac y gweithredir Cynlluniau Iaith Gymraeg gan gynghorau cymuned a thref er mwyn asesu'r angen posibl am ragor o arweiniad ar yr agweddau ymarferol ar weithredu cynlluniau ac am gymorth ariannol.

Ymgynghori â'r gymuned

6.8 Mae amrywiaeth eang o ddulliau ar gael i gynghorau cymuned a thref ar gyfer cysylltu'n rhagweithiol â thrigolion lleol trwy ymgynghoriadau. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau statudol i drefnu cyfarfodydd cyhoeddus a phleidleisiau cymunedol, yn ogystal â'r capasiti i ddefnyddio pwerau gwario o dan adran 137 i gynnal arolygon trigolion. Mae mwy na hanner y cynghorau cymuned a thref yng Nghymru wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ers etholiadau 1999 ar bynciau yn amrywio o'r Mileniwm a Jiwbilî Aur y Frenhines i faterion cynllunio, traffig, troseddu a llifogydd.

2 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2001) Cynllun Iaith Gymraeg Safonol ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, adran 4.4.4.

Cynhaliwyd arolygon gan fwy na chwarter y cynghorau lleol ers 1999, gan gynnwys arfarniadau cymunedol ac arolygon anghenion tai, yn ogystal ag arolygon yn ymwneud â thraffig, cynllunio, darparu gwasanaethau a materion ieuenctid. Mae pleidleisiau ffurfiol yn llai cyffredin ond gallant arwain at gyfradd cyfranogi ychydig yn uwch.

6.9 Bydd y dull mwyaf priodol o ymgynghori â'r cyhoedd yn amrywio yn ôl maint y gymuned a natur y pwnc dan sylw. Mae'r arfer o ymgynghori, pa ddull bynnag a ddefnyddir, yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cyngor a'i chymuned ac yn ei gwneud yn fwy effeithiol wrth gynrychioli materion lleol. Felly, gall fod yn briodol rhoi credyd am ymgynghoriadau diweddar wrth achredu cynghorau cymuned a thref fel y cynigir yn argymhelliad 4.5.

Argymhelliad A6.3

Dylai cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynghorau cymuned a thref ar gyswllt â'r gymuned (gweler argymhelliad 6.1) gynnwys anogaeth i fwy o gynghorau cymuned a thref ymgymryd ag ymgynghoriadau â'u cymuned ehangach trwy gyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon. Gellir ymgorffori credyd ar gyfer mentrau o'r fath yn ychwanegol i'r weithdrefn achredu a gynigir yn argymhelliad 4.5.

Cyfathrebu â chymunedau

6.10 Mae cyswllt anorfod rhwng cynnwys cymunedau yn effeithiol yng ngweithgarwch cynghorau a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynghorau cymuned a thref a'u gwaith. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gyfarfodydd ychydig dros hanner y cynghorau cymuned a thref yn y wasg leol, ond yn achos llawer o gynghorau nid oes unrhyw ffordd i drigolion lleol dderbyn newyddion am drafodaethau a gweithgareddau cynghorau ar wahân i ofyn am y cofnodion a'u darllen. Dylai egwyddorion llywodraeth agored fynnu bod cynghorau cymuned a thref yn rhagweithiol wrth gyfleu gwybodaeth am eu cyfarfodydd a'u gweithgareddau i bobl leol. Bydd y dull mwyaf priodol o wneud hyn yn amrywio, ond gall gynnwys mentrau megis llunio a dosbarthu cylchlythyrau neu gynnal gwefan fanwl.

Argymhelliad A6.4

Rydym yn argymell y dylai'r weithdrefn achredu ar gyfer cynghorau cymuned a thref fynnu y cyflwynir datganiad polisi ar ledaenu gwybodaeth i'r gymuned. Gall arfer da yn hyn o beth amrywio gan ddibynnu ar faint y gymuned a pherthynas y cyngor â'r papur newydd lleol neu'r papur bro. Fodd bynnag, rydym yn argymell lle y mae'r sylw a roddir i gyfarfodydd a gwaith cynghorau yn y wasg yn gyfyngedig, y dylai cynghorau cymuned a thref ystyried llunio eu cylchlythyrau rheolaidd eu hunain.

6.11 Mae'n arfer da fel rhan o strategaeth lledaenu gwybodaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref lunio adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau i'w ddosbarthu i drigolion lleol. Ar hyn o bryd llunnir adroddiadau blynyddol gan nifer fach o gynghorau, gan gynnwys, er enghraifft, Cyngor Cymuned Llandysilio yn Iâl yn Sir Ddinbych y mae ei 'daflen wybodaeth flynyddol' yn cynnwys manylion am ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd, cyllideb y cyngor, adroddiadau ar weithgareddau'r cyngor, a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau lleol. Bydd y diwyg mwyaf priodol ar gyfer adroddiad blynyddol yn amrywio unwaith eto yn ôl maint a natur cymuned. Yn achos cymunedau bach efallai y bydd yn ddigon i adroddiad blynyddol gynnwys paragraff mewn cylchlythyr cymunedol neu iddo gael ei arddangos ar hysbysfwrdd; yn achos cymunedau mwy o faint efallai y bydd adroddiad mwy sylweddol a ddosberthir i bob cartref yn fwy priodol.

6.12 Dylid hybu datblygu gwefannau ar gyfer cynghorau cymuned a thref fel rhan o strategaeth e-lywodraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan tua un o bob wyth cyngor wefannau gweithredol, gyda'r mwyaf soffistigedig ohonynt yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd cynghorau, manylion cysylltu ar gyfer cynghorwyr, manylion ceisiadau cynllunio, dyddiaduron digwyddiadau, a nodweddion rhyngweithiol megis ffurflenni y gellir eu hislwytho ar gyfer ceisiadau grant (fel y defnyddir gan Gyngor Cymuned Cwmbrân) a chyfleusterau archebu ar-lein ar gyfer neuaddau cymuned (fel y defnyddir gan Gyngor Cymuned Llanwrthwl).

Argymhelliad A6.5

Dylai arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynghorau cymuned a thref ar gynnwys y gymuned (gweler argymhelliad 6.1) annog hefyd:

i) Pob cyngor cymuned a thref i lunio adroddiad blynyddol i'w ddosbarthu yn rhad ac am ddim o fewn y gymuned, trwy ddefnyddio dull sy'n briodol i faint a sefyllfa'r gymuned.

ii) Cynghorau cymuned a thref i ddatblygu gwefannau a chyfleusterau e-bost fel modd i gyfathrebu â'r trigolion lleol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol weithio gydag Un Llais Cymru i ddarparu cyngor ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar ddatblygu cyfleusterau TG, gan gynnwys cyngor ar gyllid.

6.13 Gellir defnyddio digwyddiadau dinesig a chymunedol ac eiddo'r cyngor i gyd yn fodd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynghorau cymuned a thref. Ble bynnag y bo modd, dylid eu defnyddio nid dim ond fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau traddodiadol sy'n apelio i brif ffrwd y gymuned, ond dylent hefyd gynnwys ymdrechion i gysylltu â grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Un enghraifft a grybwyllir yn aml o sut y gellir gosod swyddfeydd cyngor er mwyn iddo fod yn ganolbwynt i'r gymuned yw datblygiad 'siopau un cam', fel yr arloeswyd gan nifer o gynghorau, yn arbennig Cyngor Tref Burgess Hill yn Sussex. Gall 'siopau un cam'

helpu i ddod â phobl leol i gysylltiad rheolaidd â'r cyngor lleol trwy ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth hefyd ar ran amrywiaeth o sefydliadau partner gan gynnwys, er enghraifft, y prif gyngor, cwmnïau cyfleustodau, cwmnïau bysiau, y gwasanaeth cyflogi a'r bwrdd croeso. Byddai angen datblygu 'siopau un cam' mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, a byddai angen iddynt fod yn sensitif i fentrau tebyg sy'n cael eu rhedeg gan y prif gyngor, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, neu gyrff eraill.

Argymhelliad A6.6

Dylai Un Llais Cymru weithio gyda phartneriaid priodol i ddarparu cyngor ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar sefydlu 'mannau gwybodaeth un cam' lle y gallai trigolion gael gafael ar wybodaeth o ystod o sefydliadau partner, gan gynnwys, o bosibl, wasanaethau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cyfleustodau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus, mynediad cyhoeddus i wybodaeth am gefn gwlad, cymdeithasau tai a'r gwasanaeth cyflogi.

Etholiadau

6.14 6.14 Mae gan gynghorau cymuned a thref fantais dros grwpiau cymunedol eraill am fod eu cyfreithlondeb yn deillio o fandad etholiadol. Ac eto, yn ymarferol, dim ond lleiafswm o gynghorau cymuned a thref sydd wedi gorfod cynnal pleidlais i ethol eu haelodau mewn blynyddoedd diweddar, ac mae llawer wedi cael trafferth i ddenu ymgeiswyr. Yn y set ddiwethaf o etholiadau llawn ym 1999, dim ond mewn ychydig dros un o bob pum ward cyngor tref y cafwyd etholiadau. Mewn bron traean o'r wardiau, enwebwyd llai o ymgeiswyr na nifer y seddi a oedd ar gael, tra nad enwebwyd yr un ymgeisydd mewn tua 40 ward (tabl 6.1).

	Nifer y wardau (n = 1634)	**% y wardau**
Mwy o ymgeiswyr na seddi	337	20.6%
Yr un nifer o ymgeiswyr ag o seddi	686	42.0%
Llai o ymgeiswyr nag o seddi	510	31.2%
Nid enwebwyd unrhyw ymgeiswyr	40	2.4%
Dim cystadleuaeth (nifer yr ymgeiswyr yn anhysbys)	28	1.7%
No data	33	2.0%

Tabl 6.1: Ymgeiswyr a enwebwyd yn erbyn y seddi a oedd ar gael, yn ôl y ward, mewn etholiadau i gynghorau cymuned a thref, 1999.[3]

6.15 Gall ystod o ffactorau, gan gynnwys nifer yr etholwyr, cyfranogiad pleidiau gwleidyddol, a'r ffaith bod yna faterion lleol dadleuol, ddylanwadu ar nifer yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, gall lefelau isel o gyfranogiad hefyd adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o etholiadau neu o gyfrifoldebau cynghorau.

3 Ffynhonnell y data yn y tabl hwn yw'r arolwg holiadur o gynghorau cymuned a thref, ar y cyd â data gan Woods, M. ac Edwards, B. (2003) Etholiadau i Gynghorau Tref, Plwyf a Chymuned yng Nghymru a Lloegr, 1998-2000. Delir y gronfa ddata gan UK Data Archive, Prifysgol Essex, Colchester

Argymhelliad A6.7

Rydym yn argymell y dylai Un Llais Cymru fod wedi'i gynrychioli ar y Gweithgor a sefydlwyd yn dilyn y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru i hybu cyfranogiad yn etholiadau llywodraeth leol 2004. Dylid ehangu cylch gwaith y Gweithgor i gynnwys yr etholiadau i gynghorau cymuned a thref.

6.16 Rheolir etholiadau i gynghorau cymuned a thref gan y prif gyngor perthnasol, ac fel arfer codir y gost ar y cyngor lleol. Gall y costau hyn fod yn eithaf sylweddol – cyfeiriwyd at ffigurau o £3.65 fesul etholwr, neu £7,000 am set lawn o etholiadau i dref cyngor – yn arbennig ar gyfer cynghorau â chyllidebau bach. Gall y posibilrwydd y byddant yn mynd i'r cyfryw gostau, yn arbennig ar gyfer isetholiadau o ganlyniad i seddi'n dod yn wag yn achlysurol, sy'n anodd iawn cyllidebu ar ei gyfer ymlaen llaw, atal cynghorau rhag mynd ati'n rhagweithiol i annog ymgeiswyr i gynnig eu hunain. Gallai tynnu'r cyfrifoldeb hwn oddi wrth gynghorau cymuned a thref helpu i annog cynghorau a chynghorwyr i fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo etholiadau, gan gynyddu cyfranogiad a chyfreithlondeb democrataidd cynghorau.

Argymhelliad A6.8

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried rhoi grantiau uniongyrchol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i ariannau'r holl gostau yr eir iddynt wrth drefnu etholiadau ac isetholiadau i gynghorau cymuned a thref. Defnyddid fformiwla yn seiliedig ar nifer a maint cynghorau lleol o fewn ardal awdurdod a thystiolaeth ddiweddar o weithgarwch etholiadol i benderfynu sut y câi'r 'Gronfa Democratiaeth Leol' ei dosbarthu. Byddai'r fenter hon yn cael gwared â'r cyfrifoldeb ariannol sy'n atal cynghorau cymuned a thref rhag mynd ati'n rhagweithiol i hybu etholiadau ac annog ymgeiswyr i gynnig eu hunain.

6.17 Ymunodd cyfran sylweddol o gynghorwyr cymuned a thref â'r cyngor i ddechrau trwy gael eu cyfethol yn hytrach na thrwy gael eu hethol. Gall yr arfer o lenwi seddi gwag trwy gyfethol cynghorwyr greu tuedd i recriwtio aelodau newydd o'r cyngor o'r un cefndir a rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig â'r cynghorwyr sydd eisoes ar y cyngor, ac, o dan amgylchiadau eithriadol, gall gryfhau'r argraff bod cynghorau cymuned a thref yn 'siopau caeëdig'. Pan nad oes modd osgoi cyfethol aelodau newydd, mae'n arfer da cyhoeddi'r cyfle yn eang o fewn y gymuned, ac yn arbennig i'r grwpiau hynny nad oes ganddynt ddigon o gynrychiolaeth ar y cyngor.

Argymhelliad A6.9

Rydym yn ailadrodd argymhelliad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad i gynghorau cymuned a thref yn nodi y dylid rhoi i seddi gwag y bwriedir eu llenwi trwy gyfethol aelodau gyhoeddusrwydd eang yn eu hardaloedd, ac y dylid rhoi sylw arbennig i'r mater o hysbysu grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau pobl ifanc o'r seddi gwag hyn.

7. Cyllid Cynghorau Lleol a'r Broses Werthuso

Mae'r bennod hon yn edrych ar sefyllfa ariannol gyfredol cynghorau cymuned a thref ac yn trafod yr opsiynau ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol, rheoleiddio rheolaeth ariannol a'r gofynion ar gyfer y broses werthuso.

Trosolwg o'r sefyllfa ariannol gyfredol

7.1 Mae cynghorau cymuned a thref yng Nghymru gyda'i gilydd yn rheoli cyllideb grynswth o £25 miliwn y flwyddyn fwy neu lai.4 Yn ôl ystadegau a gasglwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, codir £18.9 miliwn o'r cyfanswm hwn trwy'r archebiant, ac amcangyfrifir y ceir swm pellach o £5-6 miliwn o ffynonellau incwm eraill. Mae maint cyllidebau cynghorau unigol yn amrywio gryn dipyn. Codir tua dwy ran o bump o incwm crynswth cynghorau cymuned a thref gan y 30 o gynghorau mwyaf, tra bod gan gynghorau sy'n gwasanaethu cymunedau â phoblogaeth o lai na 500 incwm blynyddol o lai na £3,000 (tabl 7.1).

Poblogaeth (1991)	Incwm crynswth (£)	Incwm cymedrig(£)	Incwm crynswth fel % o gyfanswm yr incwm cyfunedig
>500 (N=75)	207,972.63	2,772.97	1.4
500-999 (N=109)	644,129.51	5,909.45	4.2
1,000-2,499 (N=110)	1,730,795.82	15,734.23	11.3
2,500-4,999 (N=55)	2,014,335.31	36,624.28	13.1
5,000-9,999 (N=41)	4,079,742.55	99,505.92	26.6
10,000-19,999 (N=25)	4,068,929.71	162,757.19	26.5
>20,000 (N=5)	2,574,022.06	514,804.41	16.8
Cyfanswm (N=420)	15,319,927.59	36,476.02	100

Tabl 7.1: Incwm crynswth yn ôl band maint poblogaeth ar gyfer 420 o gynghorau cymuned a thref

7.2 Daw dros dri chwarter incwm cynghorau cymuned a thref o'r archebiant a godir yn y Dreth Gyngor. Mae ffynonellau incwm eraill yn cynnwys renti ac incwm o osod eiddo, buddsoddiadau, grantiau gan brif gynghorau, ffïoedd ar gyfer gweithgareddau masnachu a thaliadau am gyfleusterau hamdden, nad yw'r un ohonynt yn cyfrannu mwy na 5% o'r incwm crynswth (tabl 7.2). Y cynghorau yn y bandiau canol, sef y rhai â phoblogaethau o rhwng 2,500 a 20,000, sy'n dibynnu fwyaf ar yr archebiant. Mae tua 18% o incwm cynghorau mawr sydd â mwy nag 20,000 o drigolion yn deillio o renti ac incwm o osod eiddo, tra bod nifer gyfyngedig o gynghorau bach iawn, a chanddynt boblogaethau o lai na 500, yn cael cyfran helaeth o'u hincwm o ffïoedd ar gyfer gweithgareddau masnachu. Ni fu'n rhaid i bedwar cyngor – sef Llanfihangel Glyn Myfyr, Conwy; Nash, Casnewydd; Tyddewi, Sir Benfro; a Threlech a'r Betws, Sir Gaerfyrddin – osod unrhyw archebiant yn 2002-03, am fod ganddynt ddigon o incwm o ffynonellau eraill.

4 Cyfrifwyd y ffigur amcangyfrifedig hwn o fanylion am yr archebiant a bennwyd gan bob un o'r 737 o gynghorau, a gafwyd gan brif gynghorau, wedi'i gyfuno â data cynhwysfawr am incwm a ddarparwyd gan 420 o gynghorau.

Ffynhonnell y cyllid	Cyfanswm yr incwm crynswth (£)	Incwm crynswth fel % o gyfanswm yr incwm cyfunedig	Incwm cymedrig (£)
Archebiant	11,810,011.63	77.1	28,186.19
Ffïoedd ar gyfer gweithgareddau masnachu	255,306.39	1.7	14,183.69
Taliadau am gyfleusterau hamdden	226,845.59	1.5	6,481.30
Taliadau a ffïoedd eraill	196,891.34	1.3	2,524.25
Gosod neuadd bentref/ neuadd gymuned	338,256.16	2.2	6,632.47
Rhenti eraill ac incwm arall o osod adeiladau	738,075.13	4.8	7,769.21
Buddsoddiadau	432,017.49	2.8	1,542.92
Incwm gan yr awdurdod lleol	336,309.52	2.2	3,503.22
Incwm arall	986,214.34	6.4	6,050.39
Cyfanswm incwm	**15,319,927.59**	**100**	

Tabl 7.2: Incwm crynswth yn ôl y ffynhonnell ar gyfer 420 o gynghorau.

7.3 Mae patrymau gwario gan gynghorau cymuned a thref yn fwy amrywiol, ac maent yn dibynnu ar faint y cyngor a'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir ganddo. Cyflog y clerc, yswiriant a ffïoedd archwilio yw'r unig wariant gwirioneddol ar gyfer pob cyngor, neu bron bob cyngor, ac maent yn cyfrif am ychydig dros bumed rhan o gyfanswm gwariant cynghorau lleol. Mae meysydd gwariant pwysig eraill yn cynnwys neuaddau pentref a chymuned, costau swyddfa, goleuadau, parciau a chostau cyflogau staff ar wahân i'r clerc (tabl 7.3).

7.4 Mae cynghorau mwy o faint yn gwario cyllid ar amrywiaeth fwy eang o feysydd na chynghorau llai o faint ac nid yw gwariant wedi'i ganolbwyntio cymaint ar eitemau craidd. Felly, mae cyflog y clerc yn gyfwerth a bron traean o'r cyllid a werir gan gynghorau â phoblogaeth o lai na 500, ond dim ond 8% o'r cyllid a werir gan gynghorau â mwy nag 20,000 o drigolion. Gyda'i gilydd, mae cyflogau a chostau gweinyddol yn cyfrif am dros hanner y gwariant gan gynghorau bach iawn; tra bod cynghorau o faint canolig yn gwario gyda'i gilydd dros hanner eu cyllideb ar ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau, tra gall costau cyflogau, yn achos y cynghorau mwyaf, fod yn gyfwerth â thraean o'u gwariant (tabl 7.4).

Maes gwariant	Gwariant Crynswth (£)	% Gwariant Crynswth	Gwariant Cymedrig (£)	Nifer y cynghorau	% o'r cynghorau
Cyflog y Clerc	2,177,077.36	17.3	5,375.50	405	100
Cyflogau Eraill	1,817,477.20	14.4	12,709.63	143	35.3
Ffioedd Archwilio	224,074.36	1.8	613.90	365	90.1
Costau Swyddfa Eraill	934,600.76	7.4	2,875.69	325	80.2
Yswiriant	389,417.21	3.1	1,006.25	387	95.6
Parciau	498,327.55	4.0	3,436.74	145	35.8
Neuaddau Pentref	1,326,787.86	10.5	6,946.53	191	47.2
Hamdden Dan Do	320,444.47	2.5	10,681.48	30	7.4
Hamdden Awyr Agored	423,025.42	3.4	4,147.31	102	25.2
Claddfeydd	460,956.36	3.7	3,545.82	130	32.1
Twristiaeth	209,694.55	1.7	5,114.50	41	10.1
Goleuadau	625,252.36	5.0	4,631.50	135	33.3
Llwybrau troed	174,915.71	1.4	1,841.22	95	23.5
Meysydd Parcio	62,224.98	0.5	5,656.82	11	2.7
Rhandiroedd	24,800.06	0.2	918.52	27	6.7
Ysbwriel	17,180.92	0.1	613.60	28	6.9
Trafnidiaeth Gymunedol	9,162.00	0.1	916.20	10	2.5
Troseddu	229,858.00	1.8	6,567.37	35	8.6
Amwynderau Cyhoeddus Eraill	419,283.66	3.3	5,113.22	82	20.2
Cyfathrebu/ Cyhoeddusrwydd	74,187.84	0.6	893.83	83	20.5
Pleidleisiau / Arolygon	12,895.03	0.1	859.67	15	3.7
Cymryd Rhan mewn Cystadleuaethau	18,806.09	0.1	940.30	20	4.9
Trefniadau Gefeillio	23,435.56	0.2	901.37	26	6.4
Digwyddiadau Cymunedol	320,622.90	2.5	2,649.78	121	29.9
Gwariant Arall	1,820,007.95	14.4	9,381.48	194	47.9
Cyfanswm y Gwariant	**12,614,516.16**	**100.0**			

Tabl 7.3: Gwariant refeniw yn ôl y diben ar gyfer 405 o gynghorau

<500	500-999	1000-2499	2500-4999	5000-9999	10000-19999	>20000
Cyflog y clerc	Cyflog y clerc	Cyflog y clerc	Neuaddau pentref	Cyflog y clerc	Cyflogau eraill	Cyflogau eraill
Yswiriant	Yswiriant	Goleuadau	Cyflog y clerc	Cyflogau eraill	Clerk's salary	Costau swyddfa
Office costs	Mwysydd parcio	Parciau	Cyflogau eraill	Neuaddau pentref	Costau swyddfa	Twristiaeth
Goleuadau	Outdoor recreation	Outdoor recreation	Goleuadau	Costau swyddfa	Amwynderau cyhoeddus eraill	Cyflog y clerc
Cyflogau eraill	Goleuadau		Parciau			Neuaddau cymuned
Ffioedd archwilio	Amwynderau cyhoeddus eraill					Amwynderau cyhoeddus eraill
	Neuaddau pentref					

Tabl 7.4: Rhestr ddosbarthedig o'r prif flaenoriaethau gwario yn ôl poblogaeth y cyngor (dim ond eitemau a oedd yn gyfwerth â 5% neu fwy o'r gwariant crynswth yn y band a gynhwyswyd)

7.5 Mae adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i awdurdod lleol wario arian at "unrhyw ddiben sydd yn ei farn ef o fantais uniongyrchol i'w ardal neu i'r trigolion", o fewn terfyn a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariodd tua thri chwarter y cynghorau cymuned a thref arian o dan y ddarpariaeth hon yn 2001-2, a daeth cyfanswm amcangyfrifedig y gwariant i ychydig dros £2 miliwn. Fodd bynnag, nid oes mwy na hanner dwsin o gynghorau yn gwario yn agos at y terfyn o dan adran 137, ac mae'r mwyafrif o'r cynghorau yn gwario llai na 10% o'r arian y caniateir iddynt ei wario. Yn sgîl codi'r terfyn o dan adran 137 i £5 fesul etholwr gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Cymru) 2000, a chyflwyno cynyddran flynyddol wedi'i chysylltu â chwyddiant, lleihawyd y pwysau ar hyblygrwydd gwariant o dan adran 137, ac nid oes fawr ddim tystiolaeth o'n dadansoddiad fod angen codi'r terfyn o dan Adran 137 ymhellach yn gyffredinol, na dileu'r terfyn gwariant.

Argymhelliad A7.1

Bernir bod y diwygiadau diweddar i'r rheolaethau ar wario o dan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wedi diwallu anghenion y mwyafrif o gynghorau ac ystyrir nad oes unrhyw achos dros ddileu'r terfyn. Fel mesur ychwanegol, gellid rhoi i'r Gweinidog yr hawl i ganiatáu i gynghorau unigol fynd dros y terfyn am gyfnod cyfyngedig fesul achos. Byddai angen i'r cyfryw gynghorau ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf achredu a ddisgrifir yn adran 4, bod ganddynt hanes o reolaeth ariannol dda, ac na fyddai'r eithriad yn cynyddu lefel gyffredinol y dreth gyngor a godid ar gartrefi yn y gymuned yn sylweddol.

7.6 Derbyniwyd incwm cyfalaf gan 36% o'r cynghorau cymuned a thref yn 2001, gyda'r rhan fwyaf ohono yn dod o grantiau cyfalaf a rhoddion. Ar draws y 161 o gynghorau a nododd incwm cyfalaf yn yr arolwg a gynhaliwyd o gynghorau cymuned a thref fel rhan o'r astudiaeth, £659,111 oedd cyfanswm yr incwm, neu incwm cymedrig o £4,098 fesul cyngor. Nododd ychydig dros chwarter y cynghorau wariant cyfalaf uniongyrchol, a gwariant cymedrig o £12,979. Nododd nifer lai, tua 7.4%, wariant ar grantiau a benthyciadau cyfalaf.

7.7 Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymeradwyo benthyciadau ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf ac mae'n rhaid i fenthyciadau mewn crynswth aros o fewn terfyn benthyca y penderfynwyd arno ymlaen llaw. Mae nifer fach o gynghorau wedi tynnu sylw at y rheoliad hwn fel un sy'n rhwystro cynghorau rhag benthyca, a llaciwyd y rheoliadau ar gyfer cynghorau tref a phlwyf yn Lloegr. Mae modd cyflwyno diwygiad tebyg yng Nghymru. Mae'n debyg y bydd pwysigrwydd y cyfryw newid i sefyllfa ariannol cynghorau cymuned a thref yn gyffredinol yn gyfyngedig am fod y lefelau o gyllid a fenthycir gan gynghorau ar hyn o bryd yn isel. Llai nag un o bob deg cyngor cymuned a thref sydd â benthyciadau neu drefniadau credyd heb eu clirio.

Argymhelliad A7.2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r weithdrefn gymeradwyo ar gyfer benthyciadau gan gynghorau cymuned a thref er mwyn gwneud y system yn fwy syml a hyblyg. Fel rhan o'r adolygiad dylid ystyried dileu'r terfyn benthyca penodedig.

7.8 Rhoddwyd gwybod am adnoddau ariannol â gwerth cyfunedig o £12.129 miliwn gan 379 o'r cynghorau a ymatebodd i'r arolwg, y delir dros 80% ohonynt mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu. Mae balans cymedrig cyfrifon cyfredol cynghorau ychydig dros £5,000, ac ar gyfartaledd delir swm pellach o £27,000 mewn cyfrifon eraill. Mae'r balansau hyn, a gwerth adnoddau eraill, yn amrywio gryn dipyn rhwng cynghorau o faint gwahanol. Nododd tua un o bob ugain cyngor fod ganddynt gyfranddaliadau, a nododd tua un o bob deg fod ganddynt fuddsoddiadau eraill. Mae bron tri chwarter y cynghorau cymuned a thref

yn meddu ar eiddo, gyda'r rhan fwyaf yn eiddo rhydd-ddaliol, ac fel arfer mae'n cynnwys cabanau aros bysiau, meysydd chwarae, lleoedd chwarae a chofgolofnau rhyfel. Mae ychydig dros un o bob pum cyngor yn berchen ar neuadd bentref neu neuadd gymuned, ac mae tua un o bob deg yn berchen ar swyddfeydd cyngor.

Trethu dwbl

7.9 Yn gysylltiedig ag ehangu'r rôl a chwaraeir gan gynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau (gweler pennod 4), mae risg efallai y caiff problem trethu dwbl ei gwaethygu. Mae'r broblem hon yn codi pan gyflawnir swyddogaethau mewn rhai cymunedau gan y cyngor cymuned neu dref ond gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol mewn cymunedau eraill o fewn ardal yr un awdurdod lleol. Yn y sefyllfa hon, gall trethdalwyr lleol i bob pwrpas fod yn talu am yr un gwasanaeth ddwywaith, unwaith trwy'r archebiant, ac unwaith trwy'r dreth gyngor gyffredinol.

7.10 Gellir cwtogi ar broblem trethu dwbl trwy lynu wrth egwyddorion arfer da. Pan ddirprwyir swyddogaethau gan brif gynghorau i gynghorau cymuned a thref, dylid trosglwyddo swm priodol o arian hefyd, fel na fydd unrhyw alw ychwanegol ar yr archebiant. Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer y weithdrefn hon yn y Siarter, a dylid cyfrif y swm y mae'n rhaid ei drosglwyddo yn seiliedig ar faint a wariwyd ar y swyddogaeth dan sylw yn y gymuned dan sylw yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Mewn llawer o achosion, bydd y cyngor lleol sy'n ymgymryd â swyddogaeth ddirprwyedig yn awyddus i fuddsoddi arian ychwanegol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth neu'r cyfleuster. Mae'n rhaid i'r cyngor cymuned neu dref ddarparu'r cyfryw gyllid, ond ni fyddai'n gyfystyr â threthu dwbl am fod y buddsoddiad yn un ychwanegol.

Argymhelliad A7.3

Dylai trefniadau siarter rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref nodi'r trefniadau ariannu ar gyfer yr holl swyddogaethau dirprwyedig. Rydym yn argymell y dylai cymorth ariannol ar gyfer swyddogaethau dirprwyedig gael ei ddarparu ar gyfer y cynghorau cymuned a thref priodol gan y prif awdurdod, wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar faint a wariwyd ar y swyddogaeth yn y gymuned berthnasol yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Dylai unrhyw wariant ychwanegol y byddai ei angen i wella neu ddatblygu'r gwasanaeth neu'r amwynder dirprwyedig ddod o archebiant y cyngor cymuned neu dref neu o incwm arall.

7.11 Mae'n anos mynd i'r afael â phroblem trethu dwbl pan fydd yn deillio o drefniadau a sefydlwyd ar gyfer darparu swyddogaethau cyfochrog gan brif gynghorau a chynghorau lleol. Er enghraifft, gall fod meysydd chwarae mewn prif dref yn cael eu darparu gan y cyngor sir, ond bod meysydd chwarae mewn pentrefi yn cael eu darparu gan y cyngor cymuned. Mae nodi'r union swyddogaethau a gyflawnir gan y prif gyngor a chan y cyngor lleol ym mhob cymuned yn broses hynod o anodd. Nid yw'n anghyffredin, er enghraifft, i rai goleuadau stryd mewn

cymuned gael eu cynnal a'u cadw gan y cyngor sir, ac i rai gael eu cynnal a'u cadw gan y cyngor cymuned. Mae materion cymhleth yn codi hefyd ynghylch cymharu cyfleusterau tebyg i'w tebyg, ac ynghylch defnyddio amwynderau pwysig gan drigolion o'r tu allan i'r gymuned lle y'u lleolir.

7.12 Mae'n debyg, felly, y bydd y dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â threthu dwbl yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Gall fod angen mabwysiadu dulliau gwahanol o ymdrin â'r broblem mewn bwrdeistref sirol trefol lle y mae nifer gymharol fach o gynghorau cymuned ac mewn sir wledig lle y mae nifer fawr o gynghorau cymuned. Mae angen darparu arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol sy'n sensitif i'r cymhlethdodau hyn ac sy'n cynnig amrywiaeth o opsiynau. Gallai'r rhain gynnwys defnyddio darpariaethau Treuliau Arbennig i nodi gwahanol lefelau o dreth gyngor mewn cymunedau gwahanol. Mae'r dull gweithredu hwn yn un tryloyw, yn seiliedig ar degwch wrth bennu biliau treth gyngor ac yn hwyluso atebolrwydd democrataidd, ond gall fod yn anodd ei weithredu. Mae opsiynau eraill yn cynnwys trefniadau lleol rhwng prif gynghorau a chynghorau lleol ar rannu swyddogaethau cyfochrog mewn enw a phriodoli trethi yn briodol.

Argymhelliad A7.4

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru adolygu'r arferion presennol a ddilynir wrth ariannu swyddogaethau dirprwyedig a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer osgoi trethu dwbl. Dylai'r adolygiad geisio nodi modelau o arfer da y gellid eu lledaenu trwy arweiniad a roddid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chytuno ar y modelau hynny. Fel rhan o'r adolygiad dylid ystyried tri model posibl a nodwyd gan yr astudiaeth bresennol:

(i) y dylid trosglwyddo cyllid priodol a glustnodwyd wrth ddirprwyo swyddogaethau;

(ii) y dylai awdurdodau lleol ystyried, lle y bo hynny'n ymarferol, ddefnyddio darpariaethau 'treuliau arbennig' i bennu lefelau treth gyngor mewn cymunedau gwahanol o fewn ardal prif awdurdod mewn perthynas â chyfleusterau a ddarperir gan gyngor cymuned neu dref a ddarperir mewn mannau eraill gan y prif awdurdod.

(iii) y dylai prif awdurdodau negodi trefniadau lleol â phwyllgor ardal priodol Un Llais Cymru ynghylch cynnwys swyddogaethau cyfochrog wrth gyfrifo'r galwadau ar y dreth gyngor a'r archebiant.

Argymhelliad A7.5

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu rhagor o ymchwil i'r graddau y cyflwynir gwasanaethau ac amwynderau yn gysylltiedig â swyddogaethau cyfochrog gan gynghorau cymuned a thref neu brif gynghorau. Dylai'r ymchwil lywio'r modd y datblygir polisi ac arweiniad ar drethu dwbl yn y dyfodol.

Ariannu cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol

7.13 Bydd rôl gynyddol cynghorau cymuned a thref yn creu galwadau newydd ar gyllid cynghorau, nid yn unig i wella swyddogaethau a ddirprwywyd, ond i dalu am gymorth gweinyddol, ymgynghoriadau ac i gynnal rôl helaethach cynghorau mewn gweithgarwch cynllunio a gweithio mewn partneriaeth ac mewn gweithgarwch cynrychioliadol. Bydd angen nodi ffynonellau cyllid newydd i gwrdd â'r galwadau hyn. Mae llawer o'r cynlluniau grant sy'n agored i gynghorau cymuned a thref ar gyfer symiau cyfyngedig na fyddai'n ddigon i gynnal graddfa'r datblygiadau a ragwelir. Yn yr un modd, tra y gellid mewn egwyddor godi rhagor o refeniw trwy'r archebiant, yn ymarferol cyfyngir ar faint yr archebiant gan ystyriaethau gwleidyddol o ran faint y byddai trigolion yn barod i'w dalu.

7.14 Dadleuodd nifer o gyfranwyr i'r astudiaeth, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol, y dylai cynghorau cymuned a thref dderbyn cyllid canolog trwy'r Grant Cynnal Refeniw yn uniongyrchol. Cyflwynwyd dadl debyg hefyd y dylai cynghorau cymuned a thref dderbyn cyfran o'r derbyniadau o drethi annomestig. Mae'r cynnig olaf hwn yn seiliedig ar bryderon, er y gall mentrau cynghorau lleol fod o fantais i fusnesau lleol, nad yw busnesau yn cyfrannu at gyllid cynghorau cymuned a thref.

7.15 Fodd bynnag, ein casgliad ni yw y byddai'n amhriodol caniatáu i gynghorau cymuned a thref ddefnyddio'r Grant Cynnal Refeniw na threthi annomestig o ran egwyddor ac am resymau ymarferol. Mewn egwyddor, mae materion yn codi yn ymwneud â chroesnoddi ardaloedd sydd â chynghorau lleol gan y rhai nad oes ganddynt gynghorau lleol, a chymunedau gwledig lle nad oes fawr ddim busnesau sy'n talu trethi gan drefi a chymunedau trefol bach; ac â'r strwythurau rheolaeth ariannol sydd yn eu lle ar gyfer llawer o gynghorau cymuned a thref llai o faint. Byddai defnyddio fformiwlâu i fynd i'r afael â'r materion hyn yn gwneud y gwrthwynebiad allweddol y mae a wnelo ag arfer – sef y byddai cyfrif y modd y câi'r taliadau o'r Grant Cynnal Refeniw eu dyrannu i bob un o'r 737 o gynghorau cymuned a thref yn broses gymhleth ac anodd – yn waeth byth. Mae materion hefyd yn codi ynghylch effaith ganlyniadol unrhyw benderfyniad i ostwng y Grant Cynnal Refeniw a delir i brif gynghorau i gynnal safon gwasanaethau prif gynghorau.

Argymhelliad A7.6

Deuwn i'r casgliad na fyddai'n briodol nac yn ymarferol caniatáu i gynghorau cymuned a thref gael mynediad uniongyrchol i'r Grant Cynnal Refeniw nac i drethi annomestig ar hyn o bryd. Deuwn i'r casgliad hefyd nad yw'n debyg y byddai'r prif gynghorau yng Nghymru yn fodlon i'r Grant Cynnal Refeniw gael ei frigdorri i ariannu taliadau ychwanegol i gynghorau cymuned a thref. Felly rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar ddulliau posibl eraill o ariannu cynghorau cymuned a thref yn uniongyrchol.

7.16 7.Gellir darparu arian ychwanegol yn fwy priodol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn ganolog trwy ddefnyddio grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai mentrau a allai fod yn rhan o gyfran ddechreuol o grantiau uniongyrchol gynnwys Cronfa Democratiaeth Leol i gwmpasu costau yn gysylltiedig ag etholiadau i gynghorau cymuned a thref (fel y cynigir yn argymhelliad 6.8); Cynllun Grantiau i Fusnesau a Chymunedau i gynorthwyo mentrau sydd yn bennaf o fantais i fusnesau lleol neu sydd o gryn fantais iddynt, megis cynlluniau CCTV ac ymarferion hybu twristiaeth (argymhelliad 7.7). Gellid gweinyddu'r cynllun olaf trwy Un Llais Cymru er mwyn cwtogi ar y galwadau gweinyddol ychwanegol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Argymhelliad A7.7

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno Cynllun Grantiau i Fusnesau a Chymunedau i gynorthwyo mentrau sydd yn bennaf o fantais i fusnesau lleol neu sydd o gryn fantais iddynt (e.e. CCTV a hybu twristiaeth). Gall fod yn briodol i'r cynllun cael ei weinyddu gan Un Llais Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr amod y gellir gwarantu safonau ariannol a rheoli priodol.

7.17 Cyfyngir ar gyfranogiad cynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddatblygu ac adfywio cymunedau yn aml gan y ffaith nad yw cynghorau yn gymwys i wneud ceisiadau am grantiau gan y Loteri a ffynonellau cyllid pwysig eraill. Byddai cyflwyno cronfa datblygu cymunedol newydd a fyddai ar gael i gynghorau cymuned a thref, efallai fel 'colofn ychwanegol' at raglen Cymunedau'n Gyntaf, yn gweithredu fel symbyliad ar gyfer gweithgarwch adfywio wedi'i arwain gan gynghorau. Ni ddylid ystyried bod hyn yn opsiwn arall i weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill, ond yn lle hynny byddai'n galluogi cynghorau i arwain partneriaethau a blaenoriaethu gweithgarwch cysylltu â'r gymuned. Gallai cynllun Vital Villages a redir gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr, y mae cynghorau plwyf a thref yn gymwys i wneud ceisiadau iddo, weithredu fel model wrth ddatblygu'r rhaglen.

Argymhelliad A7.8

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno rhaglen newydd i ddarparu cyllid ar gyfer mentrau cymunedol y byddai cynghorau cymuned a thref yn gymwys i wneud ceisiadau iddi. Rydym yn rhagweld y gallai'r ystod o fentrau a fyddai'n gymwys ar gyfer cyllid o dan y rhaglen gynnwys datblygu cynlluniau gweithredu cymunedol, gwella neu ddiogelu gwasanaethau lleol, cynlluniau trafnidiaeth gymunedol a phrosiectau i fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol. Rydym yn argymell y dylid modelu'r rhaglen ar raglen 'Vital Villages' a redir gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr, ond y dylai fod ar gael i bob cyngor cymuned a thref.

Rheolaeth Ariannol

7.18 Bydd y rôl estynedig ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn mynnu safonau uwch gan gynghorau ym meysydd rheolaeth ariannol ac atebolrwydd ariannol. Dylid dilyn egwyddorion tryloywder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd cyhoeddus yn holl weithdrefnau ariannol cynghorau lleol. Arddelir yr egwyddorion hyn eisoes gan y mwyafrif o gynghorau. Fodd bynnag, mae amharodrwydd nifer o gynghorau i ddarparu gwybodaeth ariannol ar gyfer yr astudiaeth hon fel rhan o'r arolwg o gynghorau yn dangos na cheir tryloywder mewn lleiafswm bach o gynghorau. Mae angen mwy o anogaeth i sicrhau y gall pob un ddangos atebolrwydd trwy gael gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol i etholwyr lleol..

Argymhelliad A7.9

Rydym yn argymell y dylai arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynghorau cymuned a thref ar gysylltu â'r gymuned (argymhelliad 6.1) gynghori y dylai pob cyngor baratoi a dosbarthu datganiad ariannol blynyddol. Dylai'r datganiad hwn nodi'n glir y gwariant ar swyddogaethau statudol, swyddogaethau dirprwyedig a gwariant o dan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn ogystal ag incwm a godwyd trwy'r archebiant, a drosglwyddwyd o brif awdurdodau, a ddyfarnwyd fel grantiau neu a dderbyniwyd gan ffynonellau eraill. Dylid nodi'n glir yr holl incwm clustnodedig ac uniongyrchol o grantiau.

7.19 Mae trefniadau archwilio priodol yn rhan bwysig o arfer da ym maes rheolaeth ariannol. Bwriedid i newidiadau a wnaed yng nghyfundrefn archwilio llywodraeth leol yn 2002 gyflwyno archwiliad 'ysgafnach' ar gyfer cynghorau cymuned a thref llai o faint. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o gynghorau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gweithdrefnau newydd wedi cynyddu'r galwadau gweinyddol a chost y broses archwilio.

Argymhelliad A7.10

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru werthuso, adolygu ac ymchwilio i'r broses o weithredu'r gyfundrefn archwilio newydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref a chanlyniadau unrhyw alwadau ychwanegol ar adnoddau. Yn arbennig, dylid adolygu pa mor briodol yw'r gyfundrefn ar gyfer cynghorau cymuned bach iawn.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

7.20 Nid yw'r un cyngor cymuned na thref yn cyrraedd y trothwy refeniw blynyddol crynswth o £1 miliwn ar gyfer cymryd rhan yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (y gyfundrefn 'gwerth gorau' gynt). Ar gyfer awdurdodau o dan y trothwy hwn, ystyrir bod y manteision yn deillio o gymryd rhan yn y rhaglen wedi'u gwrthbwyso gan y costau a'r galwadau ar adnoddau sy'n gysylltiedig. Felly, nid ystyrir bod angen gostwng y trothwy er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref

mwy o faint gymryd rhan. Fodd bynnag, mae nifer o gynghorau mwy o faint mewn blynyddoedd diweddar wedi ymchwilio i'r potensial ar gyfer cymryd rhan yn wirfoddol yn y gyfundrefn gwerth gorau fel yr oedd bryd hynny, a gellid datblygu protocol tebyg ar gyfer cymryd rhan yn wirfoddol mewn ffurf wedi'i chwtogi ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella, yn arbennig pe bai cynghorau lleol mwy o faint yn cymryd rhan fwy amlwg yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Argymhelliad A7.11

Dylid annog cynghorau cymuned a thref mwy o faint i gymryd rhan yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Un Llais Cymru ddatblygu protocol ar y cyd i alluogi cynghorau lleol mwy o faint i gymryd rhan mewn cyfundrefn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi'i chwtogi. Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol gostwng y trothwy ar gyfer cynnwys cynghorau yn orfodol yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Gwerthuso perfformiad cynghorau

7.21 Nid dim ond mewn perthynas â rheoli sefyllfa ariannol cyngor y dylai egwyddorion tryloywder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd cyhoeddus fod yn berthnasol, ond dylid eu dilyn ym mhob un o feysydd gweithgarwch cyngor. Mae mabwysiadu cynlluniau busnes a thargedau gan gynghorau cymuned a thref yn darparu fframwaith ar gyfer monitro a chynnal hunanasesiadau a all gynorthwyo etholwyr i ffurfio barn am berfformiad cynghorau. Ni ddylai'r cyfryw weithdrefnau fod yn rhy fiwrocrataidd a dylent fod yn ddigon hyblyg i fodloni gofynion cynghorau o wahanol faint. Efallai y bydd cynghorau mwy o faint am lunio cynlluniau busnes manwl yn cynnwys amcanion a thargedau penodol yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Mewn cyferbyniad efallai y bydd cynghorau bach yn nodi dau neu dri amcan, megis adnewyddu hysbysfwrdd neu blannu coed.

Argymhelliad A7.12

Rydym yn argymell y dylid annog pob cyngor cymuned a thref mewn arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gysylltu â'u cymunedau (argymhelliad 6.1) i gytuno ar gynllun gweithredu pedair blynedd, gan nodi targedau a mentrau arfaethedig. Dylai'r cynllun gweithredu fod yn ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r cyngor adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith bob blwyddyn.

8. Cynghorwyr a Chlercod

Mae'r bennod hon yn trafod cyfansoddiad cynghorau cymuned a thref o'i gymharu â chyfansoddiad eu cymunedau, a rôl a gwaith cynghorwyr a chlercod. Mae'n ystyried mater rhoi cydnabyddiaeth i aelodau o gynghorau, a'r gofynion ar gyfer hyfforddi cynghorwyr, clercod a chyflogeion cyngor.

8.1 Mae tua 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref yng Nghymru. Dônt o bob cefndir, ond nid ydynt yn adlewyrchu yn ôl eu cyfran gyfansoddiad y boblogaeth yn gyffredinol. Dynion yw bron tri o bob pedwar cynghorydd cymuned a thref, o gymharu ag ychydig o dan hanner y boblogaeth. Mae pedwar o bob deg dros 60 oed, o gymharu â llai na 30% o'r boblogaeth oedolion. Mae llai nag un o bob cant o gynghorwyr dan 25 oed, ac mae llai nag un o bob chwech o dan 45 oed.

8.2 Fel rhan o'r astudiaeth hon, cynhaliwyd arolwg atodol o 146 o gynghorwyr cymuned a thref ar ddau gyngor ar bymtheg (gweler Atodiad B). O'r cynghorwyr hyn, dim ond traean a oedd mewn swydd llawn amser. Roedd dau o bob pump wedi ymddeol. Mae bron tri chwarter y cynghorwyr wedi byw yn y gymuned trwy gydol eu hoes, neu wedi byw yno ers mwy nag 20 mlynedd. Dim ond un o bob chwe chynghorydd sydd â phlant oed ysgol neu blant cyn oed ysgol. Roedd pob un o'r 146 o gynghorwyr a ymatebodd i'r arolwg yn wyn.

8.3 Mae cynghorau nad yw eu haelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn gyfyngedig o ran eu gallu i gysylltu â'r gymuned honno a chynrychioli ei buddiannau yn llawn wrth ymdrin â chyrff allanol. Mae gan gynghorau cynhwysol berthynas gyfoethocach â'u cymunedau. Mae'r cyhoedd yn cymryd mwy o ddiddordeb a mwy o ran yng ngwaith y cynghorau hyn a gall y cynghorau hyn fod yn eiriolwyr mwy effeithiol dros fuddiannau'r gymuned.

Tuag at gynghorau mwy cynhwysol

8.4 8.4 Mae'r gynrychiolaeth gyfyngedig ar gynghorau cymuned a thref yn aml yn gysylltiedig â natur gymharol agored cyfarfodydd ac arferion ymgynghori cyngor (gweler pennod 6). Os tybir bod cyngor yn gaeëdig ac yn gyfyngedig, caiff grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymuned eu hatal rhag sefyll mewn etholiadau. Rhennir rhai ffactorau â mathau eraill o gyfranogiad gwleidyddol, gan gynnwys diddordeb cymharol wahanol grwpiau poblogaeth ym meysydd gwleidyddiaeth a llywodraethu; yr amser a'r adnoddau sydd ar gael; yr ymdeimlad o ddyletswydd ddinesig sydd gan wahanol genedlaethau; a thuedd gynhenid etholwyr i chwilio am aeddfedrwydd a phrofiad yn arweinwyr eu cymunedau. Mae ffactorau eraill yn ymwneud yn fwy penodol â chynghorau cymuned a thref, megis amser a lleoliad cyfarfodydd cyngor a faint o waith gwirfoddol sydd angen ei wneud. Efallai na fydd y duedd i'r mwyafrif o gynghorau lleol gyfarfod yn gynnar gyda'r nos yn gyfleus i rieni plant bach er enghraifft; tra gall pobl mewn swyddi llawn amser ei chael yn anodd i gymryd rhan mewn gweithgarwch cyngor y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, megis cymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd cynllunio.

Argymhelliad A8.1

Mae angen gweithredu i wneud cynghorau cymuned a thref yn fwy cynhwysol. Dylai cynghorau cymuned a thref geisio cynyddu'r gynrychiolaeth o blith merched, lleiafrifoedd ethnig, cymunedau anabl a grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd. Dylai cynghorau adolygu'r dylanwad y mae eu strwythurau, eu harferion gwaith, amserau a lleoliadau cyfarfodydd, a strategaethau cyfathrebu ac ymgynghori yn ei gael wrth hwyluso neu gyfyngu ar gyfranogiad gan wahanol grwpiau o fewn y gymuned. Mae cynghorau sy'n gynhwysol yn fwy ymatebol i anghenion a buddiannau eu cymuned a gallant wasanaethu'r gymuned honno yn fwy effeithiol.

8.5 Mae cynghorau cymuned a thref a fu'n rhagweithiol wrth geisio cysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn eu cymuned wedi canolbwyntio ar gynnwys pobl ifanc. Mae cynghorau wedi cynorthwyo'r gwaith o sefydlu cynghorau a fforymau ieuenctid, maent wedi gweithio gyda chynghorau ieuenctid sy'n bodoli eisoes ac maent wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion ieuenctid. Cyfeiriwyd llawer o'r gweithgarwch hwn at bobl ifanc o dan 21, nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd i sefyll mewn etholiadau i gynghorau cymuned a thref, ond sy'n ymwneud yn benodol â nifer o feysydd cyfrifoldeb cynghorau, gan gynnwys cyfleusterau hamdden a thrafnidiaeth gymunedol. Mae datblygiad partneriaethau o dan Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lleol yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer gwella'r math hwn o weithgarwch.

Argymhelliad A8.2

Rydym yn argymell y dylai cynghorau cymuned a thref fod wrthi'n datblygu Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio'n agos â Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac â chynghorau a fforymau ieuenctid newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes. Dylid annog cynghorau cymuned a thref i weithio gyda'u cyngor neu fforwm ieuenctid lleol i ddiffinio sut y maent yn bwriadu diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd, gan nodi mentrau y gelli eu hariannu o dan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

8.6 Cynigiodd y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru y dylid gostwng yr isafswm oedran ar gyfer cynghorwyr llywodraeth leol i 18 oed fel ffordd arall o fynd i'r afael â mater cynrychiolaeth o blith pobl ifanc. Eu bwriad yw y byddai'r ddarpariaeth yn galluogi cynghorau cymuned a thref i gyfethol pobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed wrth i seddi ddod yn wag fel 'cam cyntaf' tuag at gymryd rhan mewn llywodraeth leol. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn, ond byddem yn awgrymu hefyd y gellid ymestyn y fenter trwy ganiatáu i bob cyngor cymuned a thref gyfethol dau gynrychiolydd ieuenctid di-bleidlais rhwng 16 a 25 oed, yn ychwanegol at eu haelodaeth arferol. Byddai caniatáu cyfethol aelodau di-bleidlais dros 16 oed yn annog cynghorau i gysylltu â phobl ifanc sy'n byw'n barhaol yn y gymuned, yn hytrach na'r rhai a all fod yn absennol am gyfnodau hir, er enghraifft, yn y brifysgol.

Argymhelliad A8.3

Rydym yn ailddatgan argymhelliad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru y dylid gostwng yr isafswm oedran ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol o 21 i 18 oed, "nid am ein bod yn disgwyl y bydd llawer o ymgeiswyr 18 mlwydd oed yn ymddangos, ond yn hytrach am y bydd yn galluogi cynghorau cymuned i gyfethol pobl ifanc 18 oed a throsodd i lenwi lleoedd gwag, ac efallai trwy wneud hynny i berswadio'r cyfryw bobl ifanc maes o law i symud ymlaen i ymgeisio am le ar gynghorau sir bwrdeistref sirol."

Argymhelliad A8.4

Fel mesur pellach, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried llunio ddeddfwriaeth i ganiatáu i bob cyngor cymuned a thref gyfethol hyd at ddau gynrychiolydd di-bleidlais o blith trigolion y gymuned rhwng 16 a 25 oed. Byddai hynny'n galluogi i bob cyngor lleol gynyddu'r gynrychiolaeth o blith pobl ifanc, gan gynnwys y rhai lle yr enwebir y nifer lawn o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau ac y mae seddi sy'n dod yn wag yn achlysurol gan arwain at is-etholiadau wedi'u hymladd.

Baich gwaith a chydnabyddiaeth cynghorwyr

8.7 Mae sefyllfa cynghorydd tref neu gymuned yn aml yn un baradocsaidd. Maent yn aelodau o awdurdod statudol, ac eto yn wirfoddolwyr di-dâl, di-wobr. Yn fwyfwy gwelir bod angen iddynt lynu wrth safonau proffesiynol, ac eto maent yn coleddu eu statws fel amaturiaid. I lawer o gynghorwyr lleol gwasanaethu'r gymuned yw eu rôl, ac nid ydynt ystyried eu bod yn llenwi swydd wleidyddol.

8.8 Er gwaethaf y statws 'amatur' barchus, mae'r ymrwymiad amser a wneir gan lawer o gynghorwyr cymuned a thref yn sylweddol. Treuliodd y 146 o gynghorwyr a arolygwyd yn yr astudiaeth hon 13.2 awr y mis ar gyfartaledd ar weithgarwch y cyngor, ac eto mae'r ffigur cymedrig hwn yn cuddio cryn dipyn o amrywio rhwng unigolion. Treuliodd un o bob deg cynghorydd fwy nag 20 awr y mis ar fusnes y cyngor, a'r ymrwymiad mwyaf oedd 120 o oriau y mis gan aelod o gyngor trefol mwy o faint (tabl 8.1). Mae'r ymrwymiad amser hwn nid yn unig yn cynnwys mynychu cyfarfodydd y cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau, ond hefyd gwaith paratoi a gwaith papur, darllen dogfennau ymgynghori, ysgrifennu llythyrau, cyfarfodydd â swyddogion prif gynghorau a chyrff allanol eraill, cyfarfodydd ag etholwyr, gwaith achos, mynychu digwyddiadau dinesig, a chynrychioli'r cyngor ar gyrff eraill ac mewn cyfarfodydd a chynadleddau.

	Nifer yr oriau ar gyfartaledd a dreulir bob mis ar fusnes y cyngor					
	O dan 5	5-10	11-15	16-20	Dros 20	Dd/b
Cynghorau trefol mawr (58 o gynghorwyr)	16%	34%	19%	10%	19%	2%
Cynghorau tref bach (59 o gynghorwyr)	14%	49%	12%	3%	10%	14%
Cynghorau gwledig bach (29 o gynghorwyr)	62%	31%	3%	3%	0%	10%
Cyfanswm (146 o gynghorwyr)	24%	39%	10%	4%	11%	8%

Tabl 8.1: Nifer yr oriau ar gyfartaledd a dreulir ar fusnes y cyngor gan gynghorwyr cymuned a thref yn yr astudiaethau achos. (n=146).

8.9 Gall yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan lawn yng ngweithgarwch y cyngor lesteirio darpar gynghorwyr, yn arbennig y rhai mewn swyddi llawn amser neu sydd ag ymrwymiadau teuluol neu'r rhai y mae eu hamser rhydd neu'r arian sydd ganddynt i'w wario yn gyfyngedig.

8.10 O ganlyniad, mae dadl gref dros roi cydnabyddiaeth i gynghorwyr cymuned a thref, fel gwobr am ofynion cynyddol y rôl, ac er mwyn annog cyfranogiad ehangach. Ni ddylai cyfyngiadau ariannol atal unigolion rhag gwasanaethu fel cynghorwyr cymuned a thref. Fodd bynnag, byddai cyflwyno'r mesur hwn yn dra dadleuol ac mae'n debyg y caiff ei wrthwynebu'n gryf gan nifer sylweddol o gynghorwyr cymuned a thref sydd o'r farn bod rhoi cydnabyddiaeth yn gam diesgus i broffesiynoli eu rôl wirfoddol.

Argymhelliad A8.5

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau o Gynghorau Cymuned) (Cymru) 2002 i ganiatáu i gynghorau cymuned a thref dalu 'lwfans sylfaenol' blynyddol i aelodau mewn perthynas ag amser a dreulir ar ddyletswyddau'r cyngor y tu allan i gyfarfodydd a'r costau yr eir iddynt (e.e. costau ffôn a phost). Gellid talu'r 'lwfans sylfaenol' hwn i gadeirydd y cyngor, neu i bob aelod, o fewn fframwaith y cytunwyd arno yn genedlaethol, a dylid cwrdd ag ef o incwm refeniw a grëir yn lleol (e.e. yr archebiant). Rydym yn argymell, er mwyn i gyngor gyflwyno cynllun 'lwfans sylfaenol', y dylai'r mwyafrif o aelodau'r cyngor fod o blaid gwneud hynny.

8.11 Mae rhai aelodau o'r gymuned wedi'u cyfyngu ymhellach o ran eu gallu i gymryd rhan fel cynghorwyr cymuned a thref gan gyfrifoldebau dros ofalu am eraill. Byddai'n briodol caniatáu i gynghorwyr ddarparu lwfansau ychwanegol i unigolion yn y sefyllfaoedd hyn i gwrdd â chostau gofal plant neu ofal rhyddhad ar gyfer oedolion dibynnol ar gyfer y cyfnodau hynny pan gynhelir cyfarfodydd cyngor neu ar gyfer unrhyw fusnes priodol arall yn ymwneud â'r cyngor.

Argymhelliad A8.6

Rydym yn argymell y dylid caniatáu i gynghorau cymuned a thref hefyd ddewis ad-dalu costau gofal plant a gofal rhyddhad ar gyfer oedolion dibynnol yr eir iddynt gan aelodau tra byddant yn mynychu cyfarfodydd y cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau'r cyngor, neu wrth gymryd rhan mewn unrhyw fusnes arall ar ran y cyngor.

8.12 Gellir cwrdd â threuliau cynghorwyr sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a thref ar bwyllgorau a sefydliadau allanol, gan ddibynnu ar y math o gorff, naill ai gan y sefydliad dan sylw neu gan y cyngor. Os mai'r cyngor cymuned neu dref sy'n gyfrifol am dalu treuliau, gall hyn atal aelodau o gynghorau llai o faint rhag gwasanaethu fel cydgynrychiolydd grŵp o gynghorau. Gellid cyflwyno darpariaeth ar gyfer talu'r cyfryw dreuliau gan y grŵp o gynghorau gyda'i gilydd, a ariennid gan ardoll a godid ar bob cyngor a fyddai'n cymryd rhan.

Argymhelliad A8.7

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried caniatáu i grwpiau lleol o gynghorau cymuned a thref, a phwyllgorau ardal Un Llais Cymru, ad-dalu treuliau cynghorwyr sy'n cynrychioli grŵp o gynghorau ar gorff allanol na roddir cydnabyddiaeth ar ei gyfer fel arall. Gellid sicrhau arian i dalu'r treuliau hyn trwy godi ardoll ar bob cyngor cymuned a thref sy'n cymryd rhan.

Cod ymddygiad

8.13 Mae rôl gynyddol cynghorau cymuned a thref wedi pwysleisio o'r newydd pa mor bwysig yw sicrhau safonau uniondeb a phroffesiynoldeb uchel wrth gynnal busnes y cyngor. Ers Ebrill 2002, mae cyflwyno cod ymddygiad newydd ar gyfer aelodau o gynghorau cymuned a thref wedi dod â chynghorwyr lleol o fewn yr un fframwaith moesol ag aelodau o brif awdurdodau. Bu mabwysiadu'r cod newydd yn bwnc dadleuol mewn llawer o gynghorau ac i rai cynghorau roedd yn fesur anghymesur ar gyfer y lefel o fusnes yr ymgymerir ag ef gan lawer o gynghorau llai o faint.

8.14 Mae'n briodol y dylid disgwyl i aelodau cynghorau cymuned a thref mwy o faint, a'r cynghorau achrededig hynny sydd wedi derbyn swyddogaethau dirprwyedig, lynu wrth yr un fframwaith safonau ag aelodau prif awdurdodau. Mae achos, fodd bynnag, dros edrych unwaith eto ar ba mor briodol yw'r cod presennol ar gyfer cynghorau llai o faint nad ydynt yn gymwys i gael eu hachredu o dan y cynllun a gynigir yn argymhelliad 4.5.

Argymhelliad A8.8

Rydym yn argymell y dylai'r modd y mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref yn gweithio yn ystod y flwyddyn gyntaf y caiff ei orfodi gael ei adolygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, os oes angen, y dylid ei ddiwygio i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol i gynghorwyr cymuned a thref. Gall y diwygiadau hyn gynnwys llacio'r gofynion o ran datgan buddiant neu elfennau eraill o'r cod ar gyfer cynghorau nad ydynt yn ceisio cael eu hachredu o dan y cynllun a gynigir yn argymhelliad 4.5.

8.15 Mae'r broses o weithredu'r cod ymddygiad wedi codi materion penodol yn ymwneud ag unigolion sy'n aelodau o gyngor cymuned neu dref a chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, ac a all o ganlyniad fod ynghlwm wrth ystyried mater ar ddwy lefel. Mae hyn yn effeithio ar ystod eang o bynciau, ond mae wedi dod yn arbennig o ddadleuol mewn perthynas ag ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r cod ymddygiad yn dal y dylai pob proses gwneud penderfyniadau adlewyrchu egwyddorion gwrthrychedd a gwedduster, ac felly, y dylai aelodau ystyried pob mater yn ôl ei deilyngdod fel y'i gyflwynir pan gaiff ei ystyried. Nid yw'r cod yn atal cynghorwyr rhag pleidleisio ar yr un mater mewn cyngor lleol ac mewn prif gyngor, ar yr amod yr ymdrinnir â phob pleidlais fel penderfyniad ar wahân ac yn wrthrychol ac yn rhesymegol. Felly, dylid rhagweld y gall unigolyn ddod i benderfyniad o ran sut i bleidleisio ar fater mewn cyngor cymuned sy'n wahanol i'w benderfyniad o ran sut i bleidleisio ar yr un mater mewn cyngor sir. Fodd bynnag, os bydd cynghorwyr wedi ymgyrchu'n agored ar fater penodol, neu os byddant wedi datgan safbwynt ar y mater yn gyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan y cyngor, dylent ddatgan buddiant ac ni ddylent gymryd rhan yn y bleidlais naill ai ar lefel y cyngor lleol neu ar lefel y prif gyngor. Mae'n anodd dehongli'r rheoliadau hyn ac efallai y bydd angen arweiniad mwy penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Argymhelliad A8.9

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad i gynghorau cymuned a thref ac i brif awdurdodau i esbonio gofynion rheoliadau'r safonau newydd mewn perthynas â chyfranogiad cynghorwyr sy'n aelodau o brif awdurdod a chyngor cymuned neu dref yn y broses gwneud penderfyniadau ar y ddwy lefel, yn arbennig mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

Clercod ac aelodau eraill o staff cynghorau

8.16 Bydd i rôl gynyddol cynghorau cymuned a thref oblygiadau hefyd ar gyfer rôl ac amodau gwaith clercod. Dim ond un cyngor ym mhob ugain sy'n cyflogi clerc llawn amser ar hyn o bryd, ac mae gan gyfran debyg glercod gwirfoddol (tabl 8.2). Mae'r adnoddau sydd ar gael i glercod yn amrywio hefyd. Nid oes peiriant ffacs ar gael i drigain y cant o glercod, nid oes llungopïwr ar gael i ddeugain y cant ac nid oes cyfrifiadur ar gael i ugain y cant (tabl 8.3).

Poblogaeth	Statws y Clerc							
	Amswr llawn	Rhan amser 15-34 awr	Rhan amser 10-14 awr	Rhan amser 5-9 awr	Rhan amser <5 hours	Gwir-foddolwr 10 awr	Gwir-foddolwr 5-9 awr	Gwir-foddolwr <5 awr
<500	0	0	3	9	49	0	2	9
500-999	1	6	5	20	65	1	2	5
1000-2499	1	13	25	48	17	1	3	3
2500-4999	4	22	22	6	3	0	0	0
5000-9999	3	32	5	1	0	0	0	0
10000-19999	7	17	0	0	1	1	0	0
>20000	3	2	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**19**	**92**	**60**	**84**	**135**	**3**	**7**	**17**

Poblogaeth	Adnoddau ar gael i'r Clerc							
	Lle mewn Swyddfa	Cyfrifiadur y Cyngor	Cyfrifadur y Clerc eiHun	E-bost	Facs	Llun-gopïwr	Cymorth ysgrifen-yddol	Arall
<500	8%	5%	89%	52%	25%	28%	0%	6%
500-999	11%	13%	74%	53%	26%	40%	2%	6%
1000-2499	13%	29%	63%	49%	31%	63%	10%	5%
2500-4999	36%	63%	31%	53%	49%	80%	10%	3%
5000-9999	67%	83%	17%	71%	69%	100%	48%	7%
10000-19999	100%	100%	4%	84%	100%	100%	72%	0
>20000	100%	100%	0	100%	100%	100%	100%	0
Cyfanswm	**27%**	**37%**	**56%**	**56%**	**41%**	**61%**	**15%**	**5%**

8.17 Mae'r rhan helaethach a gymerir gan gynghorau cymuned a thref yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau, ar y cyd â gofynion rheoliadol tynnach ar draws ystod o feysydd, eisoes wedi cynyddu'r baich gwaith ar lawer o glercod. Ar gyfer dwy ran o dair o'r cynghorau y clerc yw'r unig gyflogai, a hyd yn oed mewn cynghorau mwy o faint hwyrach mai dim ond staff ysgrifenyddol iau neu staff cynnal a chadw sy'n cynorthwyo'r clerc. Felly, mae llawer o glercod yn gweithio oriau sylweddol hwy na'r rhai a nodir yn ffurfiol gan eu contractau, ac mae llawer o glercod wedi gorfod ymgyfarwyddo â gwybodaeth dechnegol am reolaeth ariannol, yswiriant, cyfreithiau iechyd a diogelwch a materion eraill.

8.18 Er mwyn i gynghorau cymuned a thref ehangu eu rôl ymhellach, dylai llawer ohonynt adolygu amodau gwaith eu clercod a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Gall fod yn briodol cynyddu oriau gwaith clerc a phrynu adnoddau newydd. Efallai y bydd cynghorau mwy o faint am ystyried ailstrwythuro eu strwythur personél yn fwy trwyadl, gan ailddifinio rôl y clerc yn fwy fel un o 'prif weithredwyr' y cyngor, a chan gyflogi aelodau newydd o staff ag arbenigedd mewn meysydd penodol.

Hyfforddiant

8.19 Mae o'r pwys pennaf, er mwyn datblygu rôl cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol, y rhoddir hyfforddiant mwy cynhwysfawr i glercod ac aelodau cynghorau. Ar hyn o bryd, dim ond chwarter y clercod sydd wedi cymryd rhan mewn unrhyw gyrsiau hyfforddi ffurfiol. O'r 146 o gynghorwyr a arolygwyd ar gyfer y prosiect hwn, dim ond 36% a oedd wedi derbyn 'hyfforddiant, cyngor neu gymorth' fel cynghorydd – sy'n cynnwys mynychu sesiynau gwybodaeth a drefnwyd gan brif awdurdodau ar bynciau megis y cod ymddygiad neu'r gofynion archwilio newydd.

8.20 Dylai fod yn arferol disgwyl y bydd clercod sy'n gweithio i gynghorau cymuned a thref wedi cwblhau rhaglen hyfforddi ffurfiol, megis yr un a ddatblygwyd gan Adran y Gyfraith, Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Chymdeithas Cynghorau Cymuned a Thref Cymru, ac y byddant yn mynychu digwyddiadau gloywi rheolaidd. Dylai fod yn un o ofynion ffurfiol y broses achredu ar gyfer cynghorau cymuned a thref sydd am ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig fod y clerc wedi cwblhau rhaglen hyfforddi.

8.21 Fodd bynnag mae angen hefyd hyfforddi aelodau cynghorau, y gwelir yn fwyfwy fod angen iddynt wneud penderfyniadau ar ystod eang o faterion technegol. Gellir cymharu'r ffaith na ddarperir unrhyw hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref i bob pwrpas â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer cyfranogwyr eraill ym maes rheoli cymunedol megis llywodraethwyr ysgolion. Prin bod angen i gynghorwyr yn gyffredinol gwblhau cwrs hyfforddi cynhwysfawr yn cyfateb i'r un ar gyfer clerc, fodd bynnag, gellid datblygu pecyn o hyfforddiant sylfaenol a chyrsiau arbenigol dewisol i gynorthwyo cynghorau i feithrin ystod o gymhwyseddau ar draws eu haelodaeth. Er mwyn i gynghorau fod yn gymwys i gymryd rhan mewn rhai mentrau gellid ei gwneud yn amod bod cynghorwyr wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd penodol (e.e. cynllunio).

Argymhelliad A8.10

Dylid datblygu pecyn hyfforddi cynhwysfawr o dan arweiniad Un Llais Cymru ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref, clercod a aelodau eraill o staff cynghorau. Mae angen i'r pecyn gynnwys darpariaeth ar gyfer nifer o ofynion hyfforddiant penodol a gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyfforddiant sefydlu ar gyfer clercod newydd, yn ymdrin â phob agwedd ar waith clerc gan gynnwys cyllid, gweinyddiaeth, y gyfraith, ac ati.
- Hyfforddiant gloywi ar gyfer clercod sefydlog, yn canolbwyntio ar newidiadau yn y gyfraith ac mewn rheoliadau.
- Hyfforddiant sefydlu ar gyfer cynghorwyr newydd, gan gynnwys hyfforddiant ar y system llywodraeth leol a chyfraith llywodraeth leol, gweithio mewn partneriaeth a'r system gynllunio.
- Hyfforddiant gloywi ar gyfer cynghorwyr sefydlog, yn canolbwyntio ar reoliadau newydd a newidiadau polisi.
- Hyfforddiant ar gyfer cyflogeion eraill cynghorau lleol, er enghraifft swyddogion cyllid, staff ysgrifenyddol, gweithwyr yn y gymuned.
- Hyfforddiant arbenigol ar bynciau penodol, er enghraifft cynnig am grantiau, cysylltu â phobl ifanc, a datblygu cymunedol.

Argymhelliad A8.11

Rydym yn argymell y dylai Un Llais Cymru weithredu fel 't_ clirio' ar gyfer cyrsiau hyfforddi achrededig, y gellir eu cyflwyno gan ystod o ddarparwyr. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i sicrhau bod y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar gael i bawb.

8.22 Yn ogystal â datblygu pecyn hyfforddi ffurfiol, gellid hyrwyddo nifer o fentrau mwy anffurfiol. Gallai'r rhain gynnwys y defnydd o gynlluniau mentora gan gynghorau i gynorthwyo aelodau newydd; llunio llawlyfr gwybodaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref; a datblygu adnoddau gwybodaeth yn seiliedig ar y rhyngrwyd.

Argymhelliad A8.12

Dylai cynghorau cymuned a thref gyflwyno gweithdrefnau ar gyfer 'mentora' aelodau newydd gan gynghorwyr profiadol. Gallai Un Llais Cymru ddarparu cyngor ar ffurf, natur a threfniadaeth y cyfryw drefniadau mentora.

Argymhelliad A8.13

Ar ben hynny, rydym yn argymell y dylai Un Llais Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'r prif awdurdodau gydweithredu i gynhyrchu amrywiaeth o adnoddau gwybodaeth ar gyfer cynghorwyr lleol a chlercod. Gall y rhain gynnwys llawlyfr ar gyfer cynghorwyr lleol ac ystod o adnoddau yn seiliedig ar y rhyngrwyd.

9. Casgliad

Mae'r bennod hon yn pwysleisio casgliadau allweddol yr astudiaeth ac yn trafod y gofynion monitro yn y dyfodol.

9.1 Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan sylfaenol o'r system llywodraeth leol yng Nghymru ac maent yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymunedau yng Nghymru. Mae ganddynt gryn botensial i ddatblygu eu rôl, i chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau ac i gynrychioli buddiannau eu cymunedau yn fwy effeithiol. Bydd yr argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn yn helpu cynghorau i wireddu'r potensial hwn, tra'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

9.2 Mae'r cynghorau mwyaf rhagweithiol eisoes yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gan gynghorau cymuned a thref. Mae llawer o enghreifftiau o gynghorau agored, cynhwysol a phroffesiynol yng Nghymru sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w cymunedau trwy amrywiaeth eang o fentrau dychmygus. Fodd bynnag, ceir hefyd leiafswm bach o gynghorau yng Nghymru sy'n anweithredol ac yn gaeëdig ac sydd heb unrhyw gysylltiad â'u cymunedau. Mae'n rhaid sicrhau mai hyrwyddo arfer da a sicrhau y gall pob cymuned yng Nghymru fanteisio ar gynghorau lleol cryf yw amcan canolog polisi yn y dyfodol yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref.

9.3 Bwriedir i'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn gyflawni tri amcan bras:

- Proffesiynoli'r modd y mae cynghorau cymuned a thref yn llywodraethu.
- Ffurfioli'r cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned a thref a chyrff eraill, gan gynnwys prif gynghorau a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Annog a chynorthwyo pob cyngor cymuned a thref i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n agored iddynt.

9.4 Dylid edrych ar yr adroddiad hwn fel ciplun o gynghorau cymuned a thref ar adeg benodol. Bydd yr amgylchiadau y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu o danynt, a'r heriau a wynebir ganddynt yn parhau i ddatblygu, a dylid cadw eu rôl, eu swyddogaethau a'u potensial yn y dyfodol i gyd o dan arolwg. Efallai y bydd yn briodol rywbryd yn y dyfodol ystyried ehangu rôl cynghorau cymuned a thref yn fwy sylfaenol, ond er mwyn cymryd y cyfryw gam byddai angen gwneud rhagor o ymchwil, gan gynnwys gwerthuso unrhyw newidiadau a ddeilliai o hynny ar gyfer prif awdurdodau.

9.5 Er mwyn monitro datblygiad cynghorau cymuned a thref yn y dyfod ôl bydd angen casglu a choladu yn rheolaidd ystod ehangach o ddata ystadegol yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref nag a gesglir ac a goledir ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld y gellid rhannu'r gorchwyl hwn rhwng Uned Data Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Un Llais Cymru. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Uned Data Llywodraeth Leol fod yn gyfrifol am goladu ystadegau

ariannol a fyddai'n galluogi gwneud asesiad mwy hyddysg o ofynion ariannol a pherfformiad cynghorau cymuned a thref. Dylid annog Un Llais Cymru i drefnu cyfrifiad achlysurol o'i aelodau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan gynghorau cymuned a thref o ran gwneud eu haelodaeth yn fwy cynhwysol, cynyddu cyfranogiad etholiadol, a chodi safonau trwy gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi.

Argymhelliad A9.1

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Uned Data Llywodraeth Leol gasglu, trwy adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned a thref, wybodaeth am incwm a gwariant crynswth cynghorau, faint o incwm a gafwyd o'r archebiant, grantiau uniongyrchol a ffynonellau eraill, a gwariant o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhelliad A9.2

Anogir Un Llais Cymru i ymgymryd â chyfrifiad rheolaidd o'i aelodau er mwyn casglu gwybodaeth a fyddai'n fodd i gynnal asesiad parhaus o anghenion a gofynion cynghorau cymuned a thref, gan gynnwys yn arbennig, ddata yn ymwneud â:

- canlyniadau etholiadau a'r nifer a bleidleisiodd; seddi sy'n dod yn wag yn achlysurol a'r camau a gymerwyd i'w llenwi;
- cyfranogiad cyflogeion ac aelodau cynghorau mewn cyrsiau hyfforddi a gweithdai ffurfiol;
- cyfansoddiad demograffig aelodaeth cynghorau.

9.6 Dylanwedir ar botensial cynghorau cymuned a thref ar gyfer y dyfodol hefyd gan y graddau y gellir cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynghorau lleol, eu gweithgareddau a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt. Dylid ystyried bod gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a lansio Un Llais Cymru yn gyfleoedd ardderchog i ddathlu a hyrwyddo gwerth cynghorau cymuned a thref ymhlith y cyhoedd.

Argymhelliad A9.3

Dylai Un Llais Cymru ystyried ffyrdd o 'ddathlu' llwyddiannau cynghorau cymuned a thref a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith cynghorau. Gallai mentrau posibl y gellid eu hastudio gynnwys gwobrau blynyddol, atodiadau arbennig yn y Western Mail a'r Daily Post, a gweithio gyda darlledwyr i ddatblygu storïau yn cynnwys cynghorau neu gynghorwyr cymuned ar *Pobol y Cwm*.

Gweithredu'r argymhellion

9.7 Bydd yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn effeithio ar ystod eang o awdurdodau, asiantaethau a sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Cyflwynir yr adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gwneir argymhellion mewn perthynas â meysydd cyfrifoldeb nifer o adrannau ac isadrannau. Fodd bynnag, gwneir argymhellion hefyd i nifer o gyrff eraill, gan gynnwys yn arbennig Un Llais Cymru – y gymdeithas gynrychioliadol newydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru – ond hefyd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parc cenedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a chynghorau cymuned a thref eu hunain. Mae Atodiad 1 yn manylu ar y sefydliadau y cyfeirir pob argymhelliad atynt.

9.8 Bydd rhai o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn dwyn goblygiadau i haenau eraill o lywodraeth, ac yn arbennig i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Yn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer llunio cyswllt rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, cynnwys cynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio, a dirprwyo, o bosibl, swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref. Cynigir y dylai fod gofyniad deddfwriaethol bod prif gynghorau yn datblygu cytundeb Siarter â'r cynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd, a fyddai'n ymdrin â'r materion hyn (gweler argymhelliad A4.1). Mae'r cynnig hwn yn adeiladu ar fodelau o arfer da sy'n bodoli eisoes ac mae'n adlewyrchu datblygiad Siarteri Plwyf o Safon yn Lloegr. Fel y dengys y Siarter enghreifftiol yn Atodiad H, byddai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn cadw cryn dipyn o ddisgresiwn o ran natur y gweithdrefnau cyswllt a gâi eu cynnwys, ac ym mha ffordd ac i ba raddau y câi unrhyw swyddogaethau eu dirprwyo. Mae'n anochel y bydd cyflwyno Siarteri (ynghyd â nifer o argymhellion penodol eraill yn yr adroddiad hwn) yn creu rhai costau 'cychwyn' ar gyfer prif gynghorau. Fodd bynnag, ein casgliad ni yw y bydd y tryloywder a'r sefydlogrwydd gwell a ddeilliai o hynny yn y berthynas rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref o fantais i'r ddwy haen o lywodraeth yn y tymor hwy.

9.10 Ble bynnag y gellid, gwnaed argymhellion nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol arnynt. Ymhlith y rhain ceir argymhellion sy'n rhai ymgynghorol, argymhellion a wneir i gyrff heblaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac argymhellion y gellid eu gweithredu o fewn pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, yn achos nifer o argymhellion byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn eu gweithredu (gweler Atodiad 1). Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud yn benodol â thri mater: (i) argymhellion yn ymwneud â chyflwyno cytundebau Siarter rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, ac achredu cynghorau cymuned a thref i ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig o dan y cytundebau hyn (argymhellion A4.1, A4.5, A4.6, A4.7, A4.8 ac A7.3); (ii) argymhellion yn

ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a diddymu cynghorau cymuned a thref (argymhellion A3.1, A3.2); ac argymhellion yn ymwneud â'r isafswm oedran i fod yn ymgeisydd mewn etholiadau cyngor a chyfethol cynrychiolwyr di-bleidlais (argymhellion A8.3 ac A8.4). Rhagwelir y gellid cynnwys y cynigion hyn mewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gyda chynigion yn deillio o'r Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru ac o'r arolwg cyfredol o barciau cenedlaethol.

9.11 Mae i'r argymhellion oblygiadau cost ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar dair lefel. Yn gyntaf, mae costau gweinyddol cymharol fach yn gysylltiedig â nifer o argymhellion sy'n cynnwys, er enghraifft, roi arweiniad i awdurdodau lleol. Yn ail, mae dau argymhelliad yn cynnig y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu rhagor o ymchwil, ar ba mor ymarferol fyddai hawl i apelio gan drydydd parti yn erbyn penderfyniadau cynllunio (argymhelliad A5.11), ac ar y modd y cyflawnir swyddogaethau cyfochrog (argymhelliad A7.5). Yn drydydd, ac yn bwysicach na dim, byddai ymrwymiadau gwario sylweddol yn deillio o chwe argymhelliad a fyddai'n cynnwys sefydlu cynlluniau grant newydd neu ddarparu cyllid ar gyfer Un Llais Cymru:

- Argymhelliad A4.10: Cyllid er mwyn cyflogi ymgynghorydd gan Un Llais Cymru i gynghori cynghorau cymuned a thref ar nodi a datblygu mentrau i fynd i'r afael ag anghenion lleol, sicrhau cyllid a gweithio mewn partneriaeth.
- Argymhelliad A6.8: Sefydlu 'Cronfa Democratiaeth Leol' i gwrdd â chostau etholiadau i gynghorau cymuned a thref.
- Argymhelliad A7.7: Sefydlu 'Cynllun Grantiau i Fusnesau a Chymunedau' i gynorthwyo mentrau gan gynghorau cymuned a thref sydd yn bennaf o fantais i fusnesau lleol neu sydd o gryn fantais iddynt.
- Argymhelliad A7.8: Sefydlu rhaglen yng Nghymru sy'n cyfateb i raglen 'Vital Villages' yn Lloegr i gynorthwyo mentrau datblygu cymunedol a arweinir gan gynghorau cymuned a thref.
- Argymhelliad A8.11: Darparu cyllid tuag at ddatblygu a gweithredu cynlluniau hyfforddi ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

9.12 Mae'r argymhellion hefyd yn cynnwys nifer o ymrwymiadau gwario sylweddol ar gyfer Un Llais Cymru. Mae angen mynd i'r afael â'r costau hyn yng nghynllun busnes y gymdeithas newydd a nodi ffynonellau cyllid priodol. Efallai y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru am ystyried darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Un Llais Cymru i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r mentrau hyn yn y tymor byr.

9.13 Nid yw'r mwyafrif o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dibynnu naill ai ar ddeddfwriaeth neu ar nodi lefelau sylweddol o gyllid newydd, a gellid eu gweithredu o fewn cyfnod cymharol fyr. Mae'r mwyafrif o'r argymhellion hefyd yn gynigion 'annibynnol' nad ydynt yn dibynnu ar argymhellion eraill yn cael eu gweithredu o flaen llaw. Fodd bynnag, mae dau argymhelliad sylfaenol – sef A4.1 ac A6.1 – sy'n hollbwysig ar gyfer gweithredu'r ystod lawn o argymhellion yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref yn cysylltu â phrif gynghorau ac â'r gymuned. Mae angen gweithredu argymhelliad A4.1, ar gyflwyno cytundebau Siarter, er mwyn gweithredu argymhellion A4.5, A4.6, A4.7, A4.8, A5.3 ac A7.3, yn ymwneud ag eitemau y dylid eu cynnwys yn y Siarter. Mae angen gweithredu argymhelliad A6.1, ar roi arweiniad yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref yn cysylltu â'u cymunedau, er mwyn gweithredu argymhellion A6.3, A6.4, A6.5 ac A7.9, yn ymwneud ag eitemau y dylid eu cynnwys yn yr arweiniad. Mae angen deddfwriaethol sylfaenol hefyd ar y set o argymhellion sy'n gysylltiedig ag A4.1, fel y nodwyd ym mharagraff 9.10. Fodd bynnag, rhagwelir y gellid cwblhau'r broses o weithredu'r holl argymhellion o fewn cyfnod o 5 mlynedd.

Atodiad A: Aelodaeth y Grŵp Llywio

Cadeirydd:

Yr Athro Eric Sunderland	Cyn-gadeirydd, y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru; Cyn-gadeirydd, y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru

Aelodau:

Andy Butler	Price Waterhouse Coopers
Yr Athro Hugh Coombs	Athro Cyfrifeg, Prifysgol Morgannwg
Richard Crawshaw	Cydlynydd, Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru
Tejay de Kretser	Cyfarwyddwr, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-Bont ar Ogwr
Roger Eagle	Cyfarwyddwr Craffu a Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Powys
Y Cyng. Richard Edwards	Is-Lywydd, Fforwm Cynghorau Lleol Cymru
Tony Roberts	Cyn-Brif Weithredwr, Cyngor Dosbarth Cwm Cynon
Y Cyng. Mair Stephens	Is-Lywydd, Fforwm Cynghorau Lleol Cymru
Vivienne Sugar	Cyn-Brif Weithredwr, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Charlotte Williams	Darlithydd mewn Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Cymru, Bangor

Sylwedyddion:

Daniel Hurford Steve Thomas	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Dr Ian Thomas
Amanda Berry
Kate Cassidy
Jennifer Wong

Atodiad B: Methodoleg Fanwl

B1 Lluniwyd y fethodoleg ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon mewn ymateb i'r brîff ar gyfer y prosiect, sef nodi'r anghenion o ran casglu data a'r amserlen a'r adnoddau a oedd ar gael. Fe'i datblygwyd gan y tîm ymchwilio ac fe'i mireiniwyd gan ymgynghori â'r Grŵp Llywio.

B2 Cynhwysodd yr astudiaeth saith ymarfer casglu data allweddol, a gyflawnwyd fesul cam dros gyfnod o ddeuddeg mis o fis Ebrill 2002 hyd fis Mawrth 2003. Cynhwysodd yr ymarferion hyn arolwg holiadur o gynghorau cymuned a thref; arolwg holiadur o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol; astudiaethau achos manwl o 17 o gynghorau cymuned a thref; cyfweliadau ffôn gyda chlercod tri chyngor arall a fu'n destun astudiaethau achos; cyfweliadau ffôn gyda swyddogion cynllunio cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parc cenedlaethol; cyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr ystod o sefydliadau rhanddeiliaid; a phedwar seminar cyhoeddus. Trafodir manylion pob un o'r dulliau ymchwil hyn yn yr atodiad hwn. Ar ben hynny, casglwyd gwybodaeth trwy adolygu'r ffynonellau llenyddiaeth a gwybodaeth bresennol yn ymwneud â chynghorau cymuned, tref a phlwyf a fodolai eisoes, ac o argymhellion ysgrifenedig (gweler paragraffau B18-20 isod).

Arolwg holiadur o gynghorau cymuned a thref

B3 Dosbarthwyd arolwg holiadur dwyieithog trwy'r post i bob un o'r 737 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ym mis Mehefin 2002. Lluniwyd yr holiadur gan ymgynghori â Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (Cymru), Cymdeithas Cynghorau Cymuned a Thref Cymru a Chymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru ac fe'i treialwyd gan chwe chyngor â phoblogaethau o wahanol faint. Trefnwyd y cwestiynau mewn deg adran yn ymdrin â chyfansoddiad y cyngor; aelodaeth y cyngor; arweinyddiaeth y cyngor; y clerc a chyflogeion eraill; cyfarfodydd a busnes y cyngor; gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor; sefyllfa ariannol y cyngor; cysylltiadau â chyrff ac asiantaethau eraill; cysylltu â'r cyhoedd; ac aelodaeth o sefydliadau cynrychioliadol.

B4 Derbyniwyd ymatebion i'r holiadur gan 475 o gynghorau. Mae'r gyfradd ymateb o 64.6% yn cymharu'n eithaf da ag arolygon eraill o gynghorau lleol a wnaed gan Ysgol Fusnes Aston (82%) ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (72%). Fel y dengys y tablau isod, mae'r ymatebion i'r arolwg yn tangynrychioli cynghorau llai o faint ychydig, tra bod y gyfradd ymateb gan ardaloedd prif gynghorau rhwng 37.5% ar Ynys Môn a 100% ym Mlaenau Gwent a Chaerdydd. Serch hynny, ystyrir bod yr ymatebion a dderbyniwyd a'u dosbarthiad yn ddigon i ganiatáu dod i gasgliadau â chryn hyder.

B5 Hoffem gydnabod y cymorth a roddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (Cymru), Cymdeithas Cynghorau Cymuned a Thref Cymru, Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru a'r gwahanol gymdeithasau sirol, wrth hyrwyddo'r arolwg ac wrth annog aelodau i ddychwelyd yr holiaduron. Mae'n amlwg i amseriad yr arolwg dros yr haf greu anawsterau ar gyfer rhai cynghorau ac efallai i hyn gyfrannu at y ffaith na ddychwelodd rhai ardaloedd ymatebion i'r holiadur. Ar ben hynny crëwyd anawsterau i rai cynghorau gan glercod yn cyfnewid, neu lle na allai clercod newydd eu penodi gael gafael ar yr ystod lawn o wybodaeth yr oedd ei hangen. Dychwelodd nifer o gynghorau holiaduron anghyflawn hefyd, naill ai ar ddamwain neu'n fwriadol. Ataliodd nifer o gynghorau, yn arbennig, wybodaeth ariannol.

Poblogaeth (1991)	Nifer y cynghorau yn y band poblogaeth	**Fel % o'r holl gynghorau**	Nifer yr ymatebion yn y band poblogaeth	**Fel % o'r holl ymatebion**	Nifer y cynghorau yn y band poblogaeth a ymatebodd (%)
<500	149	**20.2**	83	**17.5**	55.7
500-999	199	**27.0**	125	**26.3**	62.8
1,000-2,499	195	**26.5**	127	**26.7**	65.1
2,500-4,999	91	**12.3**	65	**13.7**	71.4
5,000-9,999	63	**8.5**	42	**8.8**	66.7
10,000-19,999	32	**4.3**	26	**5.5**	81.2
>20,000	8	**1.1**	7	**1.5**	87.5
Cyfanswm	737	**100**	475	**100**	64.5

Tabl B1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl maint poblogaeth y cynghorau

B6 Rhoddwyd gwybodaeth o'r holiaduron a ddychwelwyd i mewn i gronfa ddata cyfrifiadur ac fe'i dadansoddwyd gan ddefnyddio pecynnau ystadegol. Cyflwynir canfyddiadau'r arolwg yn fanwl yn yr ail bapur ymchwil o'r astudiaeth, sydd ar gael ar wefan yr astudiaeth yn www.aber.ac.uk/communitygovernance.

Ardal y prif gyngor	Nifer y cynghorau yn yr ardal	Nifer y cynghorau a ymatebodd	% o'r 'r cynghorau yn yr ardal a ymatebodd
Blaenau Gwent	4	**4**	100.0%
Pen-y-bont ar Ogwr	19	**12**	63.2%
Caerffili	16	**9**	56.3%
Caerdydd	6	**6**	100.0%
Sir Gaerfyrddin	73	**41**	56.2%
Ceredigion	51	**32**	62.7%
Conwy	33	**20**	60.6%
Sir Ddinbych	37	**26**	70.3%
Sir y Fflint	34	**29**	85.3%
Gwynedd	64	**33**	51.6%
Merthyr Tudful	1	**0**	0.0%
Sir Fynwy	33	**25**	75.8%
Castell-nedd Port Talbot	19	**13**	68.4%
Casnewydd	14	**12**	85.7%
Sir Benfro	79	**46**	58.2%
Powys	112	**81**	72.3%
Rhondda Cynon Taf	12	**7**	58.3%
Abertawe	24	**18**	75.0%
Tor-faen	6	**5**	83.3%
Bro Morgannwg	26	**20**	76.9%
Wrecsam	34	**21**	61.8%
Ynys Mon/Anglesey	40	**15**	37.5%
Cyfanswm	737	**475**	64.5%

Tabl B2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal y prif gyngor

Arolwg holiadur o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol

B7 Dosbarthwyd arolwg holiadur dwyieithog trwy'r post hefyd i bob un o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ym mis Hydref 2002. Ymdriniodd yr holiadur, a oedd wedi'i lunio gan ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, â gweithgarwch cyswllt y cynghorau â chynghorau cymuned a thref, gwybodaeth a gasglwyd gan gynghorau cymuned a thref, pwyllgorau safonau, sesiynau hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref, fforymau cynghorau lleol, dulliau eraill ar gyfer cysylltu â chymunedau, dirprwyo swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref, a gweithio mewn partneriaeth â chynghorau cymuned a thref. Derbyniwyd ymatebion i'r holiadur gan 20 o'r 22 o awdurdodau.

Astudiaethau achos

B8 Er mwyn ymchwilio ymhellach i weithgareddau cyfredol cynghorau cymuned a thref a'u potensial ar gyfer y dyfodol a chefndiroedd a phrofiadau cynghorwyr cynhaliwyd cyfres o 17 o astudiaethau achos manwl. Dewiswyd y cynghorau ar gyfer yr astudiaethau achos fel enghreifftiau o gynghorau mewn gwahanol rannau o Gymru, yn gwasanaethu poblogaethau o wahanol faint, ac mewn lleoliadau daearyddol gwahanol o'r rhai gwledig i'r rhai trefol. Llywiwyd y broses o ddewis y cynghorau gan yr arolwg holiadur ac fe'i trafodwyd â'r Grŵp Llywio, ac mewn nifer o achosion dewiswyd y cyngor fel enghraifft o arfer da, neu am ei fod yn dangos nodwedd arbennig a oedd o ddiddordeb penodol i'r astudiaeth. Er enghraifft, dewiswyd Cyngor Cymuned Cwm, Waen a Thremeirchion fel enghraifft brin o gyngor cyfunedig yng Nghymru. Rhoddir manylion pob un o'r cynghorau a fu'n destun astudiaeth achos yn Atodiad C.

B9 Ni allai lleiafswm o'r cynghorau y cysylltwyd â hwy gymryd rhan yn yr ymchwil. Er mwyn gwneud iawn am hyn, dewiswyd tri chyngor arall fel astudiaethau achos atodol y bwriedid ymchwilio iddynt trwy gyfweld y clerc ar y ffôn. Mewn cyferbyniad roedd pedair elfen i'r ymchwil yn y ddau achos astudiaeth llawn ar bymtheg:

- Cyfweliad unigol gyda'r clerc
- Cyfweliad grŵp gydag aelodau'r cyngor
- Dadansoddiad o gofnodion y cyngor ar gyfer y cyfnod ers Mai 2001
- Arolwg holiadur o aelodau'r cyngor

B10 Cynhaliwyd yr astudiaethau achos rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Ionawr 2003. Cynhaliwyd y cyfweliadau grŵp gydag aelodau'r cynghorau fel arfer mewn un noson a denwyd cynulleidfaoedd da. Roedd y drafodaeth wedi'i chynllunio'n llac ac fe'i harweiniwyd gan un o ymchwilwyr y prosiect, ac ymdriniodd â themâu yn cynnwys natur gyfnewidiol gwaith a gweithgareddau cynghorau; yr heriau a wynebir gan y cyngor a'r hyn a gyflawnwyd ganddo; agweddau tuag at rôl cynghorau yn y dyfodol; gweithio gydag awdurdodau a sefydliadau eraill; cysylltu â'r cyhoedd; a'r modd y mae cynghorwyr yn gweld eu rôl a chymhellion cynghorwyr. Cynhaliwyd dau gyfweliad grŵp yn Gymraeg, yn y Bala a Llangefni, proses a hwyluswyd gan Dr Rhys Jones, gyda chymorth Rachel Hughes. Cofnodwyd, trawsysgrifwyd a chodiwyd pob cyfweliad unigol a grŵp.

B11 Dosbarthwyd yr arolwg holiadur o aelodau cyngor cyn yr ymweliad â'r gymuned trwy'r clerc ac fe'u dychwelwyd naill ai yn y cyfarfod â'r cynghorwyr neu trwy'r post. Ymdriniodd yr holiadur dwyieithog â gyrfa'r cynghorwyr o ran gwasanaethu ar y cyngor, sut yr ymunodd y cynghorwyr â'r cyngor, eu barn am y cyfraniad y maent yn ei wneud, yr hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt, a'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Derbyniwyd ymatebion gan 146 o gynghorwyr, neu 58% o holl aelodau'r cynghorau a fu'n destun yr astudiaethau achos (gweler tabl B3).

	Cyngor Tref/Cymuned	Cyfanswm y Cynghorwyr	Cyfanswm yr Ymatebion	Ymateb fel %
Cynghorau trefol mawr (cyng: 58)	Y Barri	22	9	41
	Cwmbrân	20	7	35
	Llandudno	30	13	43
	Penarlâg	17	13	76
	Nant-y-glo a'r Blaenau	16	9	56
	Offa	18	7	39
Cynghorau tref bach (cyng: 59)	Llandrindod	15	14	93
	Llangefni	15	10	67
	Llanidloes	14	8	57
	Dinas Tyddewi	13	6	46
	Llanymddyfri	14	13	93
	Y Bala	12	8	67
Cynghorau gwledig bach (cyng: 29)	Tremeirchion, Cwm a'r Waen	14	4	29
	Llandeilo Gresynni	9	8	89
	Llangatwg Feibion Afel	9	8	89
	Treamlod	7	7	100
	Spittal	7	2	29
Cyfanswm (cyng: 146)		**252**	**146**	**58**

Tabl B3: Ymatebion i'r arolwg o gynghorwyr, yn ôl astudiaeth achos.

Cyfweliadau ffôn

B12 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn ym mis Hydref a mis Tachwedd 2002 gyda swyddogion cynllunio ym mhob un o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol. Casglodd y cyfweliadau wybodaeth am y gweithdrefnau sydd gan brif awdurdodau cynllunio ar gyfer cysylltu â chynghorau cymuned a thref a swm a natur y cynrychioliadau a dderbynnir gan gynghorau cymuned a thref ynghylch ceisiadau cynllunio, a cheisiwyd barn y swyddogion ar yr opsiynau ar gyfer datblygu rôl cynghorau cymuned a thref yn y broses gynllunio.

B13 Ar ben hynny cynhaliwyd nifer o gyfweliadau ffôn gydag amrywiaeth o unigolion a chynrychiolwyr asiantaethau eraill yn ystod yr astudiaeth. Cynhwysai'r rhain swyddogion cymdeithasau cynrychioliadol cynghorau cymuned a thref , swyddogion dethol mewn prif gynghorau, cynrychiolwyr o sefydliadau eraill â diddordeb gan gynnwys Cymorth Cynllunio, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol, a nifer o gynghorwyr unigol ac aelodau o'r cyhoedd yr oeddem wedi dod i gysylltiad â hwy o ganlyniad i'r seminarau cyhoeddus neu drwy gysylltiadau eraill.

Seminarau Cyhoeddus

B14 Fel rhan o'r astudiaeth, trefnwyd pedwar seminar cyhoeddus ym mis Ionawr 2003, mewn lleoliadau ym Modelwyddan, Caerfyrddin, Llandrindod a Phontypridd. Bwriedid i'r seminarau ddarparu cyfle i drafod y gwahanol faterion yr oedd yr ymchwil yn ymdrin â hwy gyda chynghorwyr cymuned a thref, cynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid, ac aelodau o'r cyhoedd.

B15 Anfonwyd gwahoddiadau i fynychu'r seminarau i bob cyngor cymuned a thref ac i fwy na 100 o sefydliadau cymunedol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Ar ben hynny anfonwyd datganiadau i'r wasg yn hysbysebu'r digwyddiadau i bob papur lleol yng Nghymru. Yn anffodus, amharwyd ar y broses o roi cyhoeddusrwydd rywfaint gan wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a thynnwyd ein sylw at rai pryderon ynghylch y rhybudd annigonol a lleoliadau'r cyfarfodydd. Er gwaethaf y sylwadau hyn, roedd pob un o'r pedwar seminar yn llawn dop. Mynychodd tua 80 o gyfranogwyr y seminar yng Nghaerfyrddin a chafwyd 55 ym Mhontypridd, 70 yn Llandrindod a mwy na 100 ym Modelwyddan (gweler Atodiad D ar gyfer manylion).

B16 Roedd y seminarau wedi'u cynllunio o amgylch agenda, a ddosbarthwyd i'r holl gyfranogwyr, ac a wahoddodd gyfraniadau ar bum thema fras: (i) rôl cynghorau cymuned a thref wrth ddarparu amwynderau a gwasanaethau; (ii) rôl cynghorau cymuned a thref wrth gynrychioli buddiannau lleol; (iii) cynghorau cymuned a thref yn gweithio gyda sefydliadau eraill; (iv) y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn cysylltu â'u cymunedau; (v) beth fyddai cymuned yn ei golli pe na bai unrhyw gyngor cymuned na thref ganddi? Ar ben hynny ymdriniodd y cyfarfod ym Mhontypridd yn uniongyrchol â mater creu cynghorau cymuned newydd yn yr ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynghorau cymuned na thref ar hyn o bryd. Ym mhob un o'r cyfarfodydd cyn y drafodaeth cafwyd cyflwyniad byr yn nodi cefndir yr astudiaeth, ei nodau a'i chanfyddiadau dechreuol. Cadeiriwyd tri seminar gan yr Athro Eric Sunderland, ac un gan Tony Roberts, a bu aelodau eraill o'r Grŵp Llywio yn bresennol fel sylwedyddion.

B17 Recordiwyd y seminarau ar dap, fe'u trawsysgrifiwyd ac fe'u codiwyd at ddibenion dadansoddi. Anfonwyd crynodeb o'r pwyntiau a wnaed ym mhob cyfarfod i'r cynghorau a'r sefydliadau a gofnododd eu bod yn bresennol ac mae hefyd ar gael ar wefan yr astudiaeth yn www.aber.ac.uk/communitygovernance.

Argymhellion ysgrifenedig

B18 Gwahoddwyd pob cyngor cymuned a thref gan lythyr cyflwyno'r arolwg o gynghorau i gyflwyno datganiadau ysgrifenedig yn mynegi eu barn am, (i) ffactorau sy'n dylanwadu ar y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu ar hyn o bryd; (ii) y profiad o ryngweithio gyda chyrff eraill; a (iii) y potensial i gynghorau cymuned a thref ymgymryd â rolau ychwanegol a'r materion a allai godi. Yn yr un modd, anfonwyd gwahoddiadau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig at arweinwyr pob un o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, at arweinwyr grwpiau pleidiau gwleidyddol ar y prif gynghorau ac i unrhyw gynghorau sir neu unrhyw gynghorau bwrdeistref sirol annibynnol. Arweiniwyd ymatebwyr yn benodol gan y gwahoddiadau i gyflwyno sylwadau ar weithgarwch cysylltu rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol, dirprwyo swyddogaethau, a sefydlu cynghorau cymuned newydd mewn ardaloedd lle nad ydynt i'w cael.

B19 Ar ben hynny, anfonwyd gwahoddiadau i gyflwyno argymhellion ysgrifenedig i fwy na 100 o sefydliadau rhanddeiliaid ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ac fe'u cynhwyswyd yn y cyhoeddusrwydd ar gyfer y seminarau cyhoeddus. Gwahoddwyd unigolion a gysylltodd â ni na allent fynychu un o'r seminarau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

B20 Derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan 47 o gynghorau cymuned a thref, cymdeithasau cynghorau lleol 2 sir, 7 cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, 4 grŵp plaid cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, 4 sefydliad rhanddeiliaid, a 13 o gynghorwyr unigol, clercod ac aelodau o'r cyhoedd. Rhoddir manylion yn Atodiad E. Dadansoddwyd y datganiadau ysgrifenedig gan ddefnyddio cynllun codio ac ymgorfforwyd sylwadau yn y papurau ymchwil ynghylch rôl cynghorau cymuned a thref wrth gyflwyno gwasanaethau ac ynghylch rôl gynrychioliadol cynghorau cymuned a thref.

Arolygon Eraill

B21 Yn ogystal â'r uchod, rydym yn ddiolchgar i Blaid Werdd Ceredigion, Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorwyr (Cymru), Cyngor Sir Powys ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, am ddarparu ar ein cyfer ddata o arolygon ac ymchwil gynharach ac am ganiatáu i ni gyfeirio at eu data a'u canfyddiadau yn yr astudiaeth hon.

Atodiad C: Astudiaethau Achos

Am esboniad o'r modd y dewiswyd yr astudiaethau achos ac am fanylion y dulliau ymchwil gweler Atodiad B. Mae'r atodiad hwn yn darparu crynodebau darluniadol o'r 20 cyngor a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos, wedi'u rhestru yn ôl maint y boblogaeth.

Cyngor Tref y Barri

Tref y Barri, a leolir ar yr arfordir, yw'r dref fwyaf yn ardal Bro Morgannwg. Gyda phoblogaeth o 45,053 ym 1991, mae ganddi hefyd y boblogaeth fwyaf o unrhyw gyngor lleol yng Nghymru. Mae'r cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ac amwynderau safonol, gan gynnwys neuadd goffa'r dref. Mae hefyd yn rheoli mynwent y dref fel asiantaeth i Gyngor Bro Morgannwg. Yr archebiant o £509,285 yw'r trydydd mwyaf yng Nghymru. Mae gan y cyngor 22 o aelodau etholedig o wyth ward, y cafwyd etholiadau a ymladdwyd ym mhob un ohonynt ym 1999. Rhedir y cyngor ar ffurf pleidiau, ac mae pymtheg o gynghorwyr Llafur, tri chynghorydd Ceidwadol, tri chynghorydd Plaid Cymru ac un cynghorydd Annibynnol. Mae pump o'r cynghorwyr hefyd yn aelodau o'r cyngor sir ac mae'r cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn fforwm cynghorau lleol gyda'r prif awdurdod, ond ystyrir bod y berthynas â Chyngor Bro Morgannwg yn wael.

Cyngor Cymuned Cwmbrân

Mae Cyngor Cymuned Cwmbrân yn gyngor 'cyfunedig' yn cynnwys pum cymuned sy'n ffurfio tref newydd Cwmbrân yn Nhor-faen. Roedd gan y dref boblogaeth o 36,026 ym 1991, yr ail fwyaf o unrhyw gyngor lleol yng Nghymru. Ei archebiant o £342,900 yw'r seithfed archebiant mwyaf yng Nghymru. Yn 2001-2 gwariodd y cyngor £45,000 o dan adran 137, y rhoddwyd £25,000 o'r cyfanswm hwnnw yn grantiau i 32 o sefydliadau lleol. Dim ond ystod sylfaenol o swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y cyngor, ond datblygodd dri gwasanaeth arloesol sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am £130,000 o'i wariant blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys tasglu cymunedol, darparu gwasanaethau i'r henoed; canolfan galw heibio ar gyfer pobl ifanc; a chynllun chwarae haf sy'n cyflogi 70 o weithwyr tymhorol. Derbyniodd cynlluniau amgylcheddol y cyngor Brif Wobr ar gyfer Awdurdodau Lleol fel rhan o Wobrau Penblwydd y Fam Frenhines ym 1997. Mae'r cyngor hefyd yn cefnogi nifer o wyliau, cyngherddau a chystadlaethau cymunedol. Mae'n cymryd rhan mewn saith prosiect partneriaeth gyda sefydliadau, asiantaethau ac ysgolion lleol, ac yn gweithio gyda chynghorau cymuned cyfagos hefyd. Mae'r cyngor yn gweithredu trwy chwe phwyllgor sefydlog, ac mae ganddo 20 aelod, sydd wedi'u hethol o 13 o wardiau. Ym 1999 dim ond mewn 5 ward yr oedd angen cynnal etholiadau wedi'u hymladd, ac enwebwyd yr union nifer o ymgeiswyr i lenwi'r lleoedd a oedd ar gael yn y wardiau eraill.

Cyngor Tref Llandudno

Tref wyliau, ar arfordir Gogledd Cymru, yw Llandudno. Lleolir y dref, sydd â rhyw 20,000 o drigolion, o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cyngor tref Llandudno yw'r mwyaf yng Nghymru o ran nifer y cynghorwyr, ac etholir ei 30 o aelodau o bum ward, y cafwyd etholiadau wedi'u hymladd ym mhob un ohonynt ym 1999. Y cyngor hwn hefyd sydd â'r nifer fwyaf o bwyllgorau o unrhyw gyngor lleol yng Nghymru, gyda 18 o is-bwyllgorau ac 1 gweithgor. Mae'r cyngor llawn yn cyfarfod yn siambr yr hen gyngor bwrdeistref yn Neuadd y Dref, lle y mae gan y cyngor ei swyddfeydd hefyd, ond mae nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd yn isel. Yr archebiant o £244,000 yw'r unfed ar ddeg mwyaf yng Nghymru. Mae'r cyngor yn weithgar ar draws ystod o weithgareddau, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â diwydiant twristiaeth y dref, ond yr unig wasanaeth dirprwyedig a ddarperir ganddo yw cynnal a chadw llwybrau troed, gwasanaeth y mae'n derbyn taliad blynyddol gan y prif gyngor i'w ddarparu. Gwariodd y cyngor £44,000 yn 2001-02 ar gynorthwyo dros 50 o sefydliadau lleol, a £72,000 ar wariant cyfalaf uniongyrchol ar offer chwarae a goleuadau addurnol. Gweinyddir y cyngor gan glerc llawn amser a chlerc cynorthwyol. Nid oedd y clerc, a oedd wedi bod yn y swydd ers 1994, wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant ffurfiol, a disgwylid y byddai'n gadael y cyngor cyn hir.

Cyngor Cymuned Penarlâg

Mae Penarlâg yn gymuned o ryw 12,000 o drigolion yn cynnwys pentrefi Penarlâg, Ewlo a Mancot, ac anheddiad maestrefol Aston, rhwng Bwcle a Chei Connah yn Sir y Fflint. Cyn yr adolygiad cymunedau ym 1985, roedd hen blwyf Penarlâg hefyd wedi cynnwys yr ardaloedd a gwmpesir bellach gan Gyngor Tref Shotton a Chyngor Cymuned Brychdwn a Bretton. Yn dilyn yr adolygiad penderfynodd y tri chyngor barhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau megis goleuadau stryd, meysydd chwarae a chynnal a chadw adeiladau, yn ogystal â gwasanaeth gweinyddol wedi'i rannu. Mae Penarlâg yn codi archebiant o £164,969. Yn ogystal â gwariant ar wasanaethau a chyfleusterau, cynorthwyodd 14 o sefydliadau lleol yn 2001-02. Mae gan y cyngor 17 o aelodau, wedi'u hethol o bedwar ward, y cafwyd etholiadau wedi'u hymladd ym mhob un ohonynt ond un ym 1999. O'r 17 o gynghorwyr, roedd 12 yn aelodau o'r cyngor cyn 1999, ac mae 5 hefyd yn aelodau o'r cyngor sir. Mae gan y blaid Lafur 11 o gynghorwyr, ac mae chwech yn eistedd fel cynghorwyr annibynnol.

Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau

Mae Nant-y-glo a'r Blaenau yn gyn-gymunedau diwydiannol yng Nghwm Ebwy Fach uwchlaw Abertyleri. Mae'r gyn-ardal drefol wedi gweld diboblogi o ganlyniad i'r dirywiad diwydiannol ac roedd ganddi boblogaeth o 9,302 ym 1991. Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau lleol gan gynnwys y siambr

fasnach a'r eglwysi. Mae ei brosiectau yn cynnwys darparu goleuadau Nadolig mewn partneriaeth â'r siambr fasnach, a datblygu Canolfan Treftadaeth Mudiad y Siartwyr mewn partneriaeth â grŵp gweithredu treftadaeth. Ymgymerodd y cyngor ag arolwg a chynllun gweithredu cymunedol gyda Phrifysgol Caerdydd, a chynhaliodd gyfarfod cyhoeddus yn 2001-02 yn ymwneud â chau gorsaf yr heddlu a fynychwyd gan 250 o drigolion. Hoffai'r cyngor chwarae rôl ehangach mewn gweithgarwch adfywio economaidd, ond fe'u rhwystrir gan ddiffyg adnoddau a phwerau cyfyngedig. Mae amddifadedd cymharol y gymuned yn cyfyngu ar ei gapasiti i godi refeniw a gosododd archebiant o £30,600 yn 2002. Yn 2001-02 gwariodd £1,031 o dan adran 137, gan gynnwys cynorthwyo 17 o sefydliadau lleol. Mae gan y cyngor berthynas wael â'r bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol ac â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, er gwaethaf y ffaith ei fod yn cymryd rhan mewn fforwm cynghorau lleol gyda'r prif awdurdod. Mae gan y cyngor 16 o aelodau, wedi'u hethol o ddwy ward. Mae pob un o'r 16 yn gynghorwyr Llafur, ac etholwyd pob un ohonynt heb gystadleuaeth ym 1999 (ni fu unrhyw seddi gwag). Mae'r clerc, sydd yn y swydd ers 1994, wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw.

Cyngor Cymuned Offa

Mae Offa yn un o bedwar cyngor cymuned a grëwyd yn Wrecsam gan yr adolygiad cymunedau ym 1985. Mae'r cyngor yn cynnwys canol y dref a'r maestrefi de-ddwyreiniol, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o ychydig o dan 10,000. Mae'r cyngor yn ystyried ei fod yn un o'r cynghorau cymuned mwyaf arloesol a mwyaf gweithgar yng Nghymru. Er nad yw'n ymwneud â rhai o swyddogaethau mwy traddodiadol cynghorau lleol, megis goleuadau stryd, mae'n darparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned, gan gynnwys canolfan adnoddau gymunedol a gwasanaeth ieuenctid. Mae ei gyflogeion yn cynnwys gweithwyr cymdogaeth, gweithiwr datblygu adnoddau cymunedol a Swyddog Ieuenctid ac Adloniant Allgyrch, yn ogystal â swyddi mwy confensiynol megis y clerc. Mae'r clerc, a benodwyd ym 1998, wedi cymryd rhan mewn un o gyrsiau sefydlu Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Mae'r cyngor yn codi archebiant o £132,000; mae ei wariant yn cynnwys dros £12,000 ar brosiectau ieuenctid allgyrch a £4,500 mewn grantiau i sefydliadau lleol. Gwariodd gyfanswm o £23,442 o dan Adran 137 yn 2001-02. Mae Cyngor Cymuned Offa yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar brosiectau amgylcheddol a Chymdeithas Tai Wales and West ar ddarparu canolfan adnoddau, ac ym Mhartneriaeth Gofal Plant Wrecsam. Mae'r cyngor yn llunio cylchlythyr rheolaidd a chynhaliodd arolwg troseddu yn 2001-02. Gall hyd at 100 o drigolion lleol fynychu cyfarfodydd misol y cyngor, a gynhelir mewn un o'r canolfannau cymunedol. Mae gan y Ym 1999, dim ond mewn un ward yr oedd angen etholiad wedi'i ymladd – yn y tri arall enwebwyd yr union nifer o ymgeiswyr i lenwi'r lleoedd a oedd ar gael.

Cyngor Tref Llandrindod

Mae Llandrindod yn dref farchnad a ffynhonnau yng nghanolbarth Cymru. Llandrindod oedd tref sirol Sir Faesyfed gynt a lleolir pencadlys Cyngor Sir Powys yma o hyd. Roedd ganddi boblogaeth o 4,898 ym 1991. Dim ond â nifer fach o wasanaethau a chyfleusterau yn unig y mae cyngor y dref yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy, ond mae'n cynorthwyo amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol trwy gymorth grant a thrwy weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill. Mae'n cyfrannu at gyflog cydlynydd tref trwy bartneriaeth gydag ymddiriedolaeth y dref a'r cyngor sir, ac mae'n darparu cymhorthdal ar gyfer criwr tref, cylchlythyr i'r dref, cynllun chwarae haf a'r gymdeithas efeillio. Yn 2002 pennodd archebiant o £54,022 (yn is na'r flwyddyn gynt), ac yn 2001-2 gwariodd dros £9,000 o dan adran 137. Ymhlith y gweithgareddau a gynorthwyir ganddo mae amgueddfa cabanau signalau rheilffordd, goleuadau Nadolig, basgedi blodau, g_yl Fictoraidd a chynllun cardiau tacsi. Mae gan y cyngor 15 o aelodau a etholir o bum ward, nad oedd angen etholiadau wedi'u hymladd yn yr un ohonynt ym 1999. Mewn dwy ward, enwebwyd yr union nifer o ymgeiswyr i lenwi'r holl leoedd a oedd ar gael, tra na chafwyd digon o ymgeiswyr yn y tair ward arall.

Cyngor Tref Llangefni

Llangefni yw'r dref fwyaf ar Ynys Môn ac roedd ganddi boblogaeth o 4,602 ym 1991, gyda 85% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Pennodd y cyngor archebiant o £60,538 yn 2002; cynhwysodd ei wariant yn 2001-02 wariant ar offer i'w defnyddio gan y Biwrô Gwirfoddolwyr, anrhegion i'w rhoi gan gôr lleol tra'n ymweld â'r cyfandir, a thir i'w ddefnyddio gan y clwb pêl-droed, yn ogystal â rhoddion i wyth sefydliad ac elusen leol a chenedlaethol. Mae gan y cyngor sydd â phymtheg o aelodau ddau bwyllgor sefydlog, ar gyfer cyllid ac ar gyfer mynwentydd a lleoedd chwarae. Ym 1999 nid enwebwyd digon o ymgeiswyr i lenwi pob sedd yn yr un o'r tair ward. Nid etholwyd unrhyw gynghorydd a oedd yn gysylltiedig â phlaid. Cynhaliodd y cyngor ddau gyfarfod cyhoeddus mewn blynyddoedd diweddar, yn ymwneud â digwyddiadau ar gyfer y Mileniwm a'r Jiwbilî Aur, a mynychwyd y naill gan 18 o bobl a'r llall gan 15 o bobl.

Cyngor Tref Aberteifi

Mae Aberteifi yn dref farchnad sefydledig yn ne Ceredigion. Ym 1991 roedd ganddi boblogaeth o 4,281, gyda 64% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae'n gweithredu fel y brif ganolfan fasnachol a manwerthol ar gyfer yr ardal oddi amgylch; mae economi'r dref wedi dioddef o ganlyniad i gyflogwr lleol mawr yn cau yn ddiweddar ac i RAE Aberporth gael ei ddwyn i ben. Bu cyngor y dref a sefydliadau lleol eraill wrthi'n chwilio am ffyrdd i hyrwyddo gweithgarwch adfywio lleol ac fe'u cynorthwywyd yn hyn o beth gan eu cyfranogiad ym Menter y Trefi Marchnad a Menter Aberteifi. Mae gan Aberteifi bymtheg o gynghorwyr yn cynrychioli pum ward yn cynnwys y dref a rhan o bentref cyfagos Llandudoch. Nid anfonodd unrhyw ymateb i'r arolwg holiadur ac o ganlyniad fe'i dewiswyd i'w gynnwys ymhlith yr astudiaethau achos a gynhaliwyd trwy gyfweliad ffôn gyda'r Clerc.

Cyngor Tref Llanidloes

Mae Llanidloes yn dref farchnad fach, â phoblogaeth o ryw 2,600, ym mlaen dyffryn Hafren ym Mhowys. Mae'r cyngor yn ymwneud ag amrywiaeth o swyddogaethau sy'n fwy na'r cyffredin ar gyfer tref o'i maint, gan gynnwys rheoli mynwent y dref mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Llanidloes Allanol. Mae hefyd yn rheoli sawl eiddo arall a etifeddwyd gan yr hen gyngor bwrdeistref a ddiddymwyd ym 1974, gan gynnwys neuadd y dref, y maes chwarae, parc glan yr afon a choetir Allt Goch. Pennodd y cyngor archebiant o £48,482 yn 2002. Yn 2001-02 gwariodd £4,087 o dan adran 137, gan gynnwys rhoddion i wyth sefydliad lleol a chenedlaethol; a £1,476 ar wariant cyfalaf uniongyrchol ar y ganolfan gymunedol a'r parciau. Yn 2000, sefydlodd Dasglu, sy'n cynnwys yr AS lleol ac Aelodau lleol y Cynulliad, undebau llafur a chynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru, a lobïodd yn llwyddiannus yn erbyn cau prif gyflogwr y dref, ac yn fwy diweddar bu'n ymgyrchu ynghylch materion cyflogaeth a datblygu economaidd eraill. Mae'r cyngor yn cymryd y rhan a gymerir ganddo yn y cyfryw faterion o ddifrif. Trefnodd gyfarfodydd cyhoeddus yn y gorffennol a ddenodd gynulleidfaoedd da yn ymwneud â bygythiadau i gau'r swyddfa bost a'r ysbyty. Ar ben hynny roedd y cyngor yn bartner allweddol ym Menter Trefi Marchnad Cyswllt Llanidloes rhwng 1997 a 2000, a chyfrannodd le swyddfa ac adnoddau gweinyddol. Etholir y pedwar cynghorydd ar ddeg o dair ward. Ym 1999, etholwyd yr union nifer o ymgeiswyr mewn dwy ward i lenwi pob un o'r seddi, tra yn y drydedd ward cafwyd un sedd wag.

Cyngor Tref Llanymddyfri

Mae Llanymddyfri yn dref farchnad fach â phoblogaeth o 2,167 yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r cyngor yn codi archebiant o £30,000 ac yn cyflwyno ystod nodweddiadol o wasanaethau ac amwynderau ar gyfer cyngor tref fach, gan gynnwys goleuadau Nadolig. Datblygodd Ganolfan Treftadaeth hefyd, gyda rhywfaint o gymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru, sy'n dal y rhyddfraint arni. Gosodir rhan o'r adeilad i'r Parc Cenedlaethol fel canolfan gwybodaeth. Ar ben hynny cynorthwyodd y cyngor 17 o sefydliadau lleol yn 2001-02 a gwariodd £11,119 mewn gwariant cyfalaf uniongyrchol ar gyfarpar newydd ar gyfer lle chwarae i blant. Mae gan y cyngor naw pwyllgor sefydlog, gan gynnwys pwyllgor seddau cyhoeddus a phwyllgor cysylltu â'r heddlu, a dau weithgor. Etholir ei bedwar cynghorydd ar ddeg o dair ward, ond ym 1999 dim ond wyth ymgeisydd a enwebwyd ar gyfer yr etholiadau. Ym mis Gorffennaf 2002 roedd tair sedd wag ar y cyngor. Mae'r cyngor yn cyfarfod bob mis yn Neuadd y Dref. Fel arfer, ni fydd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol, ond mynychodd 100 o bobl gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y cyngor yn 2001-02 yn ymwneud ag atal llifogydd.

Cyngor Dinas Tyddewi

Rhoddwyd statws dinas i dref gadeiriol hanesyddol Tyddewi yn Sir Benfro ym 1996 ac mae'n un o ddim ond dau gyngor lleol yng Nghymru i ddefnyddio'r dull enwi 'cyngor dinas'. Wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, mae Tyddewi yn gyrchfan ymwelwyr boblogaidd. Roedd ganddi boblogaeth o 2,121 ym 1991, ac roedd dwy ran o bump o'r boblogaeth honno yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r cyngor yn un o ddim ond pedwar na phennwyd unrhyw archebiant ganddynt yn 2002, gan dderbyn ei incwm o ddiwydiant twristiaeth y dref, yn arbennig o refeniw o feysydd parcio. Gwariodd y cyngor £4,518 o dan adran 137 yn 2001-02, gan gynnwys grantiau i 25 o sefydliadau lleol. Gwariodd hefyd £13,000 mewn gwariant cyfalaf uniongyrchol ar ddatblygu neuadd y ddinas ac ar blaciau enwau strydoedd. Etholwyd y tri chynghorydd ar ddeg mewn pleidlais wedi'i hymladd ym 1999, ond nid yw'r un ohonynt yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol. Ymhlith yr eitemau cyffredin a drafodwyd yng nghyfarfodydd y cyngor y llynedd roedd ymddygiad gwrth-gymdeithasol, parc sglefrio, siop gymunedol a gwefan ar gyfer y cyngor. Cynhaliodd y cyngor ddau gyfarfod cyhoeddus ar efeillio â thref yn Ffrainc a phentref yn Affrica, a fynychwyd gan 20 a 12 o bobl yn y drefn honno. Mae hefyd yn cynnal cyfarfod cymunedol blynyddol yn ychwanegol at gyfarfod blynyddol y cyngor, ond ychydig o aelodau o'r cyhoedd sy'n ei fynychu. Yn ystod 2001-02 cynhaliodd y cyngor ddau arolwg, yn trafod pa mor ymarferol fyddai cynigion ar gyfer parc sglefrio a bws cymunedol.

Cyngor Tref y Bala

Mae tref fach y Bala ym Meirionnydd yn gyrchfan ymwelwyr ac yn ganolfan gwasanaeth ar gyfer ardal wledig a mynyddig fawr sy'n denau ei phoblogaeth. Roedd gan y dref boblogaeth o 1,875 ym 1991, gyda 83% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r dref ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac ardal Cyngor Sir Gwynedd. Pennodd y dref archebiant o £10,500 yn 2002 ac mae'n cyflawni ystod nodweddiadol o swyddogaethau ar gyfer tref o'i maint, gan gynnwys cynorthwyo 13 o sefydliadau lleol yn 2001-02. Mae'r cyngor yn bartner ym mhartneriaeth datblygu economaidd Antur Penllyn ac roedd ynghlwm â chynnal Treialon C_n Defaid y Byd 2002 mewn partneriaeth â grwpiau lleol eraill. Enwebwyd deuddeg ymgeisydd ar gyfer y deuddeg sedd ar y cyngor ym 1999, ac roedd pob un wedi bod yn aelodau o'r cyngor blaenorol. Mae tri chynghorydd yn gysylltiedig â Phlaid Cymru tra bod y gweddill yn anwleidyddol. Etholir cadeirydd y cyngor bob dwy flynedd ac mae'r clerc yn y swydd ers 1995. Fel arfer ni fynychir cyfarfodydd y cyngor gan unrhyw aelodau o'r cyhoedd, ond mynychodd pump ar hugain o bobl gyfarfod cyhoeddus a alwyd gan y cyngor yn 2001-02 i drafod cysylltiadau â phobl ifanc y dref.

Cyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waen

Mae'r cyngor yn un o ddim ond wyth cyngor 'cyfunedig' yng Nghymru, ac mae'n cynnwys cymunedau gwledig cyfagos Tremeirchion, Cwm a'r Waen i'r dwyrain o Lanelwy yn Sir Ddinbych. Ffurfiwyd y grŵp adeg yr adolygiad cymunedau yn yr 1980au ac fe'i defnyddiwyd yn lle cyfuno'r tair cymuned fel yr oedd wedi digwydd mewn mannau eraill. Waen yw'r lleiaf o'r tair, â phoblogaeth o 231 ym 1991, wedi'i dilyn gan Gwm (300) a Thremeirchion (623). Gyda phoblogaeth gyfunedig o 1,154 ym 1991, mae'r cyngor cyfunedig yn dal i fod islaw maint cymedrig y cynghorau yng Nghymru. Mae gan y cyngor 14 o aelodau, wedi'u hethol o bob un o'r cymunedau cyfansoddol yn annibynnol. Dim ond yng Nghwm yr enwebwyd digon o ymgeiswyr i lenwi pob lle yn ystod etholiadau 1999, a llenwyd y pedair sedd wag trwy gyfethol aelodau. Mae'r cyngor yn pennu'r archebiant o £3,000 ac yn cyflawni ystod sylfaenol o swyddogaethau. Gwariodd £160 yn 2001-02 ar gynorthwyo naw sefydliad lleol a'r unig gyfalaf a wariwyd ganddo oedd ar ddrych ar gyfer cyffordd. Mae'r cyngor yn ymwneud â phartneriaeth 'Prosiectau Cefn Gwlad' gyda Chyngor Sir Ddinbych ac ymgymerodd hefyd ag ymarfer Cynllunio Go Iawn. Yn ystod 2001-02, trefnodd un cyfarfod cyhoeddus, ar ddatblygu safle'r ysgol, a fynychwyd gan 100 o bobl. Fel arfer ni fydd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y cyngor, a gynhelir yn yr ysgol. Clerc rhan amser yw unig gyflogai'r cyngor, a phenodwyd y clerc presennol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cyngor Cymuned Llandeilo Gresynni a Chyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel

Mae Llandeilo Gresynni a Llangatwg Feibion Afel yn gymunedau gwledig cyfagos i'r gogledd-orllewin o Sir Fynwy, ar hyd y ffin â Lloegr. Mae'r ddwy gymuned yn cynnwys pentrefi a phentrefannau bach. Roedd gan Landeilo Gresynni boblogaeth o 639 ym 1991, ac roedd gan Langatwg Feibion Afel boblogaeth o 873. Gwasanaethir y ddau gyngor gan yr un clerc, a benodwyd gan Langatwg ym 1995 a chan Landeilo ym 1996, ond fel arall maent yn gweithredu'n annibynnol. Mae'r cynghorau yn cyflawni lefel sylfaenol o swyddogaethau, er bod gan Landeilo Gresynni weithgor i gyhoeddi Llyfr Mileniwm. Yn 2002, pennodd Llangatwg archebiant o £4,000 a phennodd Llandeilo archebiant o £3,600. Gwariwyd £376 gan y naill a £425 gan y llall o dan adran 137. Yr unig gyfalaf a wariwyd gan y ddau gyngor yn 2001-02 oedd ar brynu hysbysfyrddau. Mae Llangatwg Feibion Afel yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CADW i adfer cored afon, tra bod Llandeilo Gresynni yn gweithio mewn partneriaeth atal troseddu. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus gan y ddau gyngor yn 2001-02: gan Langatwg i drafod datblygiad preifat mawr, a fynychwyd gan 60 o bobl, a chan Landeilo i drafod adnewyddu'r cyflenwad d_r, a fynychwyd gan 40 o bobl. Mae tua 3 o bobl yn mynychu cyfarfodydd pob un o'r cynghorau fel arfer. Mae gan Langatwg 10 cynghorydd, wedi'u hethol o dair ward; ac mae gan Landeilo 9 cynghorydd wedi'u hethol o dair ward. Enwebwyd yr union nifer o ymgeiswyr ar gyfer y ddau gyngor ym 1999 i lenwi pob un o'r lleoedd a oedd ar gael.

Cyngor Cymuned Trawsfynydd

Mae Cyngor Cymuned Trawsfynydd yn gwasanaethu cymuned eang ei thiriogaeth yng nghanol Meirionnydd. Roedd ganddi boblogaeth o 985 ym 1991, gyda 69% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae deuddeg aelod yn gwasanaethu ar y cyngor a bennodd archebiant o £5000 yn 2002. Wrth i'r gwaith o ddadgomisiynu'r orsaf ynni niwclear fynd rhagddo bu'r cyngor cymuned yn gweithio gyda sefydliadau lleol eraill i ddod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo adfywio'r ardal leol, i ddechrau trwy gynnal Arfarniad Cymunedol ym 1996 ac ar ôl hynny trwy gymryd rhan yng Nghwmni Cymuned Trawsfynydd. Datblygwyd strategaeth amgylcheddol a sicrhawyd cyllid trwy'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a ffynonellau eraill. Darparodd y clerc amlinelliad manwl o waith y Cyngor Cymuned yn ystod yr astudiaeth achos trwy gyfweliad ffôn.



FFIGUR 3.1
CYMUNEDAU HEB GYNGOR
CYMYNED NA CHYNGOR TREF

Cyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws

Mae Tre-lech yn gymuned wledig â phoblogaeth o 731 (cyfrifiad 1991) yng ngogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin. Mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Roedd y cyngor yn un o ddim ond pedwar yng Nghymru na phennwyd unrhyw archebiant ganddynt yn 2002. Yn hytrach, daw incwm y cyngor o dir sy'n eiddo iddo yn y pentref. Mae busnes y cyngor yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r tir a dosbarthu refeniw a godir i gymdeithasau lleol. Cedwir gweithgareddau eraill i'r lleiafswm statudol. Etholir y cyngor yn ei gyfanrwydd, ac etholwyd y deg cynghorydd ym 1999 mewn pleidlais wedi'i hymladd, ond a oedd yn amhleidiol.

Cyngor Cymuned Treamlod a Chyngor Cymuned Spittal

Mae Treamlod a Spittal yn gymunedau gwledig cyfagos yn Sir Benfro, tua phum milltir i'r gogledd o Hwlffordd. Yng nghyfrifiad 1991, roedd gan Dreamlod boblogaeth o 300 ac roedd gan Spittal boblogaeth o 424. Pennodd Cyngor Cymuned Treamlod archebiant o £1,600 yn 2002 ac mae'n cyflawni ystod sylfaenol o swyddogaethau, gan gynnwys cynnal a chadw pwll melin. Yn 2001-02 rhoddodd symiau bach o arian i chwe sefydliad lleol. Etholwyd y saith cynghorydd yn ddiwrthwynebiad ym 1999 ac roedd un sedd wag. Mynychir cyfarfodydd y cyngor fel arfer gan un neu ddau aelod o'r cyhoedd, ond trefnodd y cyngor bedwar cyfarfod cyhoeddus mewn blynyddoedd diweddar: dau ynghylch traffig yn gyrru'n rhy gyflym (a fynychwyd gan 20 o bobl), un ynghylch y Mileniwm (20) ac un ynghylch y Jiwbilî (9). Mae'r clerc rhan amser yn y swydd ers 1986. Pennodd Cyngor Cymuned Spittal archebiant o £1,600 hefyd yn 2002 a gwariodd £310 o dan adran 137 yn 2001-02, gan gynnwys rhoddion i'r clwb criced lleol a'r clwb henoed lleol. Mynychodd tua 80 o bobl gyfarfod cyhoeddus yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol yn 2001-02 ac roedd nifer debyg o aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfod blynyddol 2001. Enwebwyd saith ymgeisydd ar gyfer y saith sedd ar y cyngor ym 1999.

Atodiad D: Nifer y Bobl a Fynychodd Seminarau Cyhoeddus

Manylion yr unigolion a'r sefydliadau a gofrestrodd eu presenoldeb:

	Caerfyrddin	Pontypridd	Bodelwyddan	Llandrindod	Cyfanswm
Cynghorau cymuned a thref	26	22	42	29	119
Cynghorwyr	56	36	65	45	202
Clercod	4	7	14	6	31
Sefydliadau eraill	8	5	8	2	23
Aelodau o'r cyhoedd	15	12	6	7	40

DS: Cynrychiolai rhai unigolion fwy nag un cyngor neu sefydliad. Ni chofrestrodd nifer o gyfranogwyr ym mhob cyfarfod ac nis cynhwysir yn y ffigurau hyn. Amcangyfrifodd cyfrif pennau ym mhob seminar fod cyfanswm o 80 o bobl yn bresennol yng Nghaerfyrddin, 55 ym Mhontypridd, 100 ym Modelwyddan a 70 yn Llandrindod.

Cynghorau cymuned a thref a gofrestrodd eu presenoldeb

Caerfyrddin

Cyngor Cymuned Beulah
Cyngor Cymuned Bronwydd
Cyngor Cymuned Castell Gwalchmai
Cyngor Tref Cydweli
Cyngor Cymuned Hundleton
Cyngor Tref Hwlffordd
Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr
Cyngor Cymuned Llanddowror
Cyngor Cymuned Llandybïe
Cyngor Tref Llanelli
Cyngor Cymuned Llangynnwr
Cyngor Cymuned Llanismel
Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf
Cyngor Cymuned Llansteffan
Cyngor Tref Llanymddyfri
Cyngor Cymuned y Mwmbwls
Cyngor Tref Penfro
Cyngor Cymuned Pengelli-ddrain
Cyngor Cymuned Pontarddulais
Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Cyngor Cymuned Pontyberem
Cyngor Tref San Clêr
Cyngor Cymuned Trefgordd Talacharn
Cyngor Cymuned Tre-gŵyr
Cyngor Cymuned Tre Ioan
Cyngor Tref Ystradgynlais

Pontypridd

Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd
Cyngor Cymuned Bracla
Cyngor Tref y Bont-faen
Cyngor Cymuned Canol Llangynwyd
Cyngor Cymuned Cwm Garw
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr
Cyngor Cymunedol Llantrisant
Cyngor Tref Maesteg
Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau
Cyngor Tref Pen-y-Bont ar Ogwr
Cyngor Cymuned Pîl

Cyngor Cymuned Gelligaer
Cyngor Cymuned Llanddunwyd
Cyngor Cymuned Llys-faen
Cyngor Cymuned Llangwm
Cyngor Cymuned Llanmaes
Cyngor Cymuned Radur
Cyngor Cymuned Sain Tathan
Cyngor Cymuned Saint-y-Brid
Cyngor Cymuned Trelales
Cyngor Cymuned Unedig Trelech

Bodelwyddan

Cyngor Tref Abergele
Cyngor Cymuned Argoed
Cyngor Tref Bae Colwyn
Cyngor Cymuned Bagillt
Cyngor Cymuned Bethesda
Cyngor Tref Bodelwyddan
Cyngor Cymuned Bodfari
Cyngor Cymuned Bro Garmon
Cyngor Tref Caergybi
Cyngor Tref Caernarfon
Cyngor Tref Caerwys
Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog
Cyngor Cymuned Chwitffordd
Cyngor Cymuned Cilcain
Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Dinbych
Cyngor Cymuned Dolwyddelan
Cyngor Cymuned Dyserth
Cyngor Tref y Fflint
Cyngor Cymuned Gresffordd
Cyngor Cymuned Gwernymynydd
Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Cymuned Llandyrnog
Cyngor Tref Llanelwy
Cyngor Cymuned Llanfairfechan
Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Llangollen
CC Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch
Cyngor Cymuned Llansannan
Cyngor Cymuned Llysfaen
Cyngor Cymuned Mostyn
Cyngor Cymuned Offa
Cyngor Cymuned Panarlâg
Cyngor Cymuned Parc Caia
Cyngor Tref Prestatyn
Cyngor Tref Rhuthun
Cyngor Tref Treffynnon
CC Tremeirchion, Cwm a'r Waen
Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref y Waun
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Cymuned Ysceifiog

Llandrindod

Cyngor Cymuned Aberedw
Cyngor Cymuned Bro Grwyne
Cyngor Cymuned Caersws
Cyngor Cymuned Carno
Cyngor Tref Cas-gwent
Cyngor Cymuned Cleirwy
Cyngor Tref Crucywel
Cyngor Tref Cwmbrân
Cyngor Tref y Dre Newydd a Llanllwchaearn
Cyngor Cymuned Dyserth a Threcoed
Cyngor Cymuned Felinfach
Cyngor Cymuned Llanbadarn Fynydd
Cyngor Tref Llandrindod
Cyngor Cymuned Llandysilio
Cyngor Cymuned Llanddewi yn Hwytyn
Cyngor Cymuned Llan-dduw
Cyngor Cymuned Llangammarch
Cyngor Cymuned Llangatwg
Cyngor Cymuned Llangynllo
Cyngor Cymuned Llangynyw
Cyngor Cymuned Llanwrthwl
Cyngor Cymuned Meifod
Cyngor Cymuned Nantmel
Cyngor Cymuned Pencraig
Cyngor Cymuned Pont-y-p_l
Cyngor Tref Rhaeadr Gwy
Cyngor Tref Talgarth
Cyngor Tref Trefyclo
Cyngor Cymuned yr Ystog

Sefydliadau eraill a gofrestrodd eu presenoldeb

Caerfyrddin

Cymdeithas Cymuned Llanfair ar y Bryn
Cymdeithas Cynghorau Lleol Sir Penfro
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Penfro
Fforwm y Teulu
Heddlu Dyfed Powys
Sefydliad y Merched Sir Benfro

Pontypridd

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol Cymru
Cymdeithas y Cerddwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Heddlu De Cymru
Siambr Fasnach Treharris

Bodelwyddan

Cymdeithas Cynghorau Lleol Conwy
Cymdeithas Cynghorau Lleol ir Ddinbych
Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru
Cym. Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Llwybrau Cymunedol
Merched y Wawr
Tîm Partneriaeth Ardal Sir Ddinbych

Llandrindod

Cyngor Sir Powys
Cymdeithas Cynghorau Cymuned a Thref Cymru

Atodiad E: Cyflwyniadau Ysgrifenedig

Derbyniwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan y cynghorau a'r sefydliadau canlynol:

Cynghorau Cymuned a Thref
Cyngor Tref Aberdaugleddau (Sir Benfro)
Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd (Blaenau Gwent)
Cyngor Tref Bae Colwyn (Conwy)
Cyngor Cymuned Bagillt (Sir y Fflint)
Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan (Bro Morgannwg)
Cyngor Tref Bwcle (Sir y Fflint)
Cyngor Tref Caergybi (Ynys Môn)
Cyngor Tref Casllwchwr (Abertawe)
Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn (Sir Gaerfyrddin)
Cyngor Cymuned Cefn Cribwr (Pen-y-Bont ar Ogwr)
Cyngor Cymuned Cleirwy (Powys)
Cyngor Cymuned Clydau (Sir Benfro)
Cyngor Cymuned Coed-llai (Sir y Fflint)
Cyngor Tref Conwy (Conwy)
Cyngor Cymuned Chwitffordd (Sir y Fflint)
Cyngor Cymuned De Maelor (Wrecsam)
Cyngor Tref y Fflint (Sir y Fflint)
Cyngor Cymuned Gelligaer (Caerffili)
Cyngor Cymuned Graig (Casnewydd)
Cyngor Cymuned yr Hob (Sir y Fflint)
Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl (Sir Ddinbych)
Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro (Bro Morgannwg)
Cyngor Cymuned Llandeilo Gresynni (Sir Fynwy)
Cyngor Cymuned Llandysilio (Powys)
Cyngor Cymuned Llanddunwyd (Bro Morgannwg)
Cyngor Gwledig Llanelli (Sir Gaerfyrddin)
Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych (Sir Gaerfyrddin)
Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel (Sir Fynwy)
Cyngor Cymuned Llanharan (Rhondda Cynon Taf)
Cyngor Cymuned Llysfaen (Conwy)
Cyngor Cymuned Merthyr Tewdrig (Sir Fynwy)
Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau (Blaenau Gwent)
Cyngor Cymuned Offa (Wrecsam)
Cyngor Tref Pencoed (Pen-y-bont ar Ogwr)
Cyngor Cymuned Pen-y-fford (Sir y Fflint)
Cyngor Tref Prestatyn (Sir Ddinbych)
Cyngor Tref Rhuthun (Sir Ddinbych)
Cyngor Tref y Rhyl (Sir Ddinbych)
Cyngor Cymuned Rogiet (Sir Fynwy)

Cyngor Cymuned Rudbaxton (Sir Benfro)
Cyngor Cymuned Sain Tathan (Bro Morgannwg)
Cyngor Cymuned Sesswick (Wrecsam)
Cyngor Cymuned Treamlod (Sir Benfro)
Cyngor Tref Treffynnon (Sir y Fflint)
Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel (Conwy)
Cyngor Tref yr Wyddgrug (Sir y Fflint)
Cyngor Cymuned yr Ystog (Powys)

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Cyngor Sir Powys

Grwpiau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, Cyngor Sir y Fflint
Grŵp Plaid Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin
Grŵp Plaid Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cymdeithasau Cynghorau Cymuned
Cymdeithas Cynghorau Lleol Sir Benfro
Cymdeithas Cynghorau Lleol Wrecsam

Sefydliadau Rhanddeiliaid
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys
Cymdeithas Gwasanaethau Manwerthu Pentrefi
Cymorth Cynllunio
Glasu, LEADER +

Ar ben hynny, derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan 131 o gynghorwyr, clercod neu aelodau unigol o'r cyhoedd, nas rhestrir yma am resymau cyfrinachedd.

Atodiad F: Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref

Rhandiroedd	Darparu a chynnal a chadw rhandiroedd ar ddibenion eu hamaethu.
Celfyddydau	*Datblygu a gwella gwybodaeth am y celfyddydau a'r crefftau sy'n gwasanaethu'r celfyddydau*
Baddonau	Darparu baddonau a golchdai (gan gynnwys golchfeydd).
Claddfeydd	*Darparu a chynnal a chadw claddfeydd, mynwentydd, amlosgfeydd, marwdai ac ystafaloedd post-mortem*
Clociau	*Darparu a chynnal a chadw clociau cyhoeddus*
Tir Comin	Pŵer i ddiogelu unrhyw dir comin wedi'i gofrestru'n derfynol nad oedd ganddo unrhyw berchennog cofrestredig.
Atal Troseddu	*Gosod offer a sefydlu cynlluniau i ddarganfod troseddau neu i atal troseddu (ee camerâu CCTV; Cynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth); rhoi grantiau i awdurdod yr heddlu at y dibenion hyn.*
Adloniant	*Darparu unrhyw fath o adloniant cyhoeddus ac unrhyw adeilad at ddibenion darparu adloniant (mae hyn yn cynnwys cynnal bandiau neu gerddorfeydd a darparu ar gyfer dawnsio).*
Neuaddau	*Darparu adeiladau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus, ar gyfer chwaraeon neu ymarfer corff cyhoeddus dan do, neu i'w defnyddio gan glybiau a chymdeithasau sydd ag amcanion adloniadol, cymdeithasol neu athletaidd.*
Achosion Cyfreithiol	Pŵer i ddwyn unrhyw achosion cyfreithiol a'u hamddiffyn er budd y trigolion. Pŵer i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad lleol cyhoeddus
Goleuadau	Darparu a chynnal a chadw unrhyw oleuadau troedffordd sy'n goleuo ffyrdd neu balmentydd ar yr amod nad yw'r colofnau uwchlaw uchderau a nodwyd.
Ysbwriel	*Darparu biniau ysbwriel mewn strydoedd a chefnogi ymgyrchoedd gwrth-ysbwriel*
Mannau Agored	Darparu a chynnal a chadw mannau agored cyhoeddus, parciau difyrrwch a rhodfeydd cyhoeddus.
Parcio	Darparu a rheoli meysydd parcio ceir a beiciau.

Parciau	Darparu a chynnal a chadw parciau cyhoeddus a chyfleusterau priodol.
Cynllunio	Yr hawl i gael eu hysbysu o unrhyw gais cynllunio sy'n ffeithio ar ardal y cyngor cymuned a thref ac i wneud sylwadau y mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio eu cymryd i ystyriaeth.
Meysydd Chwarae	*Darparu a chynnal a chadw tir ar gyfer unrhyw fath o weithgarwch hamdden awyr agored, gan gynnwys pyllau cychod*
Llynnoedd	*Pŵer i ddelio â llynnoedd, pyllau neu fannau eraill sy'n cynnwys budreddi neu sylwedd sy'n niweidiol i'r iechyd*
Poct a Ffôn	Pŵer i warantu'r awdurdodau post neu ffôn rhag colled ar unrhyw gyfleuster.
Toiledau Cyhoeddus	Darparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus
Hawliau Tramwy	Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau
Lleiniau Ymyl Ffordd	Pŵer i blannu a chynnal a chadw lleiniau ymyl ffordd.
Seddau	*Darparu a chynnal a chadw seddau cyhoeddus ar y briffordd.*
Cysgodfeydd	*Darparu a chynnal a chadw cysgodfeydd i'w defnyddio gan y cyhoedd ac yn arbennig ar gyfer teithwyr bysiau.*
Arwyddion	Pŵer i godi arwyddion sy'n rhybuddio'r cyhoedd o beryglon neu sy'n cyhoeddi enw lle, neu sy'n nodi arhosfan bysiau.
Nofio	*Darparu pyllau nofio dan do neu awyr agored.*
Twristiaeth	Darparu cyfleusterau ar gyfer cynhadleddau a hybu twristiaeth at ddibenion hamdden neu fusnes.
Tawelu Traffig	*Cyfrannu tuag at gost gwaith tawelu traffig a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd..*
Trafnidiaeth	*Sefydlu cynlluniau rhannu ceir a theithio rhatach mewn tacsis; rhoi grantiau ar gyfer gwasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau bysiau i'r henoed neu'r anabl; ymchwilio i ddarpariaeth ac anghenion trafnidiaeth gyhoeddus, ffyrdd a thraffig; darparu gwybodaeth am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus*
Maes y Pentref	*Pwerau i gynnal a chadw maes y pentref neu'r dref.*

Pwerau cyfredol cynghorau cymuned a thref
Ffynhonnell: Long 2001, NALC 1997; Italig: gall ariannu cyrff eraill hefyd.

Atodiad G: Swyddogaethau a Chyllid Awdurdodau Lleol Cymaradwy yn Ewrop

Awstria	Strwythur: System o lywodraeth leol dwy haen: 98 o ddosbarthau a 2,358 o gymunedau (gemeinde). Cymunedau yw'r brif haen, dim ond pwerau dirprwyedig sydd gan y dosbarthau. Mae gan gynghorau cymuned rhwng 7 a 100 o aelodau a etholir bob 5 neu 6 blynedd trwy gynrychiolaeth gyfrannol. Fe'u cadeirir gan Faer sy'n atebol i'r cyngor. Swyddogaethau: heddlu, diogelwch y cyhoedd, cyfleustodau cyhoeddus, gofal iechyd, sefydliadau diwylliannol, tai cyhoeddus. Cyllid: Mae cynghorau cymuned yn cyfrif am 11% o wariant cyhoeddus. Mae cynghorau yn derbyn tua 30% o'u cyllid o drethi ffederal, 20% o drethi lleol, 21% o incwm o wasanaethau, 12% o grantiau gan lywodraethau Länder, 11% o fenthyciadau a 6% o ffynonellau eraill. Ffynhonnell: Cymdeithas Bwrdeistrefi Awstria, www.staedte.at, Llyfrgell y Cynulliad Astudiaethau Gwledydd, lcweb2.loc.gov/frd/cs/
Denmarc	Strwythur: 275 o gynghorau cymuned (kommuner) fel rhan o system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 14 o siroedd (amter). Mae gan 135 o gymunedau boblogaeth o lai na 10,000, mae gan y lleiaf boblogaeth o 2,400. Etholir cynghorau bob 4 blynedd. Cyllid: Nawdd cymdeithasol, ysgolion, gofal plant, gofal yr henoed, tai cyhoeddus, llyfrgelloedd, chwaraeon a hamdden, integreiddio mewnfudwyr a ffoaduriaid, diogelu'r amgylchedd, cyflenwi d_r yfed, cynllunio, ymladd tanau, a phŵer cymhwysedd cyffredinol. Cyllid: 58% o'u hincwm o drethi lleol, 23% o wasanaethau, 6% o gymorthdaliadau gan lywodraeth ganolog (gan gynnwys cyfran o TAW). Mae 58% o'u gwariant ar les cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Ffynhonnell: Llywodraeth Leol Denmarc (LGDK) www.kl.dk
Ffrainc	Strwythur: 36,433 o gomiwnau yw'r brif haen o lywodraeth leol. Mae gan 85% o'r comiwnau boblogaeth o lai na 2,000. Mae gan gomiwnau gyngor bwrdeistrefol a Maer a etholir yn uniongyrchol. Swyddogaethau: Cyflenwi dŵr a nwy, gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd lleol, ysgolion meithrin a chynradd, taliadau nawdd cymdeithasol, heddlu lleol, defnydd tir a datblygu tir, caniatâd cynllunio, diogelu'r amgylchedd, gwasanaethau cymdeithasol, hyfforddiant ar gyfer y di-waith, cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, a phŵer cymhwysedd cyffredinol. Gwelir yn fwyfwy bod llawer o wasanaethau yn cael eu cyflwyno gan bartneriaethau (syndicats) o gomiwnau cyfagos.

	Cyllid: Ariennir gwariant cyfredol cymunedau gan grant bloc gan lywodraeth ganolog a threthi lleol, gan gynnwys tir, proffesiwn, cartref. Ariennir gwariant cyfalaf gan dreth ar waith adeiladu ac ailadeiladu, ad-daliadau TAW, grants gan haenau eraill o lywodraeth.
	Ffynonellau: Griffiths a Lawton (1992); Howes (1998); Michel (1998); INSEE (1998) Les campagnes et leurs villes.
Gwlad Belg	Strwythur: mae 589 o gomiwnau yn ffurfio'r brif haen o lywodraeth leol o dan 10 talaith.
	Swyddogaethau: Disgresiwn mewn materion lleol o dan oruchwyliaeth awdurdodau uwch i gadw'r gyfraith ac o ddiddordeb cyffredinol.
	Cyllid: Cymorthdaliadau llywodraeth ganolog; ei ffynonellau ei hun trwy godi ardoll ar eiddo, trethi ffyrdd, incwm personol, cyflogres
	Ffynhonnell: Griffiths, M P & Lawton, A. (1992) Community Councils in Wales
Iwerddon	Strwythur: Disodlodd 75 o gynghorau tref a 5 cyngor bwrdeistref mewn system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 29 o siroedd, y system flaenorol o Gomisiynwyr Tref a Chynghorau Dosbarth Trefol yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2001. Mae poblogaeth ardaloedd cynghorau tref yn amrywio o 474 i 30,000. Mae gan gynghorau tref 9 aelod a etholir trwy gynrychiolaeth gyfrannol, mae gan gynghorau bwrdeistref 12 o aelodau.
	Swyddogaethau: Mae cynghorau tref a chynghorau bwrdeistref yn rhannu swyddogaethau cyfochrog â chynghorau sir gan gynnwys tai cyhoeddus, cynnal a chadw priffyrdd, cynllunio a darparu cyfleusterau hamdden. Mae'r rhan a gymerir gan gynghorau tref yn y gwaith o ddarparu'r swyddogaethau hyn yn amrywio.
	Cyllid: Grantiau gan lywodraeth ganolog, trethi masnachol a thaliadau ar gyfer gwasanaethau lleol.
	Ffynonellau: Llywodraeth Leol yn Iwerddon, www.environ.ie/localindex.html, Gwasanaeth Gwybodaeth Llywodraeth Iwerddon, www.oasis.gov.ie, Awdurdod Rhanbarthol y Canolbarth, www.midland.ie.
Portiwgal	Strwythur: 4,220 o blwyfi (freuguesias) mewn system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 305 o fwrdeistrefi. Mae cynulliad plwyf etholedig yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i benodi bwrdd plwyf sy'n rheoli'r gymuned.
	Swyddogaethau: Y plwyfi yw'r haen isaf, ac mae eu cyfrifoldebau yn ymwneud yn bennaf â chymorth cymdeithasol a chofrestru pleidleiswyr.
	Cyllid: Darperir 90% o'r arian ar gyfer llywodraeth leol gan y wladwriaeth ganolog. Codir rhywfaint o drethi lleol a ffïoedd trwyddedu.

	Ffynhonnell: Llyfrgell y Cynulliad Astudiaethau Gwledydd, lcweb2.loc.gov/frd/cs/.
Sbaen	Strwythur: Mae 8,098 o fwrdeistrefi (municipios) yn ffurfio'r brif haen o lywodraeth leol. Etholir cynghorau bwrdeistref bob 4 blynedd trwy gynrychiolaeth gyfrannol ac fe'u cadeirir gan Faer. Mae bwrdeistrefi â phoblogaeth o fwy na 5,000 hefyd yn penodi comisiwn bwrdeistrefol i oruchwylio gweinyddiaeth leol.
	Swyddogaethau: Gall cynghorau bwrdeistref ymgymryd ag unrhyw orchwyl nas neilltuir gan y wladwriaeth, gan gynnwys parciau a gerddi, rheoli eiddo'r fwrdeistref, mynwentydd. Rhennir y cyfrifoldebau dros iechyd ac addysg â'r llywodraethau rhanbarthol. Gall y llywodraethau canolog a rhanbarthol hefyd ddirprwyo swyddogaethau ychwanegol.
	Cyllid: Yn bennaf trwy grantiau o'r wladwriaeth ganolog, ac arian ychwanegol o drethi lleol ar fusnesau ac eiddo, taliadau gwasanaeth, ac ers 2002, dyroddiadau bond.
	Ffynhonnell: Llyfrgell y Cynulliad Astudiaethau Gwledydd, lcweb2.loc.gov/frd/cs/; Griffiths a Lawton (1992)
Sweden	Strwythur: 289 o gymunedau (kommuner) mewn system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 18 o gynghorau sir (landstig). Etholir cynghorau bwrdeistref bob 4 blynedd ac maent yn penodi pwyllgor gweithredol i arwain y weinyddiaeth.
	Swyddogaethau: Addysg, gofal plant, gwasanaethau cymdeithasol, gofal yr henoed a'r anabl, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol, gwasanaethau tân a brys, gweithgareddau diwylliannol, cyfleusterau hamdden, cyflenwi d_r ac ynni, gwaredu gwastraff, tai cyhoeddus. Darperir trafnidiaeth gyhoeddus ar y cyd â chynghorau sir.
	Cyllid: Yn bennaf o dreth incwm leol, daw cyllid ychwanegol o grant bloc gan lywodraeth ganolog ac incwm o wasanaethau. Gall bwrdeistrefi dderbyn grant ychwanegol (neu gall fod yn ofynnol iddynt dalu i mewn i gronfa ganolog) o dan 'system gyfartalu'
	Ffynhonnell: Llywodraeth Leol yn Sweden, www.sweden.se
Y Ffindir	Strwythur: Mae 448 o gymunedau (kommuner) yn ffurfio system o lywodraeth leol unedol o dan haen o lywodraeth ranbarthol. Mae maint poblogaethau yn amrwyio o 128 i 559,718 – mae gan 20% boblogaeth o lai na 2,000. Mae cynghorau a etholir bob 4 blynedd yn penodi bwrdd bwrdeistrefol a rheolwr bwrdeistrefol.
	Swyddogaethau: Addysg, lles cymdeithasol, llyfrgelloedd, gwasanaethau diwylliannol, gofal plant, gofalu am yr henoed, gwasanaethau iechyd sylfaenol, cynllunio defnydd tir, cyflenwi d_r ac ynni, rheoli gwastraff, cynnal a chadw ffyrdd, diogelu'r amgylchedd. Darperir ysbytai a rhai sefydliadau addysgol gan bartneriaethau rhwng cymunedau.

Cyllid: 52% o dreth incwm leol, trethi ar eiddo a chyfran o dreth gorfforaeth; 25% o incwm o wasanaethau; 15% o gymorthdaliadau gan y wladwriaeth.

Ffynhonnell: Cymdeithas Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol y Ffindir, www.kuntaliitto.fi

Yr Almaen

Strwythur: 16,068 o gymunedau (gemiende) o fewn system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 426 o siroedd (kreise). Mae gan gymunedau gyngor a Maer (a etholir yn uniongyrchol mewn rhai gemeinde).

Swyddogaethau: Datblygiad economaidd, gweithgareddau diwylliannol, cyfleustodau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus, adeiladu a chynnal a chadw ffyrdd lleol, ysgolion cynradd, cyfleusterau hamdden, gwaredu gwastraff, cynllunio defnydd tir. Ar ben hynny, gall llywodraethau ffededral a Länd ddirprwyo swyddogaethau i gymunedau, gan gynnwys cymorth cymdeithasol, gofal iechyd, traffig y ffordd, henebion hanesyddol, coedwigoedd a physgota, cofrestru dinasyddion a chofrestru cerbydau. Gall swyddogaethau dirprwyedig amrywio rhwng Länder.

Cyllid: Grantiau penodol ffederal a chan y wladwriaeth (36%), grantiau cyffredinol ffederal a chan y wladwriaeth (29%), cyfran leol o drethi masnach ac incwm ffederal a threthi masnach ac incwm a gesglir gan y wladwriaeth (28%), arian lleol (5% o drethi lleol, 2% o daliadau gwasanaeth).

Ffynonellau: Griffiths a Lawton (1992); Haschke (1997); Llyfrgell y Cynulliad Astudiaethau Gwledydd, lcweb2.loc.gov/frd/cs/.

Yr Eidal

Strwythur: 5,066 o gomiwnau mewn system o lywodraeth leol dwy haen yn cynnwys 95 o daleithiau. Mae gan 24% o'r comiwnau boblogaeth o lai na 1,000.

Swyddogaethau: Ysgolion meithrin, adeiladau ysgolion, yr heddlu, gofal yr henoed, gofal iechyd cyffredinol, tai cyhoeddus, adloniant a hamdden, datblygiad economaidd, amaethyddiaeth, coedwigoedd, cynnal a chadw priffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, cael gwared ag ysbwriel, dŵr a charthffosiaeth, mynwentydd, diogelu'r amgylchedd. Ar ben hynny mae gan gomiwnau swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo o'r taleithiau.

Cyllid: 43% o grantiau gan y wladwriaeth ganolog a'r taleithiau rhanbarthol, 26% o drethi lleol, 12% o ardollau a thaliadau, 13% o ffïoedd ac incwm o renti.

Ffynhonnell: Llywodraeth Ranbarthol a Lleol yn yr Eidal, parders.org/library/euro2/regional_and_local_government_in_italy_7.htm

Atodiad H: Siarter Enghreifftiol rhwng Prif Gyngor a Chynghorau Cymuned a Thref

Mae'r atodiad yn cyflwyno model yn dynodi ffurf a chynnwys Siarter rhwng cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a'r cynghorau cymuned a thref o fewn ei ardal, fel y cynigir yn argymhelliad 4.1. Mae'r model a gyflwynir yma yn seiliedig ar y Siarteri presennol a ddatblygwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chan Gyngor Sir Swydd Stafford, ac ar Siarter y Cynghorau Plwyf a Thref a gynigiwyd yn Lloegr. Rhagwelir y câi'r adrannau hynny mewn testun safonol eu hymgorffori fel arfer ym mhob Siarter, tra câi'r adrannau hynny mewn testun italig eu cynnwys fel y gwêl y cynghorau sy'n gysylltiedig â llunio siarteri unigol yn dda, neu gellir eu diwygio i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

Siarter rhwng Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol *'Canolbarth'* a Chynghorau Cymuned a Thref *'Canolbarth'*,

1. Rhagymadrodd

1.1 Cytunwyd ar y Siarter hon gan Gyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol 'Canolbarth' a'r cynghorau cymuned a thref o fewn ardal awdurdod lleol 'Canolbarth'. Mae'n adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed gan y cynghorau ar y cyd i weithio gyda'i gilydd er budd pobl leol, i wneud llywodraeth leol yn fwy agored ac yn fwy atebol, i wella cymaint â phosibl y modd y cyflwynir gwasanaethau ac i gadarnhau arferion da sy'n bodoli eisoes. Mae'r siarter hon yn nodi'r gweithdrefnau a ddilynir gan y ddwy haen o lywodraeth leol wrth gydweithio i gyflawni'r nodau hyn.

1.2 Mae Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol '*Canolbarth*' yn cydnabod mai cynghorau cymuned a thref yw lefel sylfaenol llywodraeth leol. Yn eu rôl fel cyrff democrataidd atebol, mae cynghorau cymuned a thref yn cynnig dull o gysylltu â phobl leol, o ddatganoli'r gwaith o ddarparu rhai gwasanaethau, ac o adfywio cymunedau lleol. Trwy weithio gyda hwy, mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ceisio gweithredu mewn partneriaeth â chymunedau lleol, tra'n cydbwyso anghenion yr ardal ehangach.

1.3 O'u rhan hwy, mae'r cynghorau cymuned a thref yng '*Nghanolbarth*' yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol, a'r arbedion maint a'r dosbarthiad teg o wasanaethau y gall ei sicrhau.

2. Cyfnewid Gwybodaeth

2.1 Mae Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol 'Canolbarth' a chynghorau cymuned a thref y sir wedi ymrwymo i hyrwyddo llywodraeth agored. Maent yn cydnabod bod cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol yn rhan bwysig o'r broses o adeiladu perthynas agored, gydweithredol.

2.2 Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn darparu ar gyfer cynghorau cymuned a thref:

- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob Cynghorydd Sir/Bwrdeistref Sirol
- Enw, teitl, lleoliad, rhif ffôn a ffacs pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth
- Pobl a enwyd fel cyswllt, a chyfeiriadau, rhifau ffôn a ffacs, o fewn pob adran
- Amserlen o gyfarfodydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol
- Agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd cysylltu cynghorau cymuned a thref
- Cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau
- Manylion cyswllt Cadeirydd ac Is-gadeirydd pwyllgorau pwysig

Diwedderir y wybodaeth hon yn rheolaidd

2.3 Bydd cynghorau cymuned a thref yn darparu ar gyfer y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol:

- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob cynghorydd cymuned/tref
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn clerc y cyngor cymuned/tref
- Rhestr o gyfarfodydd
- Agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y cyngor cymuned/tref
- Eitemau ar gyfer agendâu cyfarfodydd cysylltu'r cynghorau cymuned

Diwedderir y wybodaeth hon yn rheolaidd

3. Cysylltu

3.1 Mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r cynghorau cymuned a thref yn cydnabod mai wrth weithio gyda'i gilydd law yn llaw gyda'r naill yn cynorthwyo'r llall y gwasanaethir pobl leol orau. Mae'r adran hon yn nodi'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt i sicrhau bod cyswllt effeithiol rhwng y ddwy lefel o lywodraeth leol.

3.2 Bydd y Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol yn:

- Enwebu person y dylai cynghorau cymuned/tref gysylltu ag ef/hi yn gyntaf ar gyfer popeth yn ymwneud â'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ac y caiff holl wybodaeth y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ei hanfon oddi wrtho/wrthi
- Cynnal cyfarfodydd cysylltu chwarterol y gwahoddir cynrychiolwyr y cynghorau cymuned a thref iddynt.
- Derbyn eitemau ar gyfer agenda cyfarfodydd cysylltu cynghorau cymuned a thref o leiaf bymtheg diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod

- Anfon agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd i gynghorau cymuned a thref o leiaf dri diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod cysylltu'r cynghorau cymuned a thref, oni fydd yn anochel y bydd oedi i bapurau
- Cydnabod derbyn gohebiaeth o fewn saith diwrnod gwaith
- Hysbysu'r cynghorau cymuned neu dref perthnasol o fewn ugain diwrnod gwaith o'r canlyniad ynghylch materion (y gofynnwyd amdano gan y cyngor cymuned neu dref) y mae angen i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol weithredu yn eu cylch. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ysgrifennu at y cyngor(cynghorau) cymuned/tref i'w hysbysu o'r oedi ac i nodi dyddiad diwygiedig.
- Ateb yn Gymraeg pan dderbynnir gohebiaeth wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg, gan lynu wrth y targedau ar gyfer gohebiaeth yn Saesneg fel y nodwyd uchod
- Darparu rhywun i gyfathrebu yn Gymraeg â'r cyngor(cynghorau) cymuned/tref os oes angen. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith, cysylltir â'r galwr cyn gynted ag y bo modd
- Caniatáu i glercod cynghorau cymuned a thref ddefnyddio system fewnrwyd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol, lle y bo hynny'n briodol
- Trefnu digwyddiadau ac anerchiadau i hysbysu cynghorau cymuned a thref o bolisi a strategaeth y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol, ac i gyflwyno aelodau o staff y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol i gynghorwyr a chlercod cymuned a thref

3.3 Bydd cynghorau cymuned a thref yn:

- Enwebu cynrychiolwyr (un Cynghorydd Cymuned a Chlerc) i fynychu cyfarfodydd cysylltu gyda'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol.
- Darparu ar gyfer y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol agenda cyfarfodydd cysylltu'r cynghorau cymuned a thref o leiaf bymtheg diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod
- Cyfeirio pob eitem o ohebiaeth (ac eithrio pan y'u cyfarwyddir fel arall gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol) at y swyddog sy'n gyfrifol am gysylltu â'r cynghorau cymuned a thref
- Hysbysu'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol o fewn ugain diwrnod gwaith o'r canlyniad ynghylch materion y mae angen i'r cyngor(cynghorau) cymuned/tref weithredu yn eu cylch. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd y cyngor cymuned/tref yn ysgrifennu at y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol i'w hysbysu o'r oedi ac i nodi dyddiad diwygiedig
- Sicrhau cyfleusterau e-bost ar gyfer y clerc a'r cynghorwyr a hysbysebu'r ffaith eu bod ar gael er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu cyfathrebu electronig â'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol fel strategaeth ar gyfer cyflymu'r broses gysylltu.

4. Ymgynghori

4.1 Mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cydnabod gwerth y cyfraniad a wneir gan gynghorau cymuned a thref wrth gynrychioli buddiannau a barn eu cymunedau. O'u rhan hwy, mae cynghorau cymuned a thref yn parchu'r ffaith bod angen i bob Cyngor Sir/Cyngor Sir Bwrdeistref gydbwyso buddiannau unrhyw gymuned yn erbyn buddiannau ehangach y sir.

4.2 Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ceisio rhoi i gynghorau cymuned a thref y cyfle i gyflwyno sylwadau cyn gwneud penderfyniad sy'n effeithio ar y gymuned leol mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion canlynol:

- *Cynllun Corfforaethol*
- *Strategaeth Gymunedol*
- *Cynllun Iaith Gymraeg*
- *Cynllun Gwella*
- *Datblygiad Economaidd / Twristiaeth*

- *Cynlluniau fframwaith a chynlluniau lleol; cynlluniau pwnc*
- *Ceisiadau am ganiatâd cynllunio (trwy restr wythnosol)*
- *Ceisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig; cynigion ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr adeiladau rhestredig*
- *Sefydlu ardaloedd cadwraeth; gorchmynion cadw coed*
- *Rheoli hysbysebion*
- *Enwi strydoedd*

- *Newidiadau pwysig yn y defnydd a wneir o feysydd hamdden neu chwarae neu gau meysydd hamdden neu chwarae*
- *Newidiadau pwysig yn y defnydd a wneir o ganolfannau cymuned neu gyfleusterau cymunedol neu gau canolfannau cymuned neu gyfleusterau cymunedol*
- *Trefniadau neu newidiadau newydd pwysig ar gyfer lleoedd chwarae*
- *Mentrau a datblygiadau newydd pwysig o ran y ddarpariaeth gelfyddydol leol*
- *Agor, cau neu newid amserau agor llyfrgelloedd (gan gynnwys llyfrgelloedd symudol)*
- *Prosiectau cymunedol sy'n ymwneud â lleoliad neu gymuned benodol*
- *Ceisiadau am drwyddedau adloniant cyhoeddus (trwy restr wythnosol)*

- *Cynigion ar gyfer agor neu gau ysgolion a cholegau a reolir neu a ariennir gan awdurdod addysg lleol*

- *Newidiadau pwysig yn y modd y darperir gwasanaethau casglu a gwaredu ysbwriel domestig a dulliau newydd o gasglu a gwaredu ysbwriel domestig*
- *Newidiadau pwysig yn y modd y caiff strydoedd eu glanhau neu y caiff ysbwriel ei glirio a dulliau newydd o lanhau strydoedd a chlirio ysbwriel*
- *Sefydlu neu ddileu ardaloedd rheoli ysbwriel*
- *Darparu a lleoli cyfleusterau ailgylchu*
- *Sefydlu ardaloedd atal sŵn*

- *Ceisiadau am gymeradwyo gwaith adeiladu ymlaen llaw*
- *Cynlluniau cynnal priffyrdd pwysig; cyfundrefnau cynnal priffyrdd yn y gaeaf*
- *Cynlluniau rheoli traffig pwysig, cynlluniau diogelwch y ffordd*
- *Cau priffyrdd yn barhaol neu ddargyfeirio priffyrdd (gan gynnwys troedffyrdd, llwybrau ceffylau, llwybrau beiciau a phriffyrdd bach eraill)*
- *Newidiadau o ran y lleoedd parcio a ddarperir (gan gynnwys lleoedd parcio oddi ar y stryd ac ar y stryd)*
- *Gwasanaethau bysiau dan nawdd yr awdurdod lleol; cabanau aros bysiau'r awdurdod lleol*
- *Newidiadau mewn gwasanaethau rheilffordd pan hysbysir yr awdurdod lleol ohonynt a phan y'u cefnogir ganddo*

[DS: Awgrymiadau a geir yn y rhestr hon. Dylid cytuno ar y meysydd y mae angen ymgynghori yn eu cylch gan y partïon sy'n llofnodi'r siarter yn lleol i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol.]

4.3 Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn peidio ag ymgynghori yn briodol â chynghorau cymuned/tref, ac os felly rhoddir esboniad ysgrifenedig ar gais. Ar ben hynny gall y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ymgynghori â chynghorau cymuned a thref ynghylch materion nas cynhwysir yn y rhestr uchod pryd bynnag y mae o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy yn eu cylch, neu pan fydd cyfarfod cysylltu'r cynghorau cymuned a thref yn gofyn i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ymgynghori â hwy yn eu cylch.

4.4 Wrth ymgynghori â chynghorau cymuned a thref, bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn

- Anfon y wybodaeth briodol i'r cyngor (cynghorau) cymuned/tref o leiaf bymtheg diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion lle bynnag y bo modd. Os na ellir gwneud hynny, bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn esbonio'n glir y rhesymau dros y cyfnod byrrach
- Cynnwys datganiad clir ynghylch y materion y mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ymgynghori â'r cynghorau yn eu cylch
- Cynnwys dyddiad cau ar gyfer ymatebion
- Cynnwys copïau o bob dogfen berthnasol, gan gynnwys cynlluniau os gofynnir amdanynt
- Cynnwys enw swyddog y dylid cysylltu ag ef a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau penodol
- Cynnwys enw, teitl a chyfeiriad y swyddog y dylid anfon ymatebion ato

4.5 Bydd y cynghorau cymuned a thref yn:

- Ymateb yn ysgrifenedig o fewn y terfyn amser a bennwyd gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol
- Os na fydd hynny'n bosibl, gwneud cais ffurfiol am estyniad i'r terfyn amser cyn i'r terfyn amser gwreiddiol ddod i ben
- Cynghori'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol os nad ydynt am ymateb yn llawn.

4.6 Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn:

- Hysbysu'r cyngor(cynghorau) cymuned a thref yn ysgrifenedig o'i benderfyniad o fewn pymtheg diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad
- Esbonio, os oes angen, pam y mae'r penderfyniad yn wahanol i'r farn a gyflwynwyd gan y cyngor(cynghorau) cymuned/tref
- Ymgynghori â chyngor(cynghorau) cymuned/tref unwaith eto os bydd sylwedd y cynigion yn newid

5. Cynllunio

5.1 Mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cydnabod bod gan gynghorau cymuned a thref rôl bwysig i'w chwarae yn y broses gynllunio a bydd yn gweithio i'w helpu i gymryd rhan effeithiol yn y broses honno. Mae'r cynghorau cymuned a thref, yn eu tro, yn cydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol weithio o fewn paramedrau cyfraith gynllunio a pholisi cynllunio y cytunwyd arno. Mae'r adran hon yn nodi'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer sicrhau arfer da wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

5.2 Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn:

- Cadw at ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â chynghorau cymuned a thref ynghylch pob cais cynllunio yn eu cymunedau.
- Meithrin ymwybyddiaeth ymhlith cynghorau cymuned a thref o bolisi ac arfer cynllunio, gan gynnwys cylchredeg i gynghorau cymuned a thref gylchlythyr cynllunio'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol.
- Rhoi sylw priodol i'r cynrychioliadau a wneir gan gynghorau cymuned a thref ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.
- Caniatáu i un cynrychiolydd o gyngor cymuned neu dref annerch Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ynghylch cais cynllunio yn ei ardal, ar yr amod bod y weithdrefn hysbysu gywir wedi'i dilyn.
- Gwahodd cynrychiolwyr o gyngor cymuned neu dref i gymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio yn ei ardal.

- Hysbysu cyngor cymuned a thref yn ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â chais cynllunio yn ei ardal o fewn saith niwrnod i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, ac, os oes angen, esbonio pam y mae'r penderfyniad yn wahanol i'r farn a gyflwynwyd gan y cyngor cymuned/tref.
- Ystyried dirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio penodol, ar raddfa fach i gyngor cymuned neu dref achrededig (gweler isod) lle y mae pob aelod wedi cwblhau cwrs hyfforddi achrededig ar faterion cynllunio.

5.3 Bydd cynghorau cymuned a thref yn:

- Ymateb yn briodol i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol gan gydnabod y paramedrau a osodir gan gyfraith gynllunio a pholisi cynllunio y cytunwyd arno.
- Parchu'r egwyddor o wneud penderfyniadau gwrthrychol. Ni fydd cynghorwyr cymuned a thref yn defnyddio cyfleoedd i annerch pwyllgorau cynllunio neu i fod yn bresennol pan ymwelir â safleoedd i gyflwyno safbwyntiau adrannol.
- Hysbysu'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol o fwriad i annerch un o gyfarfodydd y pwyllgor cynllunio o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.
- Hysbysu'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol o fwriad cynghorwyr i fod yn bresennol pan ymwelir â safle o leiaf 48 awr cyn yr ymweliad.
- Hyrwyddo cyfleoedd i aelodau dderbyn hyfforddiant ar faterion cynllunio.
- Sicrhau bod gweithdrefnau a strwythurau priodol i hwyluso'r broses o gyflwyno cynrychioliadau hyddysg ystyriol ynghylch ceisiadau cynllunio o fewn yr amserlen angenrheidiol.

6. Dirprwyo Swyddogaethau

6.1 Mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cydnabod y dylid cyflawni swyddogaethau llywodraeth leol ar y raddfa lle y gwasanaethir y cyhoedd orau o ran ansawdd gwasanaethau, atebolrwydd cyhoeddus a gwerth am arian. Yn achos rhai swyddogaethau gall y rheolaeth leol a'r potensial ar gyfer buddsoddiadau ychwanegol a wneir yn bosibl trwy ddirprwyo'r cyfrifoldeb i gynghorau cymuned a thref wella'r gwasanaeth a ddarperir i bobl leol. Yn achos swyddogaethau eraill, mae arbedion maint ac ystyriaethau strategol yn golygu mai'r sir neu'r fwrdeistref yw'r raddfa briodol ar gyfer eu cyflawni.

6.2 Mae'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn croesawu ceisiadau gan gynghorau cymuned neu dref achrededig, neu gan grwpiau achrededig o gynghorau, ar gyfer dirprwyo swyddogaethau penodol a bydd yn ceisio hwyluso'r dasg o ddirprwyo swyddogaethau pan fydd yn gost-effeithiol ac yn ymarferol.

6.3 Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyfrifoldebau dirprwyedig, mae'n rhaid i gyngor cymuned/tref, neu grŵp o gynghorau cymuned/tref, yn gyntaf basio prawf achredu. Gall unrhyw gyngor neu grŵp o gynghorau wneud cais am achrediad, a roddir yn erbyn meini prawf a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a ddylai gynnwys:

- *Ni phenodwyd mwy nag 20% o aelodau'r cyngor trwy eu cyfethol.*
- *Mae'r clerc wedi cwblhau cwrs hyfforddi achrededig, neu mae ganddo fwy na 10 mlynedd o brofiad yn y swydd.*
- *Mae cyfleoedd hyfforddi wedi'u darparu ar gyfer aelodau'r cyngor.*
- *Mae'r cyngor llawn neu'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis.*
- *Mae cyfnod wedi'i neilltuo i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor llawn*
- *Mae strategaeth ar gyfer cyfathrebu'n rheolaidd â'r cyhoedd (e.e. cylchlythyr lleol, adroddiad blynyddol).*

6.4 Gosodir y prawf achredu gan y cynghorau cymuned a thref eu hunain ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol er mwyn iddo ei asesu. Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn hysbysu cyngor cymuned/tref o ganlyniad ei gais o fewn tair wythnos i'r dyddiad y derbyniwyd y prawf wedi'i gwblhau a gyflwynwyd ganddo.

6.5 Os gwrthodir rhoi achrediad, bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn rhoi rhesymau manwl yn ysgrifenedig i'r cyngor cymuned/tref. *Gall cyngor cymuned neu dref apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi achrediad i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Lywodraeth Leol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 60 o ddiwrnodau i'r dyddiad y'i hysbyswyd o'r penderfyniad hwnnw.*

6.6 Gall cynghorau neu grwpiau o gynghorau achrededig wneud cais i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol am i'r cyfrifoldeb dros unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol gael ei ddirprwyo iddynt:

- *Rheoli marchnadoedd*
- *Glanhau strydoedd*
- *Cynnal a chadw lleiniau ymyl ffordd, troedffyrdd a llwybrau troed*
- *Casglu ysbwriel a mesurau rheoli ysbwriel*
- *Goleuadau stryd*
- *Darpariaeth ailgylchu*
- *Enwi strydoedd*
- *Cyfyngiadau parcio*
- *Dosbarthu tocynnau bws a rheilffordd*
- *Mesurau diogelwch y ffordd*

- *Atal swŷn a niwsans*
- *Gorchmynion cadw coed*
- *Rhai agweddau ar y gwaith o reoli llyfrgelloedd ac amgueddfeydd*
- *Rhai agweddau ar y ddarpariaeth hamdden a thwristiaeth*
- *Cyfleusterau cyhoeddus*
- *Rhandiroedd*

[DS: Awgrymiadau yn unig a geir yn y rhestr hon. Dylid cytuno ar y swyddogaethau sydd ar gael i'w dirprwyo yn lleol gan y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol a chynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref fel eu bod yn adlewyrchu'r amgylchiadau lleol].

6.7 Ystyrir cais am gyfrifoldebau dirprwyedig gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol, a rhoddir sylw arbennig i'r goblygiadau yn gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth ar draws y sir neu'r fwrdeistref gyfan. Pan dderbynnir cais, caiff contract ei negodi rhwng y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol sy'n gyfrifol a chynrychiolwyr y cyngor cymuned/tref. Pan wrthodir cais rhoddir esboniad i'r cyngor cymuned/tref yn ysgrifenedig o fewn tair wythnos i'r dyddiad y derbyniwyd y cais.

6.8 Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r cyngor cymuned/tref yn cytuno ar drefniadau ar gyfer ariannu swyddogaethau dirprwyedig. Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol fel arfer yn rhoi grant i'r cyngor cymuned/tref yn seiliedig ar y gwariant blynyddol cymedrig gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ar y swyddogaeth benodol yn ardal y cyngor cymuned/tref yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

6.9 Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cytuno ar drefniadau ar gyfer staffio'r swyddogaethau dirprwyedig. Pan fydd hyn yn cynnwys trosglwyddo personél, bydd rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) yn berthnasol.

6.10 Dirprwyir swyddogaethau fel arfer am gyfnod penodedig adnewyddadwy o bedair blynedd. Pan fydd y swyddogaeth ddirprwyedig yn ymwneud â gwasanaeth neu amwynder cyhoeddus, bydd y cyngor cymuned/tref yn darparu cynllun busnes amlinellol i'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer rheoli'r gwasanaeth/amwynder yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys trefniadau i alluogi defnyddwyr i werthuso gwasanaeth/amwynder a rhoi adborth arno.

6.11 O dan amgylchiadau eithriadol gall y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol ddiddymu'r contract yn dirprwyo cyfrifoldeb dros swyddogaeth cyn i gyfnod y contract hwnnw ddod i ben, os (i) methwyd cyrraedd y trothwyon ar gyfer statws achrededig; (ii) na all y cyngor cymuned/tref ddarparu digon o gyllid i gynnal safon y gwasanaeth/amwynder i safon dderbyniol y gellir ei gwirio yn annibynnol; (iii) cadarnheir camymddwyn difrifol gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

7. Strategaethau Cymunedol

7.1 Bydd Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol 'Canolbarth' yn cynnwys cynghorau cymuned a thref yn y prosesau o baratoi a gweithredu'r strategaeth gymunedol i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ymgynghori â chynghorau cymuned a thref ac yn eu cynnwys yn unol â hynny ynghylch cynnwys a chyfeiriad y strategaeth gymunedol fel y mae'n effeithio ar y cymunedau lleol a gynrychiolir ganddynt.

7.2 Cynrychiolir cynghorau cymuned a thref ar y Partneriaethau Ardal a/neu'r Partneriaethau thema [neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt] a sefydlwyd fel rhan o strategaeth gymunedol 'Canolbarth'. [Cynnwys datganiad ar lefel y gynrychiolaeth].

8. Pwyllgor Safonau

8.1 Mabwysiadwyd codau ymddygiad gan y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r cynghorau cymuned a thref, yn seiliedig ar y cod ymddygiad enghreifftiol cenedlaethol. Bydd y cynghorau cymuned a thref yn gweithio gyda Phwyllgor Safonau'r Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel.

9. Cwynion

9.1 Os bydd cyngor cymuned neu dref yn anfodlon ar yr hyn y mae Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi'i wneud, ei ymateb i gais am wybodaeth, neu ei fethiant i ymgynghori, neu os bydd cyngor yn pryderu bod telerau'r Siarter hon wedi'u torri mewn unrhyw ffordd arall, gall gychwyn gweithdrefn gwyno ffurfiol y Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Atodiad I: Gweithredu'r Argymhellion

Argymhelliad	Pwnc	Wedi'i anelu at	A oes angen deddfwriaeth sylfaenol?
A3.1	Sefydlu cynghorau newydd	Llyw. CC. Llywodraeth leol	O bosibl gan ddibynnu ar yr opsiwn a ddilynir (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 28)
A3.2	Diddymu cynghorau	Llyw. CC. Llywodraeth leol	Oes (Deddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 28, para 4)
A3.3	Cyfuno cynghorau	Llyw. CC. Llywodraeth leol ac Un Llais Cymru	Oes-os yw'n arweiniad statudol Nac oes-os yw'n arweiniad anstatudol
A3.4	Newid ffiniau	Llyw. CC. Llywodraeth leol a darparwyr hyfforddiant	Nac oes
A4.1	Siarteri a dirprwyo swyddogaethau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a phrif gynghorau	Oes
A4.2	Trosglwyddo cyflogeuon	Llyw. CC. Llywodraeth leol a phrif gynghorau	Nac oes
A4.3	Strwythurau a gweithdrefnau cynghorau	Cynghorau cymuned a thref	Nac oes
A4.4	Hyfforddiant	Un Llais Cymru	Nac oes
A4.5	Achredu cynghorau	Llyw. CC. Llywodraeth leol	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1)
A4.6	Achredu grwpiau o gynghorau	Llyw. CC.	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1)
A4.7	Defnyddwyr yn rhoi adborth ac yn gwerthuso gwasanaethau	Llyw. CC. Llywodraeth leol, prif cynghorau a chynghorau cymuned a thref	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1)
A4.8	Yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1) (Deddf Llywodraeth Leol 1974, Adran 28)

A4.9	Gweithio mewn partneriaeth	Cynghorau cymuned a thref ac Un Llais Cymru	Nac oes
A4.10	Cyngor ar sicrhau arian, gweithio mewn partneriaeth, ac ati	Llyw. CC. Llywodraeth Leol ac Un Llais Cymru	Nac oes
A4.11	Disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi i aelodau newydd o staff	Un Llais Cymru	Nac oes
A5.1	Ymgynghoriadau statudol	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes
A5.2	Ymgynghori gan brif gynghorau	Prif cynghorau, Un Llais Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Nac oes
A5.3	Prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref yn cysylltu â'i gilydd	Prif cynghorau	Ddim yn uniongyrchol ond yn gysylltiedig ag A4.1
A5.4	Swyddogion cyswllt	Prif cynghorau	Nac oes
A5.5	Cyfarfodydd cysylltu	Prif cynghorau	Nac oes
A5.6	Strategaethau Cymunedol	Prif cynghorau	Nac oes
A5.7	Cymryd rhan yn y broses cynllunio	Is-adran Cynllunio Llyw. CC. a phrif awdurdodau cynllunio	Nac oes
A5.8	Cynrychioliadau i brif bwyllgorau cynllunio	Prif awdurdodau cynllunio	Nac oes
A5.9	Pwyllgorau cynllunio	Cynghorau cymuned a thref	Nac oes
A5.10	Dirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau	Prif awdurdodau cynllunio	Nac oes
A5.11	Hawl i apelio gan drydydd partïon	Is-adran Cynllunio Llyw. CC.	Nac oes
A5.12	Rhyngweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru	Llyw. CC., Llywodraeth leol ac Un Llais Cymru	Nac oes

A5.13	Arfer da wrth ymgynghori	Asiantaethau cyhoeddus ac Un Llais Cymru	Nac oes
A5.14	Gweithdrefnau ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau	Cynghorau cymuned a thref	Nac oes
A5.15	Cysylltiadau â'r sector gwirfoddol	One Voice Walec	Nac oes
A5.16	E-lywodraeth	Cynghorau cymuned a thref a Llyw. CC.	Nac oes
A5.17	Cynrychiolaeth ar gyrff llywodraethol ysgolion uwchradd	Is-adran Addysg Llyw. CC.	Nac oes
A5.18	Cynrychiolaeth ar Awdurdodau Parc Cenedlaethol	Adolygiad o Barciau Cenedlaethol	Ddim yn uniongyrchol (dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad)
A5.19	Cynrychiolaeth ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad	Llyw. CC., Llywodraeth Leol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad	Nac oes – os yw'n arweiniad statudol Oes - os nad yw'n arweiniad statudol
A5.20	Ardaloedd Gwella Busnes	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A5.21	Cymunedau'n Gyntaf a Phartneriaethau Gweithredu Cymunedol Gwledig	Llyw. CC.	Nac oes
A5.22	Strwythur Un Llais Cymru	Un Llais Cymru	Nac oes
A5.23	Cylch gwaith Un Llais Cymru	Un Llais Cymru	Nac oes
A5.24	Manteision bod yn aelod Un Llais Cymru	Un Llais Cymru	Nac oes
A6.1	Cysylltu â'r gymuned	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	Nac oes - ar gyfer arweiniad statudol Oes - ar gyfer arweiniad statudol
A6.2	Cynlluniau Iaith Gymraeg	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Nac oes
A6.3	Ymgynghoriadau â'r gymuned	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	Nac oes (yn gysylltiedig ag A6.1)

A6.4	Lledaenu gwybodaeth i'r gymuned	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	Ddim yn uniongyrchol ond yn gysylltiedig ag A4.1
A6.5	Adroddiadau blynyddol a gwefannau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	(yn gysylltiedig ag A6.1) A6.5 (i) Oes A6.5 (ii) Nac oes
A6.6	Mannau gwybodaeth un cam	Un Llais Cymru a Llyw. CC	Nac oes
A6.7	Hybu etholiadau 2004	Y Gweithgor ar Hybu Etholiadau Lleol 2004	Nac oes
A6.8	Cost etholiadau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	O bosibl (APA 1983, Gorchymyn Cyllido Llywodraeth Leol (Diddymiadau a Diwygiadau Canlyniadol) 1991
A6.9	Llenwi seddi gwag achlysurol	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a Chynghorau cymuned a thref	Nac oes
A7.1	Gwariant o dan adran 137	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes
A7.2	Rheoliadau benthyca	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Ddim yn uniongyrchol (dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad)
A7.3	Cyllido swyddogaethau dirprwyedig	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a phrif cynghorau	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1
A7.4	Trethu dwbl	Llyw. CC. Llywodraeth Leol, Cymdeithas lywodraeth Lleol ymru ac Un Llais Cymru	Nac oes
A7.5	Swyddogaethau cyfochrog	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A7.6	Grant Cynnal Refeniw a thollau annomestig	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes

A7.7	Cynllun Grantiau i Fusnesau a Chymunedau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes
A7.8	Arian ar gyfer mentrau cymunedol	Llyw. CC.	Oes
A7.9	Datganiad ariannol blynyddol	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	Oes (yn gysylltiedig ag A4.1)
A7.10	Cyfundrefn archwilio	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Ddim yn uniongyrchol (dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad)
A7.11	Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Llyw. CC. Llywodraeth Leol ac Un Llais Cymru	Nac oes
A7.12	Cynlluniau gweithredu cynghorau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol a chynghorau cymuned a thref	Nac oes
A8.1	Cynwysoldeb cynghorau	Cynghorau cymuned a thref	Nac oes
A8.2	Gweithio gyda phobl ifanc	Cynghorau cymuned a thref ac Isadran Cyfiawnder Cymdeithasol LlywCC	Nac oes
A8.3	Isafswm oedran ymgeiswyr	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes
A8.4	Cyfethol cynrychiolwyr ieuenctid di-bleidlais	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Oes (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 35 ac Adran 79)
A8.5	Lwfans sylfaenol ar gyfer cynghorwyr	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A8.6	Lwfansau ar gyfer gofal plant a gofal rhyddhad ar gyfer oedolion	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A8.7	Ad-dalu treuliau gan grwpiau o gynghorau	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Yec
A8.8	Cod Ymddygiad	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes

A8.9	Canllawiau ar gyfer cynghorwyr â mandad deuol	Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A8.10	Hyfforddiant	Un Llais Cymru	Nac oes
A8.11	Cyllid ar gyfer hyfforddiant	Un Llais Cymru Llyw. CC. Llywodraeth Leol	Nac oes
A8.12	Mentora cynghorwyr newydd	Community and town councilc and Un Llais Cymru	Nac oes
A8.13	Adnoddau gwybodaeth	Un Llais Cymru, Llyw. CC. Llywodraeth Leol a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	Nac oes
A9.1	Casglu data ariannol	Llyw. CC. Uned Data Llywodraeth Leol	Oes Nac oes - os bydd Llyw. CC. yn talu grant uniongyrchol i bob cyngor lleol
A9.2	Casglu gwybodaeth am gynghorau	Un Llais Cymru	Nac oes
A9.3	Hybu cynghorau	Un Llais Cymru	Nac oes

Cyfeiriadau

Aitchison, J., Baptiste, J-L., Jones, P.A., & Edwards, W.J. (1994) Community and Town Councils of Wales: A Handbook, Aberystwyth: RSRU/WACTC.

Clark, D. M. (1998) Local councils delivering services. Local Governance, 24(4), 275-284

Griffiths, M. P. & Lawton, A. (1992) Community Councils in Wales, Pontypridd: Coleg Politechnig Cymru

Haschke, D. (1998) Local government administration in Germany, in Born, S. (gol) Local Government Constitutions. InterNationes.

Hopkins, S. (1998) Creating working partnerships between county, district and local councils: the Charter experience, Local Governance, 24(4), 289-296

Howes, L. (1998) Local councils: what we can learn from France, Local Governance, 24(4), 249-255.

INSEE (1998) Les Campagnes et leur Villes. Paris: INSEE

Long, N. (2001) Parish, Town and Community Councils: the quiet revolution in local democracy. Llundain: Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol.

Michel, H. (1998) Government or governance? The case of the French local political system, Western European Politics, 21(3), 146-169

Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (1997) What can local councils do? Llundain: NALC.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2001) Cynllun Iaith Gymraeg Safonol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Cymru. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Woods, M. & Edwards, B. (2003) Elections to Town, Parish and Community Councils in England and Wales, 1998-2000. Cronfa ddata a ddelir gan Archifdy Data'r DU, Prifysgol Essex, Colchester.

Gallwch gael copïau pellach o'r ddogfen hon gan:

Margaret Salt
Is-adran Llywodraeth Leol 1b
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 20825490
E-bost: margaret.salt@wales.gsi.gov.uk